UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund

# Gwerthuso Adtrac

## Adroddiad Interim

### Y daith hyd yma

Awst 2020



# Gwerthusiad ADTRAC: Adriddiad Interim

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd**

Adroddiad Ymchwil Llawn: Chloë Maughan, Tom Marshall & Endaf Griffiths / Wavehill

wavehill™
social and economic research
ymchwil cymdeithasol ac economaidd

Safbwyntiau'r ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid rhai prosiect ADTRAC o reidrwydd.


## Am wybodaeth bellach am yr adroddiad, cysylltwch â:

Tom Marshall, Wavehill

Ffôn: 01545 571711

E-bost: tom.marshall@wavehill.com

## I gael rhagor o wybodaeth am ADTRAC, cysylltwch â:

Sara Williams, Rheolwr Rhanbarthol ADTRAC, Grŵp Llandrillo Menai

Ffôn: 01492 546666

E-bost: sara.williams@gllm.ac.uk

gllm.ac.uk/adtrac

@adtrac1624


Adroddiad Ymchwil Llawn: Maughan, C., Marshall, T., a Griffiths, E. (2020). *Gwerthusiad ADTRAC: Adroddiad Interim*.

# Cynnwys


Cynnwys ....................................................................................................... 4
Geirfa ............................................................................................................ 5
1. Cyflwyniad/Cefndir ................................................................................. 6
2. Methodoleg a Chyfyngiadau ................................................................ 11
3. Model Darparu a Rhesymeg ................................................................ 15
4. Gweithredu a Darparu ADTRAC ........................................................... 27
5. Cynnydd a Pherfformiad ..................................................................... 61
6. Canlyniadau i Gyfranogwyr ................................................................. 79
7. Canlyniadau i Sefydliadau Darparu ...................................................... 99
8. Conclusions ........................................................................................ 102
9. Argymhellion ...................................................................................... 109
Cyfeiriadau ................................................................................................ 111
Atodiad A: Offerynnau Ymchwil ................................................................. 115

# Geirfa

| Acronym/Llythrenw/ Gair allweddol | Diffiniad |
|---|---|
| ADTRAC | Rhaglen a ddarperir ar draws Gogledd Cymru i gynorthwyo pobl ifanc 16-24 oed sy'n ddi-waith |
| AMHS | Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Oedolion |
| BIPBC | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| CAB | Cyngor ar Bopeth |
| CAMHS | Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed |
| CfW | Cymunedau am Waith |
| GC | Gyrfa Cymru |
| DPS | System Brynu Ddeinamig |
| DWP | Adran Gwaith a Phensiynau |
| EET | Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant |
| EPC | Cydlynydd Ymgysylltu a Datblygu |
| ESF | Cronfa Gymdeithasol Ewrop |
| FTE | Cyfwerth ag Amser Llawn |
| GDPR | Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data |
| GLLM | Grŵp Llandrillo Menai |
| GP | Meddyg Teulu |
| ALl | Awdurdod Lleol |
| LMI | Gwybodaeth am y Farchnad Lafur |
| NEET | Pobl nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant |
| PaCE | Prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth |
| SPoA | Un Pwynt Mynediad |
| WEFO | Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru |
| WEMWBS | Graddfa Lles Meddwl Warwick-Edinburgh |
| WFGA | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol |
| WLHC | Cyflwr Iechyd sy'n Cyfyngu ar eich Gallu i Weithio |
| YEPF | Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid |

# 1. Cyflwyniad/Cefndir

1.1 Adroddiad interim yw hwn a gynhyrchwyd fel rhan o werthusiad Wavehill o brosiect ADTRAC – prosiect sy'n ceisio symud pobl ifanc 16-24 oed i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (EET). Mae Wavehill yn gwmni ymchwil cymdeithasol ac economaidd annibynnol, a gomisiynwyd gan Grŵp Llandrillo Menai (GLLM) i gynnal gwerthusiad o'r prosiect. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r cynnydd a wnaethpwyd wrth ddarparu ADTRAC tan fis Mawrth 2020. Fe'i rhagflaenwyd gan Adroddiad Cychwynnol a gwblhawyd ym mis Rhagfyr 2019, a bydd Adroddiad Terfynol ym mis Chwefror 2021 yn ychwanegu ato.

## Trosolwg o Brosiect ADTRAC

1.2 Mae ADTRAC yn weithrediad a ddarperir ar draws Gogledd Cymru, sy'n ceisio lleihau nifer y bobl ifanc 16-24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Ariannir y gweithrediad yn rhannol dan Brosiect Echel Blaenoriaeth 3: Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Pobl Ifanc, Amcan Penodol 1 Cronfa Gymdeithasol Ewrop. Y bwriad gwreiddiol oedd cynnal y gweithrediad tair blynedd rhwng mis Mawrth 2017 a mis Awst 2020. Yn dilyn gwaith ailbroffilio, fodd bynnag, disgwylir i'r gweithrediad ddod i ben ym mis Mai 2021.[1] Yn ystod y cyfnod hwn, nod ADTRAC yw cynorthwyo 1,451 o bobl ifanc sy'n NEET ac sy'n wynebu rhwystrau sy'n atal eu llwybr a'u dilyniant i EET.[2] Mae hyn yn cynnwys darparu cymorth iechyd meddwl a lles clinigol i bobl ifanc sydd â phroblemau iechyd meddwl ysgafn i

[1] Sylwer. Ar draws y rhanbarth, gwelwyd dyddiadau darparu gwasgarog o ganlyniad i weithgarwch recriwtio i'r tîm.
Ar Ynys Môn, cychwynnodd Rheolwr y Prosiect ym mis Ionawr 2018 a phenodwyd mentoriaid ym mis Mawrth y flwyddyn honno. Cychwynnodd gweithgarwch monitro data ar 22 Ionawr 2018, gwelwyd y cofrestriad cyntaf ar 15 Mawrth, a chynhaliwyd lansiad swyddogol y prosiect ar 19 Ebrill 2018.

Cychwynnodd ADTRAC ar ei waith gweithredol yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ddiwedd fis Chwefror 2018.

Yn Sir Ddinbych, aeth y prosiect yn fyw ar 13 Tachwedd 2017.

Yn Wrecsam a Sir y Fflint, cafwyd y cyfeiriad cyntaf ym mis Rhagfyr 2017, ac erbyn hynny, roedd y tîm eisoes yn ei le. Cafwyd mwy o gyfeiriadau ym mis Ionawr 2018 a dechreuodd y mentoriaid ddatblygu llwyth achosion. Yng Ngwynedd, cychwynnodd Rheolwr y Prosiect yn ei swydd ym mis Mehefin 2017 a cychwynnodd aelodau'r Tîm Darparu yn eu swyddi ym mis Medi 2017. Dechreuodd y prosiect gael cyfeiriadau ym mis Tachwedd 2017.

[2] Sylwer y diwygiwyd y ffigwr hwn o darged cychwynnol o 1,651 yn dilyn gwaith i ailbroffilio'r gweithrediad.

gymedrol. Nodir y targedau gwreiddiol a'r targedau yn dilyn y gwaith ailbroffilio yn Nhabl 1.1 isod.

1.3 Arweinir y prosiect gan GLLM ac fe'i ddarperir ar draws ardaloedd y chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru.[3] Ar lefel weinyddol, ceir dau brosiect ar wahân: prosiect Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a phrosiect Dwyrain Cymru. Mae'r prosiectau yn dwyn ynghyd GLLM, y chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru, a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC), sy'n darparu arbenigedd ym maes iechyd meddwl a lles. Dan arweiniad GLLM, darperir y prosiectau gan dimau a arweinir gan y chwe awdurdod lleol, a chaiff arbenigedd staff BIPBC ei gynnwys o fewn pob tîm.

### Targedau'r Prosiect

1.4 Ar ôl ailbroffilio'r prosiect, bydd Cyd-fuddiolwyr[4] yn gweithio gyda 1,451 o bobl ifanc a nodir yn unigolion NEET yn ystod cyfnod y gweithrediad, gyda'r nod o gyflawni'r canlyniadau canlynol.

[3] Ar draws yr awdurdodau lleol canlynol yn benodol: Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, a Chyngor Sir y Fflint.
[4] Mae Cyd-fuddiolwyr yn cyfeirio at y sefydliadau sy'n ymwneud â darparu ADTRAC, gan gynnwys y chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru, GLLM, a BIPBC.

**Tabl 1.1: Canlyniadau a dargedir**

| Canlyniad a dargedir | Nifer y cyfranogwyr a dargedir | Nifer y cyfranogwyr a dargedwyd (cyn ailbroffilio) |
|---|---|---|
| Cyfanswm y cyfranogwyr | 1,451 | 1,651 |
| Cyfranogwyr NEET (16-24 oed) yn sicrhau cymwysterau erbyn iddynt adael | 350 | 350 |
| Cyfranogwyr NEET (16-24 oed) yn symud ymlaen i addysg/hyfforddiant ar ôl gadael | 270 | 280 |
| Cyfranogwyr NEET (16-24 oed) yn symud ymlaen i gyflogaeth ar ôl gadael | 367 | 357 |
| Cyfranogwyr yn sicrhau canlyniadau cadarnhaol eraill[5] | 290 | 330 |

Ffynhonnell: Cynlluniau Busnes

1.5 Yn ychwanegol i'r targedau hyn, yn dilyn y gwaith ailbroffilio, roedd gan ADTRAC gyfres o dargedau cyfranogi (fel yr amlinellir yn Nhabl 1.2).

[5] Gallai canlyniadau cadarnhaol eraill gynnwys y canlynol:

- Sicrhau mwy nag un cymhwyster/achrediad o ganlyniad i'r ymyriad
- Sicrhau rhan-gymhwyster/achrediad
- Cyflawni hyfforddiant heb ei achredu
- Sicrhau ardystiad sy'n berthnasol i fyd gwaith erbyn gadael
- Cychwyn ar gwrs addysg rhan-amser (llai nag 16 awr)
- Cwblhau lleoliad profiad gwaith/cyfle gwirfoddoli
- Cychwyn cyflogaeth am lai nag 16 awr (gan gynnwys hunangyflogaeth)
- Cychwyn cyflogaeth ar gontract dim oriau
- Cychwyn ar hyfforddeiaeth
- Gwelliant o ran eu lles meddyliol
- Gwelliant mewn canlyniadau meddal

Sylwer. Cytunwyd gyda WEFO y bydd cychwyn ar hyfforddeiaeth yn cyfrif tuag at 'ganlyniad ymgymryd ag addysg/hyfforddiant' ond ni chaiff hwn ei hawlio gan y prosiect tan fis Medi 2020 a bydd gofyn i'r timau sicrhau'r safon ofynnol o ran y dystiolaeth. O'r herwydd, cynhwyswyd y canlyniadau hyn yng nghategori 'canlyniadau cadarnhaol eraill' yn y gwerthusiad interim hwn.

**Tabl 1.2: Targedau cyfranogi**

| Grŵp cyfranogi | Targed | Targed (%) |
|---|---|---|
| Cyfanswm y cyfranogwyr | 1,451 | |
| Cyfranogwyr sydd ag anabledd/cyflwr iechyd sy’n cyfyngu ar eu gallu i weithio | 112 | 8% |
| Cyfranogwyr sy’n BME/Mudwyr/Lleiafrifoedd | 31 | 2% |
| Cyfranogwyr sydd â chyfrifoldebau gofal plant/gofalu | 121 | 8% |
| Cyfranogwyr gwrywaidd | 721 | 50% |
| Cyfranogwyr benywaidd | 730 | 50% |

Ffynhonnell: Cynlluniau Busnes

## Sut y mae ADTRAC yn Gweithio

1.6 Mae ADTRAC yn darparu cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i gyfranogwyr, gan adlewyrchu eu hanghenion unigol a'r rhwystrau sy'n eu hatal rhag ymgymryd ag EET. Mae ADTRAC yn gweithio gyda chyfranogwyr i nodi'r rhwystrau sy'n eu hatal rhag sicrhau cyflogaeth, ac yna, mae'n darparu cymorth er mwyn eu helpu i oresgyn y rhwystrau hyn neu mae'n cyfeirio cyfranogwyr at asiantaethau eraill sy'n gallu darparu'r cymorth hwn.

1.7 Yng nghyd-destun y dull holistig sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, mae'r prosiect yn dwyn ynghyd cymorth cyflogadwyedd a darpariaeth iechyd meddwl a lles, a ddarperir yn rhannol gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol cymwys o BIPBC. Nid yw hon yn nodwedd gyffredin mewn ymyriadau cyflogadwyedd; penderfynwyd ei gynnwys yn y prosiect oherwydd pryder ynghylch lefelau uchel iechyd meddwl a lles gwael ymhlith unigolion sy'n NEET. Felly, mae'r prosiect yn gyfle pwysig er mwyn dysgu am sut i weithio gyda'r garfan hon, yn ogystal â'r rhwystrau er mwyn ymgymryd ag EET a wynebir gan bobl ifanc sy'n NEET.

1.8 Un o nodweddion anarferol eraill ADTRAC yw ei fod yn cael ei arwain gan GLLM, sefydliad nad yw'n ymwneud â darparu'r prosiect. Roedd rôl GLLM yn cynnwys sefydlu'r prosiect, trefnu methodoleg a phrosesau adrodd, gwaith monitro a darpariaeth y prosiect, sicrhau cyfathrebu parhaus rhwng partneriaid, cynnwys safbwyntiau partneriaid am benderfyniadau strategol a gweithredol, a darparu diweddariadau prosiect gan WEFO.

### Amcanion ar gyfer y Gwerthusiad Interim

1.9 Mae'r adroddiad interim hwn yn rhoi crynodeb o'r cynnydd a sicrhawyd wrth ddarparu ADTRAC tan fis Mawrth 2020, ac mae'n archwilio gwerth y dull hwn wrth gynorthwyo pobl ifanc sy'n NEET. Yn benodol, mae'r gwerthusiad interim yn ceisio nodi:

- cynnydd y gweithrediad wrth gyflawni ei ddangosyddion perfformiad
- effeithiolrwydd prosesau gweithredol a rheoli
- effeithiau cynnar y prosiect ar sefydliadau darparu a buddiolwyr y prosiect
- argymhellion cychwynnol er mwyn sicrhau gwelliant.

# 2. Methodoleg a Chyfyngiadau


2.0 Mae'r adran hon yn amlinellu'r dull methodolegol a fabwysiadwyd yn ystod y cam hwn o'r gwerthusiad, yn ogystal â chyfyngiadau'r dull hwn y mae'n bosibl eu bod yn effeithio ar gadernid y canfyddiadau a'r casgliadau a dynnwyd ohonynt.

### Methodoleg

2.1 Mae'r gwerthusiad hwn wedi mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar theori. Roedd hyn yn cynnwys datblygu cadwyn resymeg ar gyfer yr ymyriad a fframwaith gwerthuso a oedd yn cynnwys dangosyddion, a fydd yn caniatáu mesur cynnydd y prosiect tuag at ganlyniadau a ragwelwyd.

2.2 Amlinellir y gadwyn resymeg lawn ar gyfer y prosiect yn yr Adroddiad Gwerthuso Cychwynnol. Fodd bynnag, mae'n seiliedig ar y resymeg ymyrraeth gymharol syml ganlynol.

2.3 Ffigwr 2.1: Cadwyn resymeg ganolog ar gyfer ADTRAC




2.4

2.5 Ar sail y resymeg hon, datblygwyd fframwaith gwerthuso, gan gynnwys cwestiynau proses a chanlyniad ac effaith, a dangosyddion gwrthrychol a goddrychol.

2.6 Er mwyn ateb y cwestiynau gwerthuso a nodwyd yn y fframwaith gwerthuso, mae'r gwerthusiad interim wedi mabwysiadu dull sy'n cynnwys dulliau cymysg,

sy'n dwyn ynghyd gwaith dadansoddi meintiol ac ansoddol. Mae hyn wedi cynnwys y gweithgareddau casglu data canlynol:

2.7 Adolygiad o ddata monitro a dogfennaeth allweddol ar draws ardaloedd Cyd-fuddiolwyr, gan gynnwys Data Monitro Cyfranogwyr a ddarparwyd tan fis Mawrth 2020 a Chofnodion Gwersi a Ddysgwyd.

2.8 Arolwg ar-lein o'r staff a fu'n ymwneud â rheoli a darparu ADTRAC (n = 48), er mwyn deall persbectifau am y dull cyflwyno a'r effeithiau tybiedig. O blith y 48 o staff a gwblhaodd yr arolwg, adroddodd 34 eu bod yn ymgysylltu'n uniongyrchol gyda chyfranogwyr fel rhan o'u rôl, ac adroddodd 12 bod eu rôl yn ymwneud â rheoli staff eraill sy'n darparu ADTRAC. Caiff copi o'r arolwg ei gynnwys yn Atodiad A.

2.9 Cyfweliadau un-i-un manwl dros y ffôn gyda staff sy'n ymwneud â rheoli a darparu ADTRAC (n = 9), er mwyn casglu dirnadaeth bellach am y ffordd y cyflwynir y prosiect a safbwyntiau ynghylch prif sialensiau a chryfderau y model cyflwyno. Caiff copi o'r canllaw trafod ei gynnwys yn Atodiad A.

2.10 Cyfweliadau un-i-un manwl dros y ffôn gyda rhanddeiliaid strategol (n = 9) er mwyn deall ffit strategol y prosiect, a safbwyntiau am y cymorth a roddwyd. Roedd y grŵp hwn yn cynnwys staff a fu'n ymwneud â darpariaeth ehangach cymorth er mwyn lleihau cyfraddau'r bobl ifanc sy'n NEET, gan gynnwys staff awdurdodau lleol, yn ogystal â staff sefydliadau cymorth eraill fel yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) a Barnardo’s. Caiff copi o'r canllaw trafod ei gynnwys yn Atodiad A.

2.11 Cyfweliadau un-i-un dros y ffôn gyda chyfranogwyr (n = 30) er mwyn cael dealltwriaeth fanwl o effaith cymorth ADTRAC ar gyfranogwyr, a safbwyntiau ynghylch sut y cyflwynir y cymorth. Caiff copi o'r canllaw trafod ei gynnwys yn Atodiad A.

2.12 Cynigiwyd yr holl ddulliau casglu data hyn yn ddwyieithog (yn Gymraeg ac yn Saesneg).

2.13 Cynhaliwyd dadansoddiad thematig o'r wybodaeth ansoddol a gasglwyd trwy gyfrwng cyfweliadau ac ymatebion i'r arolwg. Mae dadansoddi thematig yn ddull

o nodi, dadansoddi ac adrodd patrymau (themâu) o fewn data (Boyatzis, 1998). Fe'i cynhelir trwy nodi themâu allweddol mewn testun, trawsnewid y themâu hyn yn godau a'u crynhoi mewn llyfr codau (Guest, et al., 2012). Mae'r dull yn cynnwys saith cam: trawsgrifio,[6] darllen ac ymgyfarwyddo, codio, chwilio am themâu, adolygu themâu, diffinio ac enwi themâu, a chwblhau'r dadansoddiad (Braun & Clarke, 2013).

2.14 **Cyfyngiadau**

2.15 Defnyddiodd y gwerthusiad hwn ddulliau cyfweld manwl er mwyn ymgysylltu gyda chyfranogwyr a staff rheoli a darparu ADTRAC. Mae'r dulliau hyn yn galluogi ymchwilwyr i feithrin dealltwriaeth fanwl o safbwyntiau cyfranogwyr, gan eu bod yn galluogi cyfranogwyr mewn gwaith ymchwil i archwilio themâu yn eu geiriau eu hunain. Fodd bynnag, gall natur y dulliau hyn, sef y ffaith nad ydynt yn ddienw, beri rhywfaint o risg y bydd unigolion yn rhannu safbwyntiau mwy ffafriol oherwydd pryderon ynghylch cyfrinachedd, yn enwedig pan fo unigolion yn rhannu gwybodaeth sensitif sy'n ymwneud â'u cyflogaeth.

2.16 Dylid nodi hefyd yr enwebwyd y cyfranogwyr a gyfwelwyd gan swyddogion arweiniol o bob awdurdod lleol. Dewiswyd cyfranogwyr addas mewn trefn er mwyn lleihau'r posibilrwydd y byddai cyfranogwyr ymchwil sy'n gofidio ynghylch cael ymchwilwyr yn cysylltu â nhw, yn dioddef niwed. O'r herwydd, mae'n bosibl bod cyfranogwyr wedi cael eu dewis ar gyfer y gwerthusiad, sydd wedi cael profiadau mwy ffafriol ac y mae ganddynt anghenion llai cymhleth nag anghenion eu cymheiriaid. Mae'r cyfranogwyr hyn yn fwy tebygol o ymgysylltu llawer hefyd, sy'n golygu nad yw'r gwerthusiad yn adlewyrchu safbwyntiau cyfranogwyr sydd wedi bod yn llai tebygol o ymgysylltu gyda'r cymorth efallai. O ganlyniad, efallai nad yw safbwyntiau'r cyfranogwyr a oedd wedi cymryd rhan yn y cyfweliadau ar gyfer y prosiect hwn yn gynrychioliadol o'r grŵp ehangach o reidrwydd.

2.17 Mae'r potensial o weld tuedd yn y data hwn, fodd bynnag, wedi cael ei liniaru trwy ddefnyddio dulliau cymysg. Dadansoddwyd data a gasglwyd trwy gyfrwng y

[6] Sylwer. Yn yr achos hwn, darparwyd rhywfaint o'r data a gasglwyd fel testun ysgrifenedig (e.e. ymatebion arolwg) ac ni fu gofyn trawsgrifio.

cyfweliadau manwl yng nghyd-destun data arall, gan gynnwys arolwg dienw ymhlith staff rheoli a darparu, data monitro prosiect, a dadansoddiad o brif ddogfennaeth y prosiect. Yn ogystal, hysbyswyd pob un a gyfwelwyd o'r ffaith bod y tîm gwerthuso yn annibynnol ar y sefydliadau a fu'n ymwneud â darparu ADTRAC, a rhoddwyd sicrwydd iddynt y byddai eu hymatebion yn cael eu cofnodi mewn ffordd ddienw er mwyn sicrhau eu cyfrinachedd. Yn anffodus, pan gynhwyswyd niferoedd isel o'r rhai a gyfwelwyd o Gyd-Fuddiolwr penodol mewn cyfweliadau, mae hyn yn golygu na fu modd cynnig dadansoddiadau o'r gwahaniaethau rhwng patrymau ymateb ar draws Cyd-Fuddiolwyr o ganlyniad i'r risg y byddai modd adnabod ymatebwyr.

2.18 2.10 Dylid nodi hefyd y cynhaliwyd gwaith maes gyda chyfranogwyr ADTRAC yn ystod y cyfnod clo yn y DU[7] o ganlyniad i bandemig COVID-19. O ganlyniad i bandemig COVID-19, canslwyd chwe grŵp ffocws a drefnwyd gyda chyfranogwyr y prosiect a gynorthwywyd gan y Cyd-Fuddiolwyr, a phenderfynwyd cynnal cyfweliadau un-i-un dros y ffôn gyda chyfranogwyr yn lle hynny.

2.19 Yn ogystal â'r ffaith y bu gofyn newid y dulliau ymchwil a ddefnyddiwyd yn y gwerthusiad, mae'n bosibl y gallai COVID-19 fod wedi newid rhai o'r ymatebion a gafwyd. Gallai newidiadau i arferion gwaith o ganlyniad i COVID-19 yng ngoleuni mesurau cadw pellter cymdeithasol, fod wedi effeithio ar safbwyntiau cyfranogwyr am y cymorth a gynigiwyd, a cheir tystiolaeth bod pandemig y coronafeirws wedi cynyddu gofid nifer o bobl (Bentall, et al., 2020).

[7] O 23 Mawrth 2020, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y byddai'n rhaid i'r rhan fwyaf o boblogaeth y DU aros gartref a chadw pellter cymdeithasol (hynny yw, osgoi cael cyswllt gyda phobl y tu allan i uned aelwyd unigolyn) fel rhan o ddull y llywodraeth o reoli pandemig COVID-19. Dilynwyd y cyhoeddiad hwn gan gyhoeddiad Prif Weinidog Cymru, Mark Drakeford, y byddai'r mesurau yn cael eu gweithredu yng Nghymru hefyd, ac y byddent yn dod i rym y noson honno. Roedd y mesurau a weithredwyd yn atal nifer o fusnesau a gwasanaethau rhag darparu cymorth wyneb yn wyneb, gan gynnwys ADTRAC.

## 3. Model Darparu a Rhesymeg

3.0 Mae'r bennod hon yn archwilio'r rhesymeg a'r model darparu ar gyfer ADTRAC.

**Prif Bwyntiau:**

- Mae ADTRAC wedi ymgysylltu ag 893 o gyfranogwyr hyd yn hyn, o'i gymharu â tharged o 1,451.
- Mae cyfranogwyr yn wynebu ystod eang o rwystrau wrth iddynt ymgymryd ag EET; mae lefelau hyder isel, diffyg profiad/sgiliau cyflogadwyedd, diffyg sgiliau/cymwysterau, a phryderon iechyd meddwl yn arbennig o gyffredin ymhlith y rhain.
- Mae rhanddeiliaid yn ystyried bod y cymorth a ddarperir gan ADTRAC yn wahanol i gymorth arall sydd ar gael i bobl ifanc sy'n NEET.
- Mae rhanddeiliaid strategol yn adrodd bod ADTRAC wedi darparu gwerth ychwanegol, yn enwedig trwy gyfrwng ei bartneriaeth gyda BIPBC a chyswllt Ymarferwyr Iechyd Meddwl.

### Model Darparu

3.1 3.1 Mae ADTRAC yn weithrediad amlasiantaethol sy'n ceisio lleihau cyfran y bobl ifanc 16-24 oed sy'n NEET yng Ngogledd Cymru. Mae'r prosiect yn darparu ystod eang o gymorth, gan gynnwys:

3.2 cynnig cymorth cyflogadwyedd mwy traddodiadol megis cynorthwyo unigolion i ddatblygu eu CVs a sgiliau cyfweld;

3.3 caffael cyrsiau a hyfforddiant er mwyn cynorthwyo cyfranogwyr i feithrin eu sgiliau neu oresgyn eu rhwystrau er mwyn ymgymryd ag EET;

3.4 helpu cyfranogwyr i fanteisio ar a sicrhau cymwysterau ac ardystiadau hyfforddiant newydd;

3.5 cymorth iechyd a lles meddyliol arbenigol er mwyn datblygu strategaethau ymdopi a meithrin cydnerthedd; a

3.6 darparu gweithgareddau er mwyn helpu i wella hunanhyder, codi uchelgais a chynyddu cymhelliant.

3.7 Dynododd rhanddeiliaid strategol bod rhywfaint o orgyffwrdd rhwng y darpariaethau cymorth hyn a'r cymorth a ddarperir gan asiantaethau eraill sy'n ceisio lleihau cyfraddau NEET yng Ngogledd Cymru. Fodd bynnag, yr hyn sy'n gwahaniaethu ADTRAC a'r cymorth hwn yw ei ddull un-i-un pwrpasol, lle y mae mentoriaid yn cydweithio'n agos gyda chyfranogwyr er mwyn nodi eu hanghenion cymorth unigol, pennu nodau, a nodi pecyn cymorth sy'n galluogi'r cyfranogwr i gyflawni'r nodau hynny.

3.8 Yn ogystal, un o'r agweddau mwy unigryw ar ADTRAC, o'i gymharu â phrosiectau eraill sy'n darparu cymorth er mwyn symud pobl ifanc i EET, fu cynnwys Ymarferwyr Iechyd Meddwl a chymorth iechyd wrth ddarparu'r prosiect trwy gyfrwng partneriaeth gyda BIPBC.

3.9 Trwy gyfrwng y cymorth hwn a ddarperir, gall cyfranogwyr fanteisio ar gymorth iechyd meddwl clinigol trwy gyfrwng Ymarferwyr Iechyd Meddwl, pan fo hynny'n briodol. Yn ogystal, mae mentoriaid wedi cael hyfforddiant gan BIPBC, a oedd yn ceisio gwella eu sgiliau a'u galluogi i weithio mewn ffordd fwy effeithiol mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar les, megis trwy ymgorffori Pum Ffordd i sicrhau Lles yn eu gwaith.

3.10 Ffit Strategol y Gweithrediad: Sut Mae ADTRAC yn cyd-fynd â Chymorth Arall ar gyfer Pobl Ifanc yng Ngogledd Cymru?

3.11 3.5 Ceir cysylltiadau partneriaeth rhwng ADTRAC ac asiantaethau eraill sy'n ymwneud â darparu cymorth i bobl ifanc sy'n NEET, gan gynnwys trwy gyfrwng Paneli 16+ a Chyfarfodydd Partneriaeth NEET. Mae hyn yn galluogi ADTRAC i gydweithio gydag asiantaethau eraill er mwyn mapio'r ddarpariaeth, ac i nodi anghenion cymorth pobl ifanc. Nododd rhai rhanddeiliaid strategol yn eu hadborth bod cyfraniad ADTRAC at hyn yn rhan hanfodol o allu awdurdodau lleol i ddarparu elfennau'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid (YEPF).

3.12 3.6 Nododd rhanddeiliaid yn eu hadborth y bu ADTRAC yn rhan ganolog o waith cydgysylltiedig i leihau cyfraddau NEET, sy'n ymwneud â'r amcan o ddarparu mwy

o froceriaeth trwy gyfrwng gwasanaethau i bobl ifanc dan YEPF. Trafododd un rhanddeiliad bwysigrwydd ADTRAC yn ystod cyfarfodydd, er mwyn rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau a chynnig llwybr i drosglwyddo rhai pobl ifanc iddo. Pan oedd unigolion wedi gwrthod help, roedd ADTRAC weithiau yn gallu 'ffurfio'r cyswllt hwnnw a dweud ein bod ni yma pan fyddwch yn barod'. Nododd rhanddeiliad arall y bu ADTRAC yn arbennig o lwyddiannus wrth 'ddal' pobl ifanc a oedd yn Haen 1, sy'n cyfeirio at bobl ifanc nad yw gwasanaethau Gyrfa Cymru (GC) yn ymwybodol ohonynt.[8] Yn hyn o beth, mae ADTRAC yn helpu i gynorthwyo amcan adnabod yn gynnar dan YEPF.

3.13 ‘Cyn ADTRAC, roedd 60–70 o bobl ifanc yn Haen 1 — bellach, ceir dim ond 8–10.’ (Rhanddeiliad strategol, cyfweledig)

3.14 3.7 Ystyriwyd bod ADTRAC yn llwybr posibl er mwyn sicrhau cymorth i unigolion sy'n wynebu rhwystrau sylweddol wrth ymgymryd ag EET, neu nad oedd GC yn ymwybodol ohonynt, na fyddent yn cael cymorth asiantaethau eraill. Nododd rhanddeiliaid werth ychwanegol penodol ADTRAC i ymdrechion i weithio gyda phobl ifanc sydd bellaf i ffwrdd o'r farchnad lafur.

3.15 ‘Yn fy marn i, byddai'n anodd iawn cyflawni hyn heb ADTRAC. Er bod adnoddau eraill i gael, nid ydynt yn darparu'r un lefel o ran cymorth ar gyfer y rhai sydd bellaf i ffwrdd o'r farchnad lafur. Efallai y byddai unrhyw gyfranogwyr a fyddai'n cael eu dosbarthu fel llwyddiannau cyflym yn cael sylw mewn mannau eraill, ond nid y rhai pellaf i ffwrdd. Byddai CfW mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, ond nid y tu hwnt i'r ardaloedd hyn.' (Rhanddeiliad strategol, cyfweledig)

[8] Mae model ymgysylltu pum haen Gyrfa Cymru (ar gyfer ôl-16) ar gael yma.

3.17 3.8 Mae wyth deg y cant o staff rheoli a darparu yn cytuno bod ADTRAC yn cael ei integreiddio'n dda ymhlith cymorth arall sy'n ceisio sicrhau bod pobl ifanc yn ymgymryd ag EET yng Ngogledd Cymru.[9] Mae'n werth nodi nad oedd unrhyw ymatebwyr yn anghytuno â'r datganiad hwn; nododd yr 20% a oedd yn weddill nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno. Gallai hyn ddynodi nad oedd yr ymatebwyr hyn yn siŵr sut i ateb y cwestiwn, neu eu bod yn anghyfarwydd â'r cymorth arall sydd ar gael.

3.18 3.9 Nododd lleiafrif o randdeiliaid strategol eu bod yn teimlo bod rhywfaint o ddyblygu rhwng ADTRAC a rhai prosiectau eraill a ddarperir yn yr ardal, gan gynnwys gorgyffwrdd gyda CfW a GALLAF Weithio.[10] Adroddodd rhai rhanddeiliaid bod y ddarpariaeth a gynigir gan ADTRAC yn debyg i'r hyn a ddarperir trwy gyfrwng Cymunedau am Waith. O ganlyniad i gyfyngiadau gan y ffrydiau cyllid, fodd bynnag, ceir cyfyngiadau o ran ble y gall y prosiectau weithredu. Mae hyn wedi peri mwy o broblem i rai partneriaid nag eraill, gan ddibynnu ar gyfanswm y codau post Cymunedau yn Gyntaf mewn awdurdodau lleol.

3.19 3.10 Fodd bynnag, myfyriodd rhanddeiliaid yn gyffredinol eu bod yn teimlo bod ADTRAC yn cyd- fynd â rhaglenni cyflogadwyedd eraill sydd ar gael yng Ngogledd Cymru, yn enwedig trwy gyfrwng y cymorth holistig y mae'n ei ddarparu i gyfranogwyr, cyswllt BIPBC wrth ddarparu, a'i allu i weithio gyda chyfranogwyr sydd bellaf i ffwrdd o gyflogaeth. Disgrifiodd rhai rhanddeiliaid eu bod wedi teimlo fel pe bai ADTRAC yn darparu ffurf unigryw o gymorth 'holistig' neu 'gofleidiol' nad oedd prosiectau eraill yn ei ddarparu.

3.20

3.21

3.22 'Yn fy marn i, nid oes unrhyw un arall yn cynnig yr hyn y mae ADTRAC yn ei gynnig. Nid oes unrhyw un arall yn cynnig y math hwn o gymorth er mwyn meithrin hyder

[9] Ffynhonnell: Arolwg Staff Rheoli a Darparu (sylfaen = 48).
[10] Menter yw GALLAF Weithio sy'n rhedeg ar draws Gogledd Cymru, a arweinir gan BIPBC mewn partneriaeth ag RCS a Cais, sy'n cyfuno gofal iechyd meddwl gyda chymorth cyflogaeth, gyda'r nod o helpu pobl y mae ganddynt broblemau iechyd meddwl i sicrhau cyflogaeth barhaol. Darllenwch fwy amdano yma.

pobl a dwyn pobl o lefel isel iawn i fyny i'r pwynt lle y gallant sicrhau cyflogaeth. Pan fyddwn yn symud pobl ymlaen i gynlluniau cyflogadwyedd eraill, mae cyfradd lwyddo y rhai sydd wedi bod trwy ADTRAC lawer yn uwch.' (Rhanddeiliad strategol)

3.23 Yn ogystal, cyfeiriodd rhanddeiliaid at y sialensiau o gael gwahanol asiantaethau yn cyflwyno gwahanol raglenni. Ceir gwerth mewn mabwysiadu dull mwy cydgysylltiedig wrth ddarparu cynlluniau cyflogadwyedd, gan sicrhau y caiff cyfranogwyr eu cyfeirio at y cymorth cywir ac na fydd gwahanol gynlluniau yn 'cystadlu' am gyfranogwyr. Ymhellach, mynegwyd y farn gan randdeiliaid bod angen ystyried hyn wrth gomisiynu prosiectau yn y dyfodol, er mwyn sicrhau cydlyniaeth a chydweithrediad rhwng rhaglenni, yn ogystal â thegwch o ran yr hyn a gynigir i bobl sy'n byw mewn gwahanol ardaloedd.

3.24 Adroddodd rhai rhanddeiliaid eu bod yn teimlo fel pe bai ADTRAC eisoes wedi cyfrannu at ddarparu dull mwy cydgysylltiedig wrth ddarparu cymorth i bobl ifanc sy'n NEET yng Ngogledd Cymru, a'i bod yn ymddangos bod graddau hyn yn gwahaniaethu, gan ddibynnu ar ardal yr awdurdod lleol dan sylw. Yn wir, mewn rhai ardaloedd, amlinellodd rhanddeiliaid eu bod yn teimlo fel pe bai ADTRAC wedi bod yn “hanfodol” er mwyn darparu dull mwy cydgysylltiedig, gan bod y prosiect yn cydweithio'n agos gyda sefydliadau eraill er mwyn mapio cymorth posibl a sicrhau mai ADTRAC yw'r allbwn cywir ar gyfer yr unigolyn hwnnw, ac mae wedi dylanwadu ar gydweithio agosach o ganlyniad.

3.25 3.13 Fodd bynnag, myfyriodd rhai awdurdodau lleol, megis Sir Ddinbych,[11] bod ADTRAC wedi cyfrannu at ymdrechion ehangach i ddarparu cymorth cyflogadwyedd mwy holistig, er nad ADTRAC fu prif ysgogydd hyn. I rai, roedd y gwaith cydgysylltiedig hwn eisoes yn cael ei gynnwys yn eu model gwaith nhw er mwyn bodloni disgwyliadau YEPF.

[11] Ceir Un Pwynt Brysbennu o fewn Gweithio Sir Ddinbych, sef ei ddull cyffredinol er mwyn mynd i'r afael â thlodi. Mae rhagor o wybodaeth am Gweithio Sir Ddinbych ar gael yma.

3.26 3.14 Adroddodd rhanddeiliaid bod rhai bylchau posibl yn y cymorth a ddarperir gan ADTRAC, yn enwedig mewn perthynas ag unigolion “mwy anodd i'w cyrraedd” megis pobl ifanc sydd ag awtistiaeth a'r rhai sy'n gadael gofal, y bydd gofyn iddynt gael cymorth ychwanegol efallai er mwyn ymgysylltu â'r cymorth sydd ar gael. O ran y grŵp olaf, mynegwyd pryderon gan randdeiliad strategol ynghylch yr her i ADTRAC wrth sicrhau cydbwysedd rhwng y gofyniad i gyflawni gwaith manwl a hirdymor gyda chyfranogwyr sydd bellaf i ffwrdd o'r farchnad lafur, a'r angen i ddwyn i mewn a rhyddhau niferoedd digonol o gyfranogwyr er mwyn bodloni targedau'r rhaglen. Roeddent yn awgrymu y bydd angen cymorth manylach a dros y tymor hwy na'r hyn a ddarperir gan ADTRAC efallai, er mwyn cynorthwyo'r garfan hon i sicrhau canlyniadau cyflogaeth mewn ffordd effeithiol. Fodd bynnag, pwysleisiwyd bod y mentoriaid o ADTRAC yn gwneud gwaith effeithiol i ymgysylltu â'r grŵp hwn, a bod ymddieithrio yn digwydd yn amlach o ganlyniad i'r bobl ifanc eu hunain.

### 3.27 Gwerth Ychwanegol y Dull

3.28 3.15 Roedd cyfweliadau gyda rhanddeiliaid yn dynodi tybiaeth bod ADTRAC yn ychwanegu gwerth nid yn unig oherwydd y rhai y mae'n gweithio gyda nhw, ond hefyd oherwydd y ffordd y mae'n gweithio gyda'r bobl ifanc hyn. Adroddodd sawl rhanddeiliad bod ADTRAC yn gallu darparu lefel o gymorth holistig i bobl ifanc sy'n ddwys ac sydd wedi'i theilwra i'r rhwystrau y mae'r person ifanc yn eu hwynebu, ac na all asiantaethau eraill gynnig darpariaeth ar y lefel hon ac sydd mor ddwys â hon. Disgrifiwyd y prosiect fel darpariaeth 'unigryw' o ran y cynnig 'holistig' y mae'n ei ddarparu i gyfranogwyr. Roedd hyn yn cynnwys y 'cyswllt personol' yr oedd ADTRAC yn gallu ei ddarparu o'i gymharu â phrosiectau eraill, gan gynnwys y capasiti a oedd gan gynghorwyr i 'fynd allan a chwilio am y bobl ifanc' trwy guro ar ddrysau i ymgysylltu cyfranogwyr nad oeddent yn ymgysylltu gyda gwasanaethau eraill, a'r ffordd yr oedd cynghorwyr yn gweithio gyda phobl ifanc i weithio trwy eu rhwystrau. Roedd cymorth ADTRAC yn wahanol i gymorth arall gan 'nad yw ADTRAC yn gweithio gyda charfan – [mae'n] hollol bwrpasol i'r unigolyn'.

3.29 'Mae cyfuniad dulliau ALl, [AB] ac iechyd ar y cyd, arweinyddiaeth gadarn y prosiect rhanbarthol, meini prawf cymhwysedd clir iawn, a neilltuo capasiti o'r

timau i weithio gyda ac wrth ymyl cyfranogwyr mewn ffyrdd pwrpasol, creadigol ac wedi'u harwain gan anghenion, yn wahanol i'r hyn y gellir ei ddarparu mewn gwasanaethau craidd; mae'n mynd y tu hwnt i ddarpariaeth ymyriadau “wedi'u seilio ar dystiolaeth”, gan symud i ddull o weithio sy'n wirioneddol ganolbwyntio ar yr unigolyn ac a gaiff ei arwain gan anghenion.' (Arolwg Staff Rheoli a Darparu, ymatebydd 48)

3.30 Adroddodd rhanddeiliaid strategol yn aml eu bod yn teimlo fel pe bai dull ADTRAC yn eu galluogi i gynorthwyo pobl ifanc yr oeddent ymhlith y rhai lleiaf parod am fyd gwaith. Roedd un rhanddeiliad wedi cyferbynnu'r dull hwn gyda phrosiectau eraill sy'n 'gwneud rhai pethau ac yna, yn cerdded i ffwrdd' yn eu barn nhw.

3.31 ‘Nid oes unrhyw un arall yn darparu'r dull holistig hwn.’ (Rhanddeiliad strategol, cyfweledig) Yn ogystal, canmolwyd rôl BIPBC ac Ymarferwyr Iechyd Meddwl wrth ddarparu'r prosiect gan randdeiliaid strategol, am ddwyn “gwerth ychwanegol” i'r gweithrediad, mewn cyferbyniad â chymorth cyflogadwyedd arall sydd ar gael i bobl ifanc yng Ngogledd Cymru. Ar ben hynny, nodwyd bod ADTRAC yn cyd-fynd â'r Strategaeth Iechyd Meddwl i bob oed ar gyfer Gogledd Cymru.

3.32 Amlinellodd rhai rhanddeiliaid sut yr oedd pwysau ar Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) yn yr ardal yn golygu bod bwlch o ran y cymorth iechyd meddwl ar gyfer pobl ifanc yng Ngogledd Cymru, yr oedd ADTRAC yn helpu i'w lenwi. Heb ADTRAC, teimlwyd na fyddai nifer o'r bobl ifanc yr oedd y prosiect yn gweithio i'w cynorthwyo, yn gallu manteisio ar y math hwn o gymorth.

3.33 ‘Rydw i'n pryderu'n fawr y bydd ADTRAC... yn dod i ben... ac nid oes darpariaeth amgen ar gyfer y cyfranogwyr hynny. Byddant yn cwympo oddi ar glogwyn a bydd bwlch enfawr yn bodoli. Mae ADTRAC yn cynnwys elfennau da a drwg, ond mae ei egwyddorion yn hollol hanfodol ar gyfer y grŵp oedran hwnnw, ac mae dwyn iechyd meddwl i mewn iddo wedi bod yn hollbwysig. Rydym yn gweithio gyda chymaint o blant sy'n cyfaddef eu bod yn teimlo fel cyflawni hunanladdiad ac na allant ymdopi gyda bywyd... mae'r ochr iechyd meddwl yn hollbwysig. Mae'r holl brosiectau eraill yn genfigennus iawn o'r ffaith bod gan y prosiect weithiwr iechyd meddwl, gan bod iechyd meddwl yn broblem enfawr i bobl sy'n cychwyn ym myd gwaith.' (Rhanddeiliad strategol, cyfweledig)

3.34 Rhan o'r hyn yr oedd y cymorth hwn yn ceisio'i ddarparu oedd dull cydgysylltiedig er mwyn cynorthwyo pobl ifanc sydd ag anghenion cymorth iechyd meddwl ysgafn i gymedrol. Gall y torbwynt yn CAMHS lle y bydd pobl ifanc yn symud i Wasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion (AMHS) adael nifer o bobl ifanc heb gymorth. Canmolwyd ADTRAC gan ei fod yn gallu 'llenwi'r bwlch hwnnw', gan sicrhau bod 'cymorth cydgysylltiedig' er mwyn bodloni anghenion pobl ifanc sy'n NEET ac sydd ag anghenion cymorth ychwanegol. Ar ben hynny, nododd lleiafrif o randdeiliaid eu bod yn teimlo fel pe bai'r ddarpariaeth iechyd meddwl sydd ar gael trwy ADTRAC yn ychwanegu gwerth gan ei fod mewn lleoliad 'anghlinigol', a oedd yn galluogi pobl ifanc i fanteisio ar gymorth, nad ydynt yn teimlo'n gyffyrddus i fanteisio arno trwy leoliad mwy ffurfiol efallai, megis clinig. Proffil Cyfranogwyr

3.35 3.19 Hyd yn hyn, mae 893 o bobl ifanc wedi cymryd rhan yn ADTRAC,[12] o'i gymharu â tharged o 1,451. Fel y dangosir yn Nhabl 3.1, mae 47% o'r cyfranogwyr hyn wedi gadael y ddarpariaeth, a dosbarthir 38% fel cyfranogwyr gweithredol (byw neu wedi ail-ymgysylltu).

3.36 3.20 Roedd 500 o gyfranogwyr pellach wedi ymgysylltu â'r prosiect ond fe'u rhestrwyd fel rhai “nid ydynt yn hawlio”; felly, nid ydynt wedi cael eu cynnwys yn y dadansoddiad yn yr adroddiad hwn.[13] Rhestrwyd y cyfranogwyr hyn at ei gilydd fel piblinell: wedi ymddieithrio (n = 390) neu fel piblinell: yn aros am dystiolaeth (n = 98).

[12] Nid yw achosion lle y nodwyd bod cyfranogwyr “Heb fod yn Hawlio” wedi cael eu cynnwys yn y gwaith dadansoddi.

[13] Mae enghreifftiau o achosion lle nas hawliwyd cyfranogwyr yn cynnwys lle'r oedd tystiolaeth ar goll a oedd yn dangos bod cyfranogwyr yn bodloni meini prawf WEFO, neu lle y bu anawsterau wrth gofrestru unigolion ar ADTRAC.

**Tabl 3.1: Cyfranogwyr, yn ôl statws**

| Stats | Nifer y cyfranogwyr | Cyfran y cyfranogwyr (%) |
|---|---|---|
| Gweithredol: Wedi gadael | 422 | 47% |
| Gweithredol: Byw | 331 | 37% |
| Piblinell: Wedi ymddieithrio | 1 | 0% |
| Gweithredol: Wedi ail-ymgysylltu | 13 | 1% |
| Piblinell: Yn aros am dystiolaeth | 0 | 0% |
| Gweithredol: Wedi ymddieithrio | 126 | 14% |
| Cyfanswm | **893** | **100%** |

Ffynhonnell: Data Monitro Cyfranogwyr (sylfaen = 893)

3.37 3.21 Mae rhan fwyaf y cyfranogwyr sy'n ymgysylltu ag ADTRAC yn unigolion sydd wedi bod yn ddi-waith dros y tymor hir pan fyddant yn dechrau cael cymorth (57%).[14] Mae tri deg un y cant o'r cyfranogwyr wedi bod yn ddi-waith am y tymor byr, ac mae 12% yn cael eu hystyried fel unigolion economaidd anweithgar.[15] Mae bron i un o bob tri cyfranogwr yn dod o aelwyd lle nad oes gan unrhyw un swydd (32%). Yn ogystal, mae 23% o'r cyfranogwyr wedi manteisio ar wasanaethau iechyd meddwl trwy gyfrwng CAMHS neu AMHS yn hanesyddol.


3.38 Mae'r cyfranogwyr yn ADTRAC yn profi ystod eang o rwystrau y gallent eu hatal rhag ymgymryd ag EET, gan gynnwys materion megis hyder isel, diffyg profiad, a sgiliau/cymwysterau. Mae Ffigwr 3.1 yn dangos amrediad y rhwystrau y mae cyfranogwyr yn eu profi pan fyddant yn cychwyn gydag ADTRAC. Ar gyfartaledd, roedd cyfranogwyr wedi profi wyth o'r rhwystrau hyn erbyn iddynt gychwyn, a allai ddynodi bod anghenion cyfranogwyr yn arbennig o gymhleth.

3.39 Roedd y graddau yr oedd cyfranogwyr yn wynebu gwahanol rwystrau yn gwahaniaethu ar draws awdurdodau lleol. Rhennir y 10 prif rwystr a brofwyd fesul awdurdod lleol yn Ffigwr 3.2. Mae'n dangos, er enghraifft, bod iechyd meddwl yn cael ei brofi'n fwy cyson fel rhwystr yn Wrecsam a Sir y Fflint nag yr oedd, er enghraifft, yn Sir Ddinbych a Gwynedd. Yn yr un modd, roedd cyfran uwch o

[14] Yn ddi-waith am gyfnod o flwyddyn neu fwy.
[15] Ffynhonnell: Data Monitro Cyfranogwyr (sylfaen = 935).


gyfranogwyr o Ynys Môn a Sir Ddinbych wedi profi trafnidiaeth fel rhwystr o'u cymharu â chyfranogwyr o ardaloedd eraill.

**Ffigwr 3.1: Rhwystrau i sicrhau addysg, cyflogaeth a hyfforddiant y bydd cyfranogwyr yn eu profi pan fyddant yn cychwyn gydag ADTRAC**




Ffynhonnell: Data Monitro Cyfranogwyr (sylfaen = 893)

**Ffigwr 3.2: Y 10 prif rwystr wrth geisio ymgymryd ag EET a brofir gan yr holl gyfranogwyr, wedi'u rhannu yn ôl awdurdod lleol**



## Casgliadau

3.22 Ystyrir yn eang y caiff ADTRAC ei integreiddio'n dda o fewn y cymorth sydd ar gael er mwyn gostwng cyfraddau NEET yng Ngogledd Cymru. Ystyrir y cymorth mewn ffordd gadarnhaol gan randdeiliaid, a oedd yn canmol y dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o ran y cymorth a'r ffaith y caiff cymorth lles ac iechyd meddwl ei gynnwys yng nghynllun y prosiect. Mae rhanddeiliaid yn credu bod ADTRAC yn ychwanegu gwerth i'r cymorth arall a gynigir i bobl ifanc sy'n NEET yng Ngogledd Cymru.

# 4. Gweithredu a Darparu ADTRAC

4.0 Mae'r adran hon yn archwilio tybiaethau rhanddeiliaid ynghylch y ffordd y caiff ADTRAC ei ddarparu ar hyn o bryd. Cynorthwyir hyn gan archwiliad manwl o'r ffordd y mae'r gweithrediad yn perfformio yn erbyn y targedau a nodwyd yn y Cynlluniau Busnes (a nodwyd ym Mhennod 5).

**Prif Bwyntiau:**

- Yn gyffredinol, roedd staff cyflawni a oedd wedi cymryd rhan yn yr arolwg a'r cyfweliadau manwl o'r farn bod darpariaeth y rhaglen, gan gynnwys rôl GLLM fel arweinydd y prosiect, yn effeithiol ac yn briodol er mwyn cyflawni canlyniadau'r prosiect. Ymhellach, roedd y cyfranogwyr a gyfwelwyd yn teimlo'n gadarnhaol iawn ynghylch y cymorth yr oeddent wedi'i gael.
- Ceir rhywfaint o bryder, fodd bynnag, ynghylch y targedau canlyniadau ar gyfer y rhaglen. Ceir tybiaeth gyffredinol bod cyfranogwyr ADTRAC ymhellach i ffwrdd o'r farchnad lafur ac yn wynebu rhagor o rwystrau – a rhwystrau mwy cymhleth – nag a ragwelwyd ar y dechrau, gan gynnwys diffyg cyfleoedd cyflogaeth mewn rhai ardaloedd, sy'n golygu ei bod yn anos cyflawni rhai targedau canlyniadau.
- Barnwyd bod rôl BIPBC yn ased allweddol i ADTRAC, gyda'r ffaith bod gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol hyfforddedig yn cael eu cynnwys yn helpu i sicrhau y bodlonir anghenion iechyd meddwl cyfranogwyr, a'u bod yn cynorthwyo timau prosiect i ymgorffori gweithgarwch lles yn eu gwaith, megis Pum Ffordd i sicrhau Lles.
- Er ei fod o fudd er mwyn darparu ADTRAC, nododd rhai staff y bu rôl BIPBC yn "ddryslyd", gyda diffyg eglurder ynghylch safle staff BIPBC o fewn strwythurau timau. Roedd rhai staff yn teimlo bod lleoli rolau Ymarferwyr Iechyd Meddwl mewn timau awdurdodau lleol, ond eu bod yn cael eu rheoli a'u goruchwylio o fewn BIPBC, wedi arwain at y teimlad bod Ymarferwyr Iechyd Meddwl 'hanner i mewn/hanner allan' o'r tîm darparu.

- Nododd rhai staff cyflawni broblemau capasiti o ran cymorth iechyd meddwl hefyd – a oedd yn gysylltiedig â'r ffaith na chaiff Ymarferwyr Lles Cynorthwyol eu recriwtio – a bod hyn yn rhwystr wrth geisio cyflawni'r prosiect mewn ffordd effeithiol.
- Mae ADTRAC yn perfformio'n gryf ar draws yr holl Themâu Trawsbynciol.

## Rheoli'r Prosiect a Gweithio fel Partneriaeth

4.1 Darperir ADTRAC gan gonsortiwm o bartneriaid a arweinir gan GLLM. Roedd rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â nhw yn ystod y gwerthusiad yn teimlo'n gadarnhaol am y bartneriaeth, yn ogystal â'r prosesau yr oedd y gweithrediad wedi'u gweithredu er mwyn ei rheoli.

### *Rôl GLLM yn y Bartneriaeth*

4.2 Roedd rhanddeiliaid a staff rheoli a darparu yn teimlo'n gadarnhaol am rôl GLLM wrth arwain y prosiect. Yn gyffredinol, mae unigolion yr ymgynghorwyd â nhw yn ystod y gwerthusiad wedi bod yn falch gyda'r arweinyddiaeth a ddangoswyd gan GLLM trwy gydol y prosiect.

'Mae cymorth rheoli prosiect ac arweinyddiaeth GLLM wedi bod yn rhagorol o'r cychwyn cyntaf.' **(Arolwg Staff Rheoli a Darparu, ymatebydd 47)**

'Mae'r tîm rhanbarthol yn wych. Maen nhw'n ardderchog. Maent yn mesur nifer yn fwy o bethau nag y byddwn i, ond mae eu cymorth a'u gweithgarwch rheoli prosiect wedi bod yn arbennig.' **(Staff rheoli a darparu, cyfweledig)**

4.3 Ceir dau brif faes lle y canmolwyd rôl GLLM yn arbennig. Mae'r cyntaf yn ymwneud â rôl GLLM wrth sefydlu'r prosiect, trefnu prosesau adrodd a methodoleg. Mae'r ail yn ymwneud â rheolaeth prosiect parhaus ADTRAC, gan gadw'r prosiect ar y trywydd iawn mewn perthynas â gweithgarwch monitro a darparu parhaus, gan geisio safbwyntiau partneriaid ynghylch penderfyniadau gweithredol a strategol, cyfathrebu cyffredinol gyda phartneriaid y prosiect, a gweithredu fel cyfryngwr effeithiol rhwng WEFO a'r timau sy'n darparu'r prosiect.

Yn ogystal, mae'n ymddangos bod cael arweinydd nad yw'n ymwneud â darparu'r prosiect yn uniongyrchol yn elfen gadarnhaol o ADTRAC. Fodd bynnag, dylid nodi nad yw'r gwerthusiad hwn wedi ystyried rôl GLLM wrth arwain ADTRAC o'i gymharu â phrosiectau eraill.

*Gwaith Gwell mewn Partneriaeth*

4.4 Gofynnwyd i staff rheoli a darparu a fu'n cymryd rhan mewn cyfweliadau manwl a oedd y cydweithio rhwng sefydliadau wedi helpu i gryfhau cysylltiadau a chydweithio rhwng y sefydliadau partner sy'n ymwneud â'r gwaith darparu.

4.5 Nododd chwech o'r naw a gyfwelwyd bod y dull cydweithredol wedi helpu i gryfhau cysylltiadau rhwng sefydliadau darparu. Soniodd dau o'r rhai a gyfwelwyd am y ffordd y mae'r dull wedi helpu i gryfhau perthnasoedd gyda GC yn benodol. Bu aelod arall o staff yn myfyrio am y ffaith bod y dull cydweithredol yn "hanfodol" wrth helpu i rannu gwybodaeth a chael cyfeiriadau i'r gweithrediad.

4.6 Yn ogystal, disgrifiodd pedwar o'r rhai a gyfwelwyd sut yr oedd cyswllt sefydliadau partner wedi cael effaith gadarnhaol ar arfer gweithio yn eu sefydliad.

4.7 Fodd bynnag, nododd dau a gyfwelwyd o wahanol awdurdodau lleol y byddai modd gwella'r gwaith a wneir mewn partneriaeth. Roedd eu sylwadau yn cynnwys yr angen i rannu mwy o wybodaeth rhwng partneriaid, a nododd un a gyfwelwyd bod rhai rhannau o'r coleg yn anymwybodol o ADTRAC. Nododd un arall a gyfwelwyd bod anghysondebau mewn perthynas â phrosesau cyfeirio, yr oedd angen i bartneriaid roi mwy o sylw iddynt wrth reoli prosesau cymhwystra ar gyfer unigolion a gyfeiriwyd gan drydydd parti. Roeddent yn teimlo bod y cyngor yr oeddent yn ei gael gan GC yn anghyson pan oedd yn ymwneud â sut i gadarnhau cymhwystra unigolion a oedd wedi dod o gyfeiriwr trydydd parti.

4.8 Gofynnwyd i randdeiliaid strategol fyfyrio hefyd am ba mor effeithiol yr oedd partneriaid y prosiect yn cydweithio i ddarparu ADTRAC. Ymatebodd pump o'r rhai a gyfwelwyd i'r cwestiwn hwn, ac roedd eraill wedi gwrthod ateb gan eu bod yn teimlo'n fwy pell i ffwrdd o'r prosiect ac yn methu cynnig ymateb. O blith y rhai a ymatebodd, nododd tri ymatebydd eu bod yn teimlo fel pe bai'r bartneriaeth yn gweithio'n dda. Cafwyd ymatebion mwy awgrymiadol gan y ddau arall, a oedd yn myfyrio am y pethau cadarnhaol a meysydd posibl i'w gwella. Roedd yn ymddangos bod consensws ynghylch y ffaith bod agweddau cadarnhaol i'w gweld, gan gynnwys 'angerdd' y tîm a 'pherthnasoedd da' rhwng partneriaid. Fodd bynnag, nododd rhanddeiliaid bod y meysydd canlynol yn feysydd posibl er mwyn sicrhau gwelliant ynddynt:

- Gweithio gyda sefydliadau darparu eraill er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu hatgoffa o'r cymorth sydd ar gael.
- Gwella'r cyfathrebu rhwng BIPBC a thimau darparu ADTRAC er mwyn sicrhau bod timau darparu yn ymwybodol o'r cymorth sy'n cael ei ddarparu i'r cyfranogwr a phryd y byddant yn cyfarfod gyda'r cyfranogwyr.
- Gwella'r broses o integreiddio'r Ymarferwyr Iechyd Meddwl yn nhimau darparu ehangach ADTRAC er mwyn eu hatal rhag bod “hanner allan, hanner i mewn”. Adroddodd staff bod yr ymarferwyr yn cael eu rheoli gan BIPBC am resymau sy'n ymwneud â goruchwyliaeth glinigol, ond bod hyn wedi peri iddynt deimlo ychydig yn fwy ar wahân o'r tîm darparu ehangach. Dylid nodi y mynegwyd y pryder hwn gan leiafrif o staff rheoli a darparu yn unig, ac nad yw hi'n glir o'r data a yw staff BIPBC yn rhannu'r safbwyntiau hyn.

### *Cyswllt BIPBC*


4.9 Gofynnwyd i staff darparu a rhanddeiliaid strategol fyfyrio am yr effaith y mae cyswllt BIPBC wedi ei gael ar ddarparu ADTRAC yn eu barn nhw.

4.10 Fel y dangosir yn y siart isod, nododd mwyafrif helaeth y staff bod cyswllt gweithwyr iechyd meddwl hyfforddedig proffesiynol gyda'r broses o ddarparu'r prosiect yn helpu i:

- leihau'r rhwystrau i ymgymryd ag EET y mae cyfranogwyr yn eu hwynebu
- sicrhau y byddai modd bodloni anghenion cyfranogwyr, a
- chynorthwyo staff i ddatblygu eu gwybodaeth ynghylch lles, gan gynnwys sut i ymgorffori gweithgarwch lles yn eu gwaith, megis Pum Ffordd i sicrhau Lles.[16]

[16] Amrediad o strategaethau a ddefnyddir yn eang yw'r Bum Ffordd i sicrhau Lles, er mwyn helpu unigolion i gynorthwyo eu lles a'u hiechyd meddwl eu hunain ar sail arfer wedi'i seilio ar dystiolaeth. Mae'r Bum Ffordd yn cynnwys: cysylltu gyda phobl arall, bod yn weithgar, dysgu sgiliau newydd, rhoi i eraill, ac ymwybyddiaeth ofalgar. Caiff y Bum Ffordd i sicrhau Lles eu hyrwyddo gan amrediad o sefydliadau iechyd meddwl a lles gan gynnwys GIG, Mind, a What Works Centre for Wellbeing. Mae mwy o wybodaeth ar gael yma.

**Ffigwr 4.1: Safbwyntiau staff rheoli a darparu ynghylch sut y mae cyswllt gweithwyr iechyd meddwl hyfforddedig proffesiynol gyda'r prosiect wedi effeithio ar y gweithrediad**




Ffynhonnell: Arolwg o Staff Rheoli a Darparu (n = 46)

4.11 Yn ystod cyfweliadau manwl, myfyriodd mwyafrif y staff bod cyswllt BIPBC wedi cael effaith gadarnhaol. Y rhesymau cyffredin y cyfeiriwyd atynt dros hyn oedd:

- Y rôl a gyflawnir gan BIPBC wrth hyfforddi mentoriaid a chynnig arweiniad a chymorth i'r rhai sy'n cynorthwyo cyfranogwyr gyda phroblemau lles.
- Rôl BIPBC wrth ddarparu cymorth i gyfranogwyr.

Adroddodd staff bod cyswllt BIPBC yn gwahaniaethu'r cymorth a ddarperir gan ADTRAC o'r hyn a gynigir gan brosiectau eraill sy'n canolbwyntio ar gyflogadwyedd, yn ogystal â chynnig gwerth ychwanegol. 'Rydw i wedi bod yn gweithio gyda phobl ifanc mewn sefydliad hyfforddiant ers nifer o flynyddoedd ac rydych yn sylwi mai'r rheswm nad yw pobl ifanc yn llwyddo yw oherwydd y diffyg cymorth ar gyfer problemau iechyd meddwl.' **(Staff rheoli a darparu, cyfweledig)**

'Un o fanteision ADTRAC yw'r cymorth un-i-un y mae'r person ifanc yn ei gael gan y mentor a'r cyfle i fanteisio ar yr Ymarferwr Iechyd Meddwl mewn lleoliad anghlinigol... Er bod gwasanaethau i bobl ifanc fanteisio arnynt mewn awdurdodau lleol, mae angen help ar y bobl ifanc yr ydym yn eu cynorthwyo i fanteisio arnynt. Wrth i bobl ifanc ddisgrifio diffyg hyder fel rhwystr ac anhawster wrth ymgysylltu ag addysg, cyflogaeth a hyfforddiant, gall y mentor a'r Ymarferwr Iechyd Meddwl helpu trwy ddarparu cymorth un-i-un a'r cyfle i ddysgu mecanweithiau ymdopi y gallant eu defnyddio yn y dyfodol.' **(Arolwg Staff Rheoli a Darparu, ymatebydd 10)**

4.12 Bu rhanddeiliaid strategol yn canmol cyswllt BIPBC hefyd, gan nodi 'gwerth ychwanegol' yn deillio o'u cyswllt gyda'r prosiect. Adroddodd sawl rhanddeiliad eu bod yn teimlo eu bod yn gweld problemau iechyd meddwl yn gyffredin ymhlith pobl ifanc, yr oeddent yn cyfyngu ar eu cynnydd. Myfyriodd rhanddeiliaid eu bod yn teimlo bod cynnwys Ymarferwyr Iechyd Meddwl o fewn cymorth ADTRAC yn helpu i bontio bylchau yn y cymorth sydd ar gael i bobl ifanc, gan helpu unigolion i fanteisio ar gymorth, y gallent fod wedi penderfynu peidio manteisio ar gymorth mewn lleoliad mwy clinigol.

4.13 'Mae'n cynnig cymaint o werth ychwanegol oherwydd y pontio anodd rhwng rhwng CAMHs a gwasanaethau IM i oedolion, oherwydd y gall pobl gael eu gadael mewn rhyw fath o dir neb pan na fyddant yn gallu manteisio ar gymorth. Nid yw'n helpu eu sefyllfa, felly i rai pobl, mae hwn wedi pontio'r bwlch hwnnw. Yn [ein lleoliad], rydym yn gweld mwy a mwy o bobl gyda phroblemau iechyd meddwl a gyda phobl iau, yn fy marn i, hyd yn oed os nad ydynt wedi cael unrhyw gyswllt gyda thimau iechyd meddwl, mae cael cymorth proffesiynol yn wych o hyd. Mae'n rhoi'r haen ychwanegol honno iddynt.' **(Rhanddeiliad strategol, cyfweledig)** Fodd bynnag, mewn ffordd debyg i staff rheoli a darparu, nododd dau o'r rhanddeiliaid hyn sialensiau mewn perthynas â recriwtio pobl i swyddi Ymarferwyr Iechyd Meddwl, a oedd wedi gadael swyddi yn wag a chreu sialensiau mewn perthynas â bodloni anghenion cymorth cyfranogwyr.

## Darparu Cymorth i Gyfranogwyr

### *Cofrestru Cyfranogwyr*

4.14 Gellir cyfeirio pobl ifanc i'r prosiect trwy gyfrwng amrywiaeth o sianelau, gan gynnwys Canolfan Byd Gwaith (y cyfeirir ato yn nogfennaeth y prosiect fel DWP), GC, awdurdodau lleol (gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol a thimau iechyd meddwl cymunedol), prosiectau ESF eraill, sefydliadau AB ac AU, BIPBC (CAMHS a meddygfeydd), a hunan- gyfeiriadau. Mae'r tabl isod yn dynodi cyfran y cyfeiriadau a ddaeth o bob asiantaeth gyfeirio.

**Tabl 4.1: Cyfeiriadau i ADTRAC, fesul asiantaeth**[17]

| Asiantaeth gyfeirio | Nifer y cyfeiriadau | Cyfran y cyfeiriadau (%) |
|---|---|---|
| **Hunangyfeirio** | 61 | 7% |
| **Arall** | 93 | 10% |
| **Awdurdod lleol** | 150 | 17% |
| **Gyrfa Cymru** | 172 | 19% |
| **Adran Gwaith a Phensiynau** | 299 | 34% |
| **BIPBC** | 52 | 6% |
| **Trydydd sector** | 42 | 5% |
| **Prosiect ESF arall** | 7 | 1% |
| **Addysg bellach** | 4 | 0% |
| **Addysg uwch** | 1 | 0% |
| **Panel YEPF** | 11 | 1% |

Ffynhonnell: Data Monitro Cyfranogwyr (sylfaen = 892)

4.15 Ar draws yr holl Gyd-Fuddiolwr, roedd 73% o'r staff rheoli a darparu yn cytuno bod y prosesau cyfeirio i ADTRAC yn glir ac yn hawdd i'w deall; roedd 15% yn anghytuno.[18] Roedd data ansoddol a gasglwyd mewn man arall yn awgrymu y bu rhai anawsterau mewn perthynas ag ymrwymiad yr unigolyn a gyfeiriwyd neu wybodaeth annigonol i nodi a yw'r unigolyn yn gymwys ar gyfer ADTRAC, a allai ddylanwadu ar dybiaethau y broses gyfeirio.

[17] Mae cyfeiriadau wedi'u codio yn 'Arall' yn cynnwys cyfeiriadau gan: Heddlu Gogledd Cymru, Gwasanaethau Cyffuriau ac Alcohol, Gwasanaethau Cwnsela, Gofalwyr Ifanc, Gwasanaethau Prawf, yn ogystal â phrosiectau Cefnogi Pobl a Byw â Chymorth.

[18] Ffynhonnell: Arolwg Staff Rheoli a Darparu (n = 46).

‘Rydym wedi cael problemau gyda sawl cyfeiriad gan DWP – pan gysylltir â'r cyfranogwyr, nid ydynt yn sylweddoli eu bod wedi cael eu cyfeirio, neu ni fyddant yn ymgysylltu. Cyfeiriwyd un o'r cyfeiriadau atom sawl gwaith, ond nid ydynt wedi ymgysylltu – dywedwyd wrtho bod angen iddo gael ei gyfeirio ond nid yw'n dymuno ymgysylltu mewn gwirionedd. Efallai y caiff rhai eu cyfeirio er mwyn cael Credyd Cynhwysol yn unig, er enghraifft, ond nid ydynt yn dymuno dilyn y broses gyfan.' **(Staff rheoli a darparu, cyfweledig)**

‘Gallai'r ffurflen gyfeirio fod yn well. Rydw i'n ei chael hi'n anodd nodi pwy sy'n briodol ar gyfer y prosiect gan bod nifer o'r cyfranogwyr yn nodi bod problemau hyder ac iechyd meddwl yn rhwystrau iddynt ac efallai y byddant wedi dioddef cryn drawma.' **(Staff rheoli a darparu, cyfweledig)**

4.16 Ar yr un pryd, mae'n bwysig nodi bod nifer o staff darparu wedi bod yn gadarnhaol iawn am y ffordd y mae ADTRAC wedi meithrin partneriaethau gyda sefydliadau partner. Adlewyrchir hyn yn y ffaith bod 87% o'r staff rheoli a darparu a arolygwyd yn cytuno bod ADTRAC wedi cael ei farchnata a'i hyrwyddo i sefydliadau partner mewn ffordd effeithiol, ac roedd 87% yn cytuno bod ADTRAC wedi cael ei hyrwyddo a'i farchnata i sefydliadau cyfeirio mewn ffordd effeithiol.

4.17 Roedd 74% yn cytuno bod ADTRAC wedi cael ei farchnata a'i hyrwyddo mewn ffordd effeithiol i ddarpar gyfranogwyr. Gellir esbonio'r lefel gytuno ychydig yn is hon gan y ffaith bod y gweithrediad yn dibynnu ar gyfeiriadau gan asiantaethau cyfeirio i raddau helaeth, yn hytrach na hunan-gyfeiriadau gan ddarpar gyfranogwyr.

*Cyn-ymgysylltu*

4.18 Roedd yn ymddangos bod dulliau cyn-ymgysylltu yn amrywio ar draws Cyd-fuddiolwyr. Roedd dulliau cyffredin yn cynnwys cysylltu dros y ffôn neu gyfarfodydd wyneb-yn-wyneb cychwynnol er mwyn galluogi staff i esbonio'r cymorth sydd ar gael ac i ymgyfarwyddo yn fwy gyda chyfranogwyr er mwyn deall eu hanghenion. Nododd un aelod o staff bod cnocio ar ddrysau yn cael ei ddefnyddio gyda chyfranogwyr arbennig o “anodd i'w cyrraedd”.

4.19 Adroddodd staff rheoli a darparu y gallai'r cam hwn fod yn heriol gyda rhai cyfranogwyr. Roedd hyn yn wir yn enwedig pan nad oedd ganddynt hyder neu

pan fyddant yn llai agored i ymgysylltu efallai (e.e. unigolion y maent wedi cael eu hannog i gofrestru, er mwyn eu galluogi i fanteisio ar fudd-daliadau, ond nad oeddent wedi ymrwymo cymaint i'r prosiect efallai).

4.20 Mewn rhai achosion, ymgysylltodd staff rheoli a darparu gyda sefydliadau cyfeirio er mwyn cynorthwyo eu hymdrechion cyn-ymgysylltu. Er enghraifft, yn dilyn cyfeiriad, nododd rhai staff eu bod wedi gwneud cyswllt uniongyrchol gyda sefydliad cyfeirio er mwyn casglu gwybodaeth ychwanegol i'w helpu i ddatblygu darlun mwy holistig o'r cyfranogwr er mwyn cynorthwyo ymdrechion ymgysylltu. Ymhellach, adroddodd rhai staff eu bod wedi gwneud cyswllt gyda sefydliadau cyfeirio i roi sylw pellach i gyfranogwyr lle'r oedd y cyswllt wedi bod yn aflwyddiannus, gan bod gan y sefydliadau cyfeirio berthnasoedd gyda chyfranogwyr yr oeddent yn bodoli eisoes, y gallent helpu i frocera perthnasoedd.

*Nodi Anghenion Cyfranogwyr*

4.21 Mae'r prosiect yn defnyddio Work Star[19] a WEMWBS (Graddfa Lles Meddwl Warwick– Edinburgh) [20] i nodi anghenion cyfranogwyr. Gofynnir i gyfranogwyr lenwi WEMWBS a Work Star pan fyddant yn gadael ac yn cyrraedd y prosiect er mwyn helpu i ddeall effaith y prosiect arnynt ac er mwyn archwilio'r cynnydd a sicrhawyd.

4.22 Mewn ymatebion i'r arolwg, nododd 91% o'r staff rheoli a darparu eu bod yn teimlo fel pe bai GLLM wedi gweithredu prosesau da er mwyn nodi anghenion cyfranogwyr (gan gynnwys anghenion iechyd meddwl). Dim ond 2% o'r staff oedd yn anghytuno.

4.23 Mewn cyfweliadau, holwyd staff rheoli a darparu am effeithiolrwydd Work Star a WEMWBS wrth nodi anghenion cyfranogwyr – rhoddwyd ymatebion mwy cymysg. Roedd mwyafrif y staff (7/9) yn canmol Work Star fel offeryn defnyddiol a oedd yn

[19] Offeryn holistig yw Work Star a ddefnyddir i fesur canlyniadau cyflogadwyedd a chyflogaeth. Mae'n cynnwys saith maes allweddol: (1) Profiad a sgiliau swydd, (2) Uchelgais a chymhelliant, (3) Sgiliau chwilio am swydd, (4) Sefydlogrwydd, (5) Sgiliau sylfaenol, (6) Sgiliau cymdeithasol a gweithle, a (7) Iechyd a lles.

[20] Mae WEMWBS yn raddfa sy'n cynnwys 14 eitem, a ddefnyddir i fesur lles cyfranogwyr. Mae'n offeryn a ddefnyddir yn eang er mwyn mesur lles meddyliol ar lefel genedlaethol a rhyngwladol, ac felly, mae'n cynnig cyfle i gymharu sgoriau lles cyfranogwyr ADTRAC gyda sgoriau'r rhai yn y boblogaeth gyffredinol.

eu helpu i gychwyn sgyrsiau gyda chyfranogwyr. Nododd staff eraill (2/9) bod effeithiolrwydd Work Star fel offeryn yn dibynnu ar y cyfranogwr, a bod rhai yn fwy amharod i'w lenwi, a bod rhai cyfranogwyr yn ei chael hi'n heriol deall y cwestiynau. Fodd bynnag, at ei gilydd, roedd yr adborth am Work Star yn fwy cadarnhaol na negyddol.

4.24 Roedd safbwyntiau ynghylch y defnydd o WEMWBS yn gymysg hefyd, er eu bod yn gadarnhaol ar y cyfan. Nododd mwyafrif y staff (6/9) eu bod yn teimlo bod WEMWBS yn ddefnyddiol. Wrth esbonio pam, nododd rhai aelodau o staff eu bod yn teimlo fel pe bai'n offeryn da er mwyn deall sut yr oedd y cyfranogwr yn teimlo a pham. Nododd nifer o staff (3/9) nad oeddent yn teimlo bod WEMWBS yn ddefnyddiol a nododd un aelod o staff ei fod yn rhoi sgôr i'r person ifanc heb unrhyw ganllawiau ynghylch sut i'w ddehongli. O ystyried mai rôl y mentor yw darparu'r cyd-destun hwn ar gyfer cyfranogwyr, mae'n awgrymu efallai bod angen cael hyfforddiant ychwanegol.

4.25 Amlygodd aelod o staff arall eu bod wedi canfod bod rhai pobl ifanc yn teimlo'n anghyfforddus wrth ei gwblhau. Yn yr un modd, cododd dau aelod o staff faterion ynghylch rôl meithrin perthynas wrth eu cynorthwyo i ddefnyddio Work Star a WEMWBS mewn ffordd effeithiol, oherwydd y bydd cyfranogwyr yn teimlo'n nerfus fel arall neu byddant yn gweld y profiad o lenwi'r holiaduron hyn ychydig yn 'fusneslyd'.

### *Cynllunio Gweithredu*

4.26 Gan ddilyn y broses a ddatblygwyd gan GLLM, datblygir cynlluniau gweithredu gyda chyfranogwyr yn ystod apwyntiadau cynnar ac fe'u defnyddir i ddeall eu nodau ar gyfer y tymor byr a'r tymor hir. Roedd yn ymddangos bod dulliau er mwyn adolygu'r cynlluniau gweithredu yn amrywio ar draws Cyd-fuddiolwyr. Mewn rhai achosion, adolygwyd cynlluniau gweithredu yn rheolaidd (megis bob yn ail fis), ac roedd eraill yn defnyddio'r rhain yn fwy fel offeryn ad hoc, gan ddefnyddio adolygiadau yn fwy pan oedd cyfranogwyr yn ei chael hi'n anodd ymgysylltu, pan yr oedd ganddynt anghenion cymhleth neu pan oeddent yn teimlo fel pe baent yn methu symud ymlaen.

4.27 Roedd staff yn teimlo'n gadarnhaol am y prosesau cyfredol er mwyn cynllunio gweithredu. Yn wir, roedd 89% o'r ymatebwyr i'r arolwg staff yn cytuno bod y broses o gynllunio gweithredu a weithredwyd gan GLLM yn briodol ac yn addas i'r diben, ac nid oedd unrhyw un yn anghytuno. Yn ychwanegol, roedd 82% o'r staff yn cytuno yr ystyrir nodau i gyfranogwyr a gweithgarwch cynllunio gweithredu yn ddigon rheolaidd; unwaith eto, nid oedd unrhyw un yn anghytuno.

4.28 Nododd staff rheoli a darparu bod adolygu'r cynllun gweithredu yn rhan ddefnyddiol o gynorthwyo cyfranogwyr. Pan oedd cyfranogwyr yn teimlo fel pe na baent yn gallu symud ymlaen neu eu bod yn cael anhawster gweld y cynnydd yr oeddent yn ei wneud, byddai modd ailystyried cynlluniau gweithredu er mwyn dangos eu cynnydd ac er mwyn helpu gyda'u cymhelliant i barhau gyda'r cymorth. Ymhellach, byddai modd eu defnyddio er mwyn ymateb i newidiadau yn amgylchiadau cyfranogwyr, gan addasu eu nodau a'u cymorth mewn ffordd briodol.

### *Cymorth a Roddwyd*

4.29 Nododd staff rheoli a darparu mai un o gryfderau'r cymorth a ddarparwyd trwy ADTRAC oedd y ffaith ei fod wedi cael ei 'deilwra i anghenion unigol'. Mae'r mathau o gymorth a gynigir yn cynnwys:

- Cymorth cyflogadwyedd, e.e. ysgrifennu CV, sgiliau cyfweld, cymorth wrth chwilio am swydd a gwneud ceisiadau, lleoliadau profiad gwaith, a chymorth wrth fynychu cyfweliadau
- Cymorth wrth ymgeisio am a pharatoi ar gyfer AB, coleg, prentisiaethau a hyfforddeiaethau
- Cymorth gyda hyder a phendantrwydd
- Sgiliau meddal a sgiliau bywyd, e.e. coginio a garddio
- Cymorth wrth fanteisio ar gymorth iechyd meddwl, gan gynnwys cymorth er mwyn cofrestru gyda Meddyg Teulu a chyfeirio at gymorth lles ac iechyd meddwl
- Cyfleoedd gwirfoddoli

- Cymorth wrth fanteisio ar ystod o wasanaethau eraill, e.e. banciau bwyd, tai, banciau, a CAB; a
- Chymorth trwy gyfrwng y Gymraeg.

4.30 Yn ogystal, cyfeiriwyd 48% o gyfranogwyr at BIPBC am gymorth iechyd meddwl mwy arbenigol. Mae Tabl 4.2 isod yn nodi manylion yr ymyriadau a gynigiwyd i'r cyfranogwyr hyn. Yn ogystal â'r gweithgareddau penodol hyn, darparwyd sesiynau galw heibio rheolaidd mewn rhai awdurdodau lleol er mwyn caniatáu i gyfranogwyr fanteisio ar gymorth lles. Yn Wrecsam a Sir y Fflint, darparwyd sesiynau grŵp wythnosol gan fentoriaid, Ymarferwyr Iechyd Meddwl ac asiantaethau allanol, gan archwilio mater perthnasol a ddewiswyd gan y bobl ifanc ac a fynychwyd gan 10-20 o bobl ifanc bob wythnos. Yng Ngwynedd, darparwyd 'Canolfannau' wythnosol gan Weithwyr Cymorth Ieuenctid, a gwelwyd 15 o gyfranogwyr yn mynychu Canolfan Caernarfon a 5-6 o gyfranogwyr yn mynychu Canolfan Dolgellau. Yn Sir Ddinbych, mae cwrs meithrin hyder chwe wythnos wedi bod ar gael i gyfranogwyr ac ers gweithredu'r mesurau cadw pellter cymdeithasol, darparwyd sesiwn galw heibio ar-lein wythnosol, 'Ar y trywydd iawn gydag ADTRAC'.

**Tabl 4.2: Ymyriadau a ddarparwyd gan BIPBC**

| Ymyriad BIPBC | Nifer yr ymyriadau | Canran |
|---|---:|---:|
| Un-i-un | 146 | 65% |
| Dim gweithredu | 18 | 8% |
| Cymorth lles | 40 | 18% |
| Cyffyrddiad ysgafn | 2 | 1% |
| Cymorth mentor | 4 | 2% |
| Sesiynau grŵp | 5 | 2% |
| Ymgynghori | 7 | 3% |
| Cyfeirio at wasanaethau craidd | 2 | 1% |

Ffynhonnell: Data Monitro Cyfranogwyr (sylfaen = 224)

4.31 Mewn cyfweliadau, adroddodd staff rheoli a darparu eu bod yn teimlo fel pe bai amrediad yr ymyriadau a gynigir gan ADTRAC yn addas i anghenion cyfranogwyr. Cefnogir hyn gan ddata yr arolwg, a ganfu:


- bod 84% o staff yn cytuno bod ADTRAC yn cynnig gweithgareddau priodol i fodloni anghenion cyflogadwyedd a diddordebau cyfranogwyr; roedd 4% yn anghytuno.
- bod 73% o staff yn cytuno bod ADTRAC yn cynnig gweithgareddau priodol i fodloni anghenion iechyd meddwl a lles cyfranogwyr; roedd 11% yn anghytuno.
- bod 93% yn cytuno bod y cymorth a ddarperir gan ADTRAC yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol parhaus i gyfranogwyr unigol; roedd 0% yn anghytuno.

4.32 Nid oedd hi'n hollol glir pam bod llai o staff yn teimlo bod ADTRAC yn cynnig gweithgareddau priodol i fodloni anghenion iechyd meddwl a lles cyfranogwyr. Fodd bynnag, mewn cyfweliadau gyda staff rheoli a darparu a rhanddeiliaid strategol, bu nifer fach yn trafod sialensiau mewn perthynas â nifer ofynnol yr Ymarferwyr Iechyd Meddwl, felly gallai'r farn hon fod yn cael ei dylanwadu gan broblemau capasiti.

4.33 Mae Ffigwr 4.2 isod yn dangos beth yw'r agweddau mwyaf llwyddiannus ar ddarpariaeth cymorth ADTRAC ym marn staff rheoli a darparu. Roedd hwn yn gwestiwn testun rhydd, y mae'r ymchwilwyr wedi ei ddadansoddi a'i godio er mwyn nodi themâu cyffredin (nodir y manylion isod). Nodwyd mai cymorth iechyd meddwl a ddarperir trwy ADTRAC oedd yr agwedd fwyaf lwyddiannus ar y ddarpariaeth amlaf, a ddilynwyd gan brofiad y mentoriaid, yn ogystal â'r ffaith bod natur y cymorth yn gymorth un-i-un, ac felly, yn canolbwyntio ar y cyfranogwr.

4.34 Canmolwyd y cam o gynnwys cymorth iechyd meddwl yn y cynnig gan ei fod yn sicrhau y gall cyfranogwyr fanteisio ar gymorth 'holistig', sy'n eu galluogi i oresgyn y rhwystrau unigryw yr oeddent yn eu hwynebu, gan helpu i'w symud yn agosach i'r farchnad lafur.

**Ffigwr 4.2: Ymatebion wedi'u codio i'r cwestiwn testun rhydd: "Yn eich barn chi, beth yw'r agweddau mwyaf llwyddiannus ar ddarpariaeth cymorth ADTRAC?"**




Ffynhonnell: Arolwg Staff Rheoli a Darparu (sylfaen = 46)

4.35 Mae'r dyfyniad isod yn disgrifio pwysigrwydd y cymorth un-i-un a ddarperir trwy gyfrwng ADTRAC, a sut y mae hyn yn rhoi gwerth ychwanegol o'i gymharu â chymorth arall ar gyfer pobl ifanc.

'Nid ydw i'n ymwybodol o wasanaethau [eraill] sy'n darparu cymorth i chi adael y tŷ, sy'n gwneud hyfforddiant trafnidiaeth gyda nhw neu sy'n eu helpu i fanteisio ar grŵp cymdeithasol o bobl ifanc yr un oed â nhw, y maent oll yn bethau pwysig iawn os ydym yn dymuno i bobl ifanc i fod yn llwyddiannus wrth gyflawni eu nodau a manteisio ar goleg, prifysgol a gwaith... Mae hyblygrwydd y cymorth yn unigryw: caiff ei redeg ar gyflymder y person ifanc, sy'n ymwneud yn fawr â'r cam o osod eu nodau eu hunain, manteisio ar gyfleoedd hyfforddiant pwrpasol, ac sy'n helpu i waredu rhwystrau megis cost gofal plant neu offer ar gyfer coleg, prifysgol neu gyflogaeth.' **(Arolwg Staff Rheoli a Darparu, ymatebydd 10)**

### Adborth am Ddarparu Cymorth

*Prif Sialensiau*

4.36 Er y bu'r adborth gan staff rheoli a darparu yn gadarnhaol ar y cyfan, nodwyd y materion canlynol gan staff rheoli a darparu fel sialensiau allweddol wrth ddarparu'r cymorth:

*Ymgysylltu Cyfranogwyr*

4.37 Hon oedd yr her a nodwyd amlaf gan staff rheoli a darparu mewn ymatebion i'r arolwg, ac a drafodwyd gan 29% o ymatebwyr. Roedd yr her hon yn ymwneud ag anawsterau wrth gael cyfranogwyr i ymgysylltu gyda'r cymorth ar y dechrau ac i barhau gyda'r cymorth. Roedd nifer o ffactorau a oedd yn tanlinellu'r her hon, gan gynnwys y rhwystrau cymhleth yr oedd y bobl yr oedd y prosiect yn ceisio ymgysylltu â nhw yn eu hwynebu, y mae gan nifer ohonynt anghenion iechyd meddwl ac y maent wedi dioddef profiadau niweidiol yn ystod eu plentyndod. Yn ogystal, nododd staff bod rhai sialensiau wrth geisio sicrhau bod cyfranogwyr yn parhau i ymgysylltu, o ganlyniad i brosesau y gallent fod yn hir ac y gallent beri i bobl ifanc golli ffocws. Rhoddir crynodeb o'r materion hyn yn y dyfyniad isod.

> 'Mae nifer o bobl ifanc yn bell iawn o'r farchnad lafur – mwy na'r disgwyl – ac mae goresgyn y rhwystrau hyn yn broses hir iawn. Gan bod y prosiect yn un gwirfoddol, mae'n aml yn anodd cynnal ymgysylltu i bawb... Gall y broses gaffael gymryd cryn amser ac yn aml, gall pobl ifanc golli ffocws wrth aros i gyrsiau gael eu caffael.' **(Arolwg Staff Rheoli a Darparu, ymatebydd 16)**

4.38 Mynegwyd pryderon gan rai rhanddeiliaid nad yw rhai o'r unigolion a gyfeirir at ADTRAC yn barod am y cymorth eto, naill ai oherwydd anghenion cymhleth (sy'n golygu nad ydynt yn barod i ymgymryd ag EET eto) neu oherwydd lefelau cymhelliant isel (a arweiniodd atynt yn tynnu yn ôl o'r cymorth).

### *Problemau gyda Gwaith Papur*

4.39 Nododd staff rheoli a darparu sialensiau gyda'r gwaith papur. Roedd y rhain yn cynnwys problemau gyda'r gwaith papur sy'n ofynnol er mwyn cofrestru cyfranogwyr, a'r ffaith na all rhai cyfranogwyr ddarparu rhif Yswiriant Gwladol, a adlewyrchwyd hefyd yn y Cofnod Gwersi a Ddysgwyd ar gyfer y gweithrediad. Yn ogystal, roedd y rhain yn cynnwys problemau gyda'r gwaith gweinyddol, yn ogystal ag anhawster manteisio ar dechnoleg ystwyth er mwyn bodloni gofynion elfen gwaith papur y prosiect.

### *Rheoli Problemau Iechyd Meddwl*

4.40 Adroddodd staff rheoli a darparu bod gan nifer fawr o gyfranogwyr anghenion iechyd meddwl cymhleth, sy'n golygu bod gofyn cael cryn dipyn o gapasiti er mwyn cynorthwyo'r unigolion hyn. Roedd rhai problemau a oedd yn ymwneud â'r cymorth ar gyfer staff sy'n ofynnol er mwyn cynorthwyo'r bobl ifanc hyn yn cyd-fynd â hyn. Nododd un aelod o staff nad oedd gan eu tîm Ymarferwr Iechyd Meddwl ar hyn o bryd, a nododd un arall nad oes ganddynt ddigon o Ymarferwyr Iechyd Meddwl i fodloni'r galw o ganlyniad i'r anawsterau a gafwyd wrth recriwtio staff. Yn ogystal, nododd llond llaw o randdeiliaid anawsterau sy'n codi wrth recriwtio pobl i'r swyddi hyn, gan arwain at sialensiau o ran capasiti. Gan gyfeirio at hyn, nododd ychydig randdeiliaid bod prosesau recriwtio araf o fewn BIPBC yn gwaethygu'r mater hwn. Adlewyrchir hyn hefyd yn y Cofnod Gwersi a Ddysgwyd ar gyfer y gweithrediad, a nododd bod prosesau recriwtio o fewn BIPBC yn gymhleth.

### *Methu â sylweddoli maint y Rhwystrau*

4.41 Gwelwyd y mater hwn yn codi yn yr ymatebion i'r arolwg ac yn ystod cyfweliadau gyda staff rheoli a darparu a rhanddeiliaid strategol. Teimlwyd nas sylweddolwyd yn llawn cymhlethdod y rhwystrau y mae rhai o'r cyfranogwyr yr oedd y prosiect yn ceisio ymgysylltu â nhw yn eu hwynebu, ac yn ei dro, arweiniodd hyn at deimlad ymhlith rhai rhanddeiliaid bod targedau yn afrealistig ac yn annhebygol o gael eu cyflawni gan bod y prosiect yn gweithio gyda chyfranogwyr sy'n bellach i ffwrdd o'r farchnad lafur nag a ragwelwyd.

‘Treuliwyd mwy o amser yn cynorthwyo pobl ifanc nag a ragwelwyd yn wreiddiol o ganlyniad i'r ffaith bod eu problemau yn lluosog ac yn gymhleth.’ **(Arolwg Staff Rheoli a Darparu, ymatebydd 2)**

4.42 Nododd rhai rhanddeiliaid eu bod yn teimlo fel pe bai angen i'r prosiect roi mwy o ffocws ar ganlyniadau meddal a'r cynnydd a sicrhawyd yng ngoleuni'r rhwystrau cymhleth y mae cyfranogwyr yn eu hwynebu. Roeddent yn teimlo y gallai ffocws ar ganlyniadau caled megis targedau cyflogaeth fwrw cysgod ar effaith sylweddol y prosiect ar lefel unigol. Trafodir y mater hwn ymhellach ym Mhennod 5 (Cynnydd a Pherfformiad).

> ‘Fy mhersbectif personol i yw dylai fod llai o bwysau ar ganlyniadau, gan ganolbwyntio yn fwy ar gynnydd y bobl ifanc a gweld y sialensiau y bu'n rhaid iddynt eu hwynebu, yn hytrach na chanolbwyntio ar y canlyniad terfynol, e.e. cyflogaeth.' **(Staff rheoli a darparu, cyfweledig)**

### *Mynd trwy’r System Brynu Ddeinamig (DPS)*

4.43 Trafodwyd yr her hon gan 23% o'r ymatebwyr i'r arolwg, ac fe'i codwyd yn ystod cyfweliadau gyda staff rheoli a darparu a rhanddeiliaid strategol hefyd. Dylid nodi na fydd DPS wedi bod yn berthnasol i'r holl unigolion a holwyd; o ganlyniad, efallai bod y mater hwn yn fwy amlwg ymhlith staff y mae'r DPS yn berthnasol i'w rôl. Mynegwyd pryderon gan randdeiliaid bod y DPS yn arwain at brosesau “araf”, y gallent arwain at y perygl y byddai cyfranogwyr yn ymddieithrio wrth iddynt aros am y cymorth a geisiwyd i ddod ar gael. Nododd rhai rhanddeiliaid nad oeddent yn teimlo bod y DPS yn “addas i'r diben”, yn arbennig gan bod y broses ymgeisio yn peri i fusnesau bychain beidio cymryd rhan, ac roedd hyn yn golygu nad oeddent yn gallu cyrraedd busnesau lleol llai o faint, y byddai wedi bod ganddynt yr arbenigedd i ddarparu'r ddarpariaeth ofynnol.

4.44 Myfyriodd staff rheoli a darparu bod gan gyfranogwyr dueddiad i ymddieithrio o'r prosiect pe na byddent yn teimlo fel pe baent yn cael canlyniadau yn gyflym; o'r herwydd, roedd y DPS yn ffactor ym mhenderfyniad cyfranogwyr i dynnu'n ôl o gael cymorth.

### *Sialensiau Logisteg a Chydlynu*

4.45 Codwyd rhai materion ynghylch y ffordd y cydlynir ADTRAC. Roedd y rhain yn cynnwys y materion canlynol:

- Adroddodd rhai staff y bu rôl BIPBC yn "ddryslyd", gyda diffyg eglurder ynghylch ble y mae staff BIPBC yn eistedd o fewn strwythurau tîm. Roedd rhai staff yn teimlo bod lleoli rolau Ymarferwyr Iechyd Meddwl o fewn timau awdurdodau lleol, ond yn cael eu rheoli a'u goruchwylio o fewn BIPBC, wedi arwain at y teimlad bod Ymarferwyr Iechyd Meddwl 'hanner i mewn/hanner allan' o'r tîm darparu.
- Codwyd rhai sialensiau mewn perthynas â seilwaith, yn enwedig ynghylch y sialensiau wrth nodi mannau er mwyn cwrdd cyfranogwyr, yn ogystal â chydlynu ymweliadau o ganlyniad i ddiffyg cymorth gweinyddol.

### *Diffyg Cyfleoedd Cyflogaeth*

4.46 Myfyriodd rhai staff bod diffyg cyfleoedd cyflogaeth yn rhwystr yn eu hardal, a chyfeiriodd rhai staff at broblemau yn y farchnad lafur leol megis colli cyflogwyr mawr, neu gyflogwyr nad oedd ganddynt y capasiti a/neu'r diddordeb mewn croesawu pobl ifanc i gael profiad gwaith. Mewn rhai ardaloedd, roedd problemau ynghylch seilwaith trafnidiaeth a natur wledig yr ardal yn cyd-fynd â hyn, a oedd yn golygu nad oedd nifer o bobl ifanc yn gallu manteisio ar rai cyfleoedd gwaith. Bu aelod arall o staff yn trafod anawsterau wrth geisio sicrhau cyflogwyr y byddent "yn rhoi cyfle i bobl ifanc", gan gyfyngu nifer y lleoliadau gwaith y gallai ADTRAC fanteisio arnynt. Pan oedd cyfleoedd yn brin, roedd teimlad bod cyfranogwyr ADTRAC, yr oedd nifer ohonynt heb brofiad gwaith na sgiliau cyflogadwyedd, yn gorfod cystadlu yn erbyn ymgeiswyr mwy profiadol.

4.47 Mae hwn yn faes y disgwylir iddo fynd yn faes mwy heriol o ganlyniad i bandemig COVID- 19, lle y gwelwyd niferoedd mawr o gyflogwyr yn gorfod rhoi gweithwyr ar ffyrlo neu derfynu contractau cyflogeion. Rhagwelir y bydd economi y DU yn

wynebu 'dirwasgiad sylweddol' o ganlyniad i'r pandemig, a disgwylir gweld cynnydd yn nifer y rhai sy'n ddi- waith (Sefydliad Bevan, 2020). Eisoes, mae Gwybodaeth am y Farchnad Lafur (LMI) a goladwyd gan GC yn dynodi bod penodiadau misol i swyddi yng Nghymru wedi gostwng o 55,756 ym mis Chwefror 2020 i 43,738 ym mis Ebrill 2020 (Gyrfa Cymru, 2020). Mae LMI a goladwyd gan Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru yn dangos mai nifer yr hawlwyr yng Ngogledd Cymru ym mis Mai 2020 oedd 25,855, mwy na dwbl y nifer ym mis Mai 2019, gan gynnwys cynnydd o 10,000 o hawliadau ychwanegol ym mis Ebrill 2020 (Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru, 2020). Mae tystiolaeth o ddirwasgiadau blaenorol yn dangos bod pobl ifanc mewn mwy o berygl o fod yn ddi-waith, a gwelwyd mai uchafswm y bobl ifanc 16-24 oed a oedd yn ddi-waith yn ystod y dirwasgiad diwethaf oedd 23.5% yn 2012, sydd dros bedair gwaith yn uwch na'r ganran a oedd yn ddi-waith ymhlith y rhai 25 oed neu'n hŷn (Gyrfa Cymru, 2020).

4.48 O ganlyniad, mae'n debygol y bydd y gweithrediad yn wynebu mwy o sialensiau wrth sicrhau bod cyfranogwyr yn symud ymlaen i gyflogaeth yn ystod y cyfnod darparu sy'n weddill. O blith y cyfranogwyr hynny sydd wedi symud i gyflogaeth hyd yn hyn, mae'r mwyafrif wedi ymuno â'r sector Twristiaeth a Lletygarwch (22%) neu Fwyd a Diod (19%). Tra bod polisïau cadw pellter cymdeithasol a chyfyngiadau symud mewn grym o hyd, mae'r rhain yn debygol o fod ymhlith y sectorau a fydd yn dioddef y colledion mwyaf o ran swyddi o ganlyniad i'r pandemig.

## Sut mae'r Prosiect yn Cyfrannu at y Themâu Trawsbynciol (CCTs)?

4.49 Un o amodau sicrhau cyllid ESF yw'r gofyniad bod pob prosiect a ariannir yn dangos tystiolaeth eu bod wedi rhoi sylw i'r Themâu Trawsbynciol (CCTs) canlynol:

- cyfle cyfartal a phrif-ffrydio rhyw
- datblygu cynaliadwy
- trechu tlodi; a
- hyrwyddo'r iaith Gymraeg.

4.50 Mae ADTRAC wedi cytuno ar y dangosyddion lefel achos canlynol ar gyfer y gweithrediadau.

**Tabl 4.3: Dangosyddion CCT lefel achos ADTRAC**

| Themâu Trawsbynciol | Dangosyddion CCT lefel achos ADTRAC |
|---|---|
| Cyfle cyfartal a Phrif-ffrydio | • Mesur gweithredu cadarnhaol – Pobl Ifanc<br>• Mesur gweithredu cadarnhaol – Pobl BME[21]<br>• Mesur gweithredu cadarnhaol – Pobl anabl<br>• Mesur gweithredu cadarnhaol – Arall (Cronfa rhwystr)<br>• Gweithgarwch sy'n cynorthwyo siaradwyr yr iaith Gymraeg<br>• Gweithgarwch gwahanu galwedigaethol<br>• Ymgysylltu â Grŵp Mynediad Anabledd |
| Datblygu Cynaliadwy | • Datblygu Cod Eco<br>• Gweithrediadau sy'n integreiddio datblygu cynaliadwy mewn hyfforddiant ymwybyddiaeth, addysg, a rhaglenni hyfforddiant[22] |
| Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol | • Gweithgarwch meithrin sgiliau cymunedol<br>• Gweithgarwch mentora/eiriolaeth<br>• Cynlluniau gwirfoddoli |
| CCT Cyffredinol | • Hyrwyddwr CCT |

[21] Mae'r dangosydd CCT lefel achos hwn yn berthnasol i weithrediad Dwyrain Cymru yn unig.
[22] Mae'r dangosydd CCT lefel achos hwn yn berthnasol i weithrediad Gorllewin Cymru yn unig.

4.51 Isod, trafodir pob un o'r CCTs hyn a sut y maent wedi cael sylw gan brosiect ADTRAC.

### *Cyfle Cyfartal a Phrif-ffrydio Rhyw*

4.52 Fel y mae'r tabl isod yn dangos, mae'r gweithrediad yn rhagori ar ei darged ynghylch cyfranogwyr sydd ag anabledd neu gyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio, ac mae'n perfformio'n dda yn erbyn ei darged ynghylch cyfranogwyr o gefndir BME/Mudwyr/Lleiafrifoedd. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod y gweithrediad yn wynebu mwy o sialensiau wrth gyflawni targedau ynghylch cynnwys cyfranogwyr sydd â chyfrifoldebau gofal plant/gofalu a chyfranogwyr benywaidd.[23]

**Tabl 4.4: Targedau cyfranogi a data perfformio, fesul grŵp demograffig**

| Grŵp cyfranogi | Targed | Targed (%) | Nifer a gyflawnwyd | Canran o'r targed a gyflawnwyd |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y cyfranogwyr | 1,451 | | 893 | 62% |
| Cyfranogwyr sydd ag anabledd/cyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio | 112 | 8% | 263 | 235% |
| Cyfranogyr sy'n BME/Mudwyr/ Lleiafrifoedd | 31 | 2% | 21 | 68% |
| Cyfranogwyr sydd â chyfrifoldebau gofal plant/gofalu | 121 | 8% | 56 | 46% |
| Cyfranogwyr gwrywaidd | 721 | 50% | 509 | 71% |
| Cyfranogwyr benywaidd | 730 | 50% | 384 | 53% |

Ffynhonnell: Data Monitro Cyfranogwyr (sylfaen = 893)

4.53 Pan ofynnwyd sut oeddent yn teimlo bod y CCTs wedi cael eu cynnwys o fewn ADTRAC, roedd 4/9 o'r staff a gyfwelwyd wedi trafod strategaethau a ddefnyddiwyd i roi sylw i gyfle cyfartal a phrif-ffrydio rhyw. Dywedodd un cyfweledig eu bod wedi bodloni hyn trwy fabwysiadu 'dull cynhwysol... [lle y caiff] pawb eu trin fel rhywun sy'n gallu cyflawni' (Staff rheoli a darparu, cyfweledig).

[23] Fel y nodir yn ddiweddarach yn yr adroddiad, mae'n bosibl bod rhai o'r cyfranogwyr hyn wedi cael eu 'pigo i fyny' gan raglenni eraill megis prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE) a ariannir gan Lywodraeth Cymru ac ESF, neu ddarpariaeth gan Ymddiriedolaeth Gofalwyr Ifanc Gogledd Cymru, ac efallai oherwydd amodau'r Credyd Cynhwysol, bod pobl ifanc sydd â chyfrifoldebau gofal plant yn llai tebygol o fod yn ceisio cyflogaeth na'r rhai heb gyfrifoldebau gofal plant.

Ymhellach, nodwyd bod y prosesau a sefydlwyd gan GLLM yn rhai cadarnhaol yn y maes hwn, gan gynnwys y cofnod gweithgarwch a'r dudalen wrth ymadael.

4.54 Bu staff eraill yn trafod sut yr oeddent wedi ceisio annog a chynorthwyo unigolion a fynegodd ddiddordeb mewn archwilio rolau y gallent gael eu hystyried yn rhai “annhraddodiadol” ar gyfer eu rhyw. Roedd yr enghreifftiau a roddwyd yn cynnwys annog cyfranogwyr benywaidd a oedd wedi mynegi diddordeb ym maes adeiladu, yn ogystal â gwrywod a oedd wedi mynegi diddordeb mewn diwydiannau megis gofal. At hynny, bu un cyfweledig yn trafod sut yr oeddent wedi ceisio cyfleoedd i hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhywiau wrth ddarparu, trwy ddathlu digwyddiadau megis Diwrnod Rhyngwladol y Menywod. Gwelir tystiolaeth o gefnogaeth ADTRAC ar gyfer gweithgareddau rhyw annhraddodiadol mewn astudiaethau achos ynghylch menywod ym maes chwaraeon yn yr awyr agored a chyfranogwr ADTRAC benywaidd a oedd wedi ymuno â'r gwasanaeth tân ar ôl cael cymorth gan y prosiect, yn ogystal â chynorthwyo cyfranogwyr benywaidd i astudio cyrsiau STEM.

4.55 Er gwaethaf y strategaethau hyn, cofnodwyd bod 1% o gyfranogwyr yn cymryd rhan mewn gweithgarwch annhraddodiadol i'w rhyw,[24] a cheir bwlch clir o hyd o ran recriwtio cyfranogwyr benywaidd i'r prosiect. Mae hyn o bosibl yn adlewyrchu'r ffaith, er bod menywod yn fwy tebygol o fod yn economaidd anweithgar na gwrywod, eu bod yn llai tebygol o fod yn dymuno sicrhau cyflogaeth, fel y dangosir yn Nhabl 4.5 isod. Er bod cyfraddau anweithgarwch economaidd benywod lawer yn uwch na chyfraddau anweithgarwch economaidd gwrywod ym mhob awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru ac eithrio Sir y Fflint, ceir mwy o hawlwyr gwrywaidd na hawlwyr benywaidd yn yr awdurdodau lleol hyn. Mae hyn yn awgrymu, er bod llai o wrywod economaidd anweithgar na benywod economaidd anweithgar yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru, mae gwrywod yn fwy tebygol o fod yn chwilio am waith ac yn ymgysylltu gyda rhaglenni cymorth cyflogaeth na benywod.

[24] Ffynhonnell: Data Monitro Cyfranogwyr (sylfaen = 893).

**Tabl 4.5: Cyfraddau anweithgarwch economaidd a niferoedd yr hawlwyr yng Ngogledd Cymru, wedi eu dadgyfuno yn ôl rhyw**

| | Cyfraddau anweithgarwch economaidd (unigolion 16–24 oed)[25] | Cyfraddau anweithgarwch economaidd – Benywod (16-24) | Cyfraddau anweithgarwch economaidd – Gwrywod (16-24) | Nifer yr hawlwyr – Benwod (16–24)[26] | Nifer yr hawlwyr - Gwrywod (16-24) |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 23.1% | 30.1% | 16.7% | 170 | 305 |
| Conwy | 44.3% | 50.1% | 39.1% | 360 | 555 |
| Sir Ddinbych | 41.1% | 43.0% | 39.6% | 285 | 545 |
| Sir y Fflint | 32.4% | 31.5% | 33.1% | 405 | 645 |
| Gwynedd | 43.2% | 56.0% | 31.6% | 345 | 555 |
| Wrecsam | 31.6% | 35.9% | 27.9% | 365 | 675 |

Ffynhonnell: Setiau data arolwg poblogaeth blynyddol a chyfrif hawlwyr Nomis Web

4.56 Beth bynnag fo'r rhesymau dros yr anhawster wrth ymgysylltu cyfranogwyr benywaidd, efallai y bydd angen i ADTRAC ystyried a oes unrhyw strategaethau ychwanegol y byddai modd eu defnyddio mewn gweithgareddau allgymorth a recriwtio er mwyn helpu i roi hwb i weithgarwch recriwtio benywod.

### *Hyrwyddo’r Iaith Gymraeg*

4.57 Roedd mwyafrif y staff rheoli a darparu a oedd wedi cymryd rhan mewn cyfweliad manwl yn gallu nodi ffyrdd y llwyddwyd i fodloni'r gofyniad i hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn y gweithrediad (7/9 cyfweledig). Nododd yr holl staff hyn bod cymorth ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, gan gynnwys ffurflenni wedi'u cyfieithu a'r ffaith bod staff a oedd yn siarad Cymraeg ar gael. Mae ymdrechion ADTRAC i gynhyrchu fersiynau Cymraeg o offerynnau safonol megis WEMWBS, GAD7 a PHQ9 a'u dilysu (gyda chymorth cyfieithwyr proffesiynol, terminolegydd iaith, a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol), wedi arwain at offerynnau lles y gellir eu defnyddio i helpu pobl ifanc i fynegi eu lles trwy gyfrwng y Gymraeg y tu hwnt i

[25] Mae'r holl gyfraddau anweithgarwch economaidd yn y tabl hwn yn cyfeirio at y cyfnod rhwng Ionawr 2019 a Rhagfyr 2019 ac fe'u cymrwyd o Nomis Web.
[26] Mae'r holl ffigurau cyfrif hawlwyr yn y tabl hwn yn ffigurau mis Mai 2020 ac fe'u cymrwyd o Nomis Web. Sylwer. Nid oes niferoedd yr hawlwyr fel canran o gyfanswm y boblogaeth economaidd anweithgar a chyfanswm boblogaeth ar gael ar hyn o bryd.

gyd-destun prosiect ADTRAC. Yn ogystal, nododd ymatebwyr o Gonwy a Gwynedd bod mwyafrif eu staff yn siaradwyr Cymraeg rhugl a bod holl staff awdurdod lleol Ynys Môn yn siaradwyr Cymraeg.

4.58 Yn yr arolwg a ddosbarthwyd i staff rheoli a darparu, cynhwyswyd cwestiynau er mwyn darganfod pa mor eang y defnyddir yr iaith Gymraeg wrth ddarparu. Nododd pum deg un y cant o ymatebwyr bod eu tîm yn darparu cymorth yn Gymraeg ar hyn o bryd. Er bod y ffigwr hwn yn ymddangos yn isel efallai, dylid nodi bod lefelau siarad Cymraeg yn amrywio'n eithaf sylweddol ar draws ardaloedd y Cyd-fuddiolwyr a bod cyfran y staff a ddywedodd bod eu tîm yn darparu cymorth yn Gymraeg yn llawer uwch mewn ardaloedd lle y ceir lefelau uchel o siaradwyr Cymraeg, megis Gwynedd (lle y nododd 100% o ymatebwyr eu bod yn darparu cymorth yn Gymraeg), nag mewn ardaloedd lle y mae lefel y niferoedd sy'n siarad Cymraeg lawer yn is, megis Wrecsam a Sir y Fflint, lle y nododd mwyafrif y staff nad oeddent yn darparu cymorth yn Gymraeg.

4.59 Er mwyn egluro'r gwahaniaethau o ran y galw am ddarpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg, gofynnwyd i staff nodi hefyd a oeddent yn credu bod eu tîm yn gallu bodloni'r angen lleol. Gan ymateb i'r cwestiwn hwn, nododd 82% o ymatebwyr eu bod yn teimlo bod eu tîm yn gallu bodloni'r galw lleol. Roedd y rhai a oedd yn anghytuno wedi'u lleoli yn Sir Ddinbych gan amlaf, ac roedd yn ymddangos bod y galw isel am ddarpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ardal hon yn dylanwadu ar hyn. Mae Data Monitro Cyfranogwyr yn dynodi mai dim ond un cyfranogwr yn Sir Ddinbych a nododd mai'r iaith gyfathrebu yr oeddent yn ei ffafrio oedd y Gymraeg, a fyddai'n awgrymu bod y galw yn isel iawn am y Gymraeg yn yr ardal hon. Adroddodd y swyddog arweiniol yn Sir Ddinbych, er bod y galw wedi bod yn isel, bod tîm Sir Ddinbych yn gallu cydymffurfio'n llawn â'r gofyniad i ddarparu gwasanaeth dwyieithog.

4.60 Yn ogystal â darparu cymorth trwy gyfrwng y Gymraeg, mae ADTRAC wedi gwneud rhywfaint o waith i gysylltu cyflogwyr gyda chyfranogwyr sy'n siarad Cymraeg, gan gynyddu'r cyfleoedd i gyfranogwyr ADTRAC ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle o bosibl.

> ‘Gofynnir i gyflogwyr bob amser (e.e. adwerthu a lletygarwch) a oes angen siaradwyr Cymraeg arnynt, a throsglwyddir y wybodaeth hon i gyfranogwyr, nad ydynt yn teimlo'n ddigon hyderus i siarad Cymraeg, ond y maent yn ei deall.**’ (Staff rheoli a darparu, cyfweledig)**

*Datblygu Cynaliadwy*

4.61 Yn unol â chanllawiau ESF ynghylch datblygu cynaliadwy, mae ADTRAC wedi datblygu Cod Eco sy'n ymrwymo'r prosiect i fabwysiadu'r dulliau canlynol:

- Lleihau, ailddefnyddio, ailgylchu er mwyn lleihau gwastraff gymaint ag y bo modd
- Annog mwy o ffyrdd cyfeillgar i'r amgylchedd o deithio (gan gynnwys trafnidiaeth gyhoeddus, rhannu cerbydau, a lleihau'r angen i deithio)
- Annog timau prosiect i fabwysiadu ffyrdd ymarferol o arbed ynni
- Annog eraill i fabwysiadu mesurau tebyg.

4.62 Mae datblygu cynaliadwy yn cynnwys hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol a chyfle cyfartal hefyd, yn ogystal â chydnabod a hyrwyddo iechyd a lles fel un o gonglfeini economi iach a ffyniannus (Llywodraeth Cymru, 2016).

4.63 Mae'r nodweddion hyn wedi'u hymwreiddio yng nghynllun a rhesymeg ADTRAC. Er enghraifft, gellir ystyried bod nod ADTRAC o leihau rhwystrau i bobl ifanc yn symud ymlaen i EET fod yn rhywbeth sy'n hyrwyddo cyfle cyfartal. Cefnogir hyn gan dargedau'r prosiect hefyd mewn perthynas â grwpiau demograffig, y bwriedir iddynt sicrhau bod y cymorth yn sicrhau cyfle cyfartal ar draws grwpiau amrywiol.

4.64 Yn ogystal, mae hyrwyddo iechyd a lles yn rhan ganolog o gynllun ADTRAC, sy'n ymgorffori darpariaeth iechyd meddwl a lles yn fwriadol mewn prosiect sy'n ceisio dwyn unigolion yn agosach at EET. Mae hyn yn dangos cydnabyddiaeth o'r ffaith bod lles yn ganolog i allu pobl ifanc i fanteisio ar a sicrhau cynnydd yn EET.

### *Trechu Tlodi*

4.65 Mae trechu tlodi yn cynnwys 'mynd i'r afael â rhwystrau i gyflogaeth megis sgiliau gwael, diffyg gofal plant neu ddewisiadau trafnidiaeth cyfyngedig, gan helpu mwy o bobl i fanteisio ar gyfleoedd cyflogaeth' (Llywodraeth Cymru, 2016).

4.66 Mae ADTRAC yn cynnwys sawl nodwedd sy'n helpu i roi sylw i'r rhwystrau hyn. Er enghraifft, mae ADTRAC yn rhoi sylw i sgiliau gwael trwy ddarparu cyrsiau a chyfleoedd i bobl ifanc er mwyn iddynt allu meithrin eu sgiliau a sicrhau cymwysterau. Hyd yn hyn, mae data monitro yn dynodi bod 200 o gyfranogwyr wedi sicrhau cymwysterau trwy gyfrwng ADTRAC, y mae 72 o'r rhain wedi sicrhau mwy nag un cymhwyster. Ymhellach, mae data monitro yn dynodi bod 109 o gyfranogwyr wedi sicrhau ardystiad sy'n berthnasol i fyd gwaith trwy ymgysylltu â'r rhaglen.

4.67 Yn ogystal, mae ADTRAC yn cynorthwyo pobl ifanc i fynd i'r afael â rhwystrau wrth sicrhau cyflogaeth megis trafnidiaeth gyfyngedig trwy ddarparu cyllid i bobl ifanc er mwyn eu galluogi i fanteisio ar drafnidiaeth.

### *Crynodeb*

4.68 Mae'n ymddangos bod y gweithrediad yn gwneud cyfraniad da i'r CCTs; fodd bynnag, mae modd sicrhau gwelliant o ran cynnwys cyfranogwyr benywaidd, yn ogystal â chyfranogwyr sydd â chyfrifoldebau gofalu.

4.69 Yn ogystal â chyfrannu at y CCTs, ceir ymdeimlad clir bod ADTRAC yn cyfrannu at amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (WFGA). Ceir tystiolaeth bod y dull a fabwysiadwyd trwy ADTRAC yn cynnwys y bum ffordd o weithio sy'n creu 'egwyddor datblygu cynaliadwy' WFGA. Yn benodol, mae'n dangos dull ataliol a ddarperir trwy gyfrwng cydweithio rhwng cyrff cyhoeddus, gan integreiddio nifer o amcanion lles (sy'n ymwneud â nodau llesiant 'Cymru ffyniannus', 'Cymru iachach' a 'Chymru sy'n fwy cyfartal' yn bennaf), sy'n ystyried anghenion hirdymor Gogledd Cymru.

### Safbwyntiau Cyfranogwyr ynghylch y Cymorth a Ddarperir gan ADTRAC

4.70 Ystyrir effaith ADTRAC ar gyfranogwyr ym Mhennod 6; fodd bynnag, mae'r adran hon yn archwilio persbectifau cyfranogwyr o'r cymorth a ddarperir, a dynnwyd o gyfweliadau manwl dros y ffôn gyda 30 o gyfranogwyr.

4.71 Nododd mwyafrif y cyfranogwyr eu bod yn teimlo fel pe bai'r cymorth a ddarparwyd gan ADTRAC yn 'dda' (29/30 cyfranogwr), a nododd yr holl gyfranogwyr y byddent yn argymell y cymorth i ffrind.

> 'Mae wedi newid fy mywyd. Ni fyddwn wedi cael fy swydd heb ADTRAC. Mae'r cymorth gofalgar a gefais ganddynt wedi bod yn help aruthrol.' (Cyfranogwr, ID 16)

4.72 Nodwedd y cymorth a drafodwyd amlaf oedd y dull cefnogol a fabwysiadwyd gan fentoriaid (trafodwyd gan 12/30 cyfranogwr). Yn aml, roedd y cyfranogwyr yn canmol y mentoriaid am fod yn 'gefnogol' ac am 'fynd allan o'u ffordd' i'w helpu.

> 'Maen nhw'n system gymorth wych. Pe byddai gennyf ymholiad neu pe byddwn yn teimlo'n ofidus neu'n ddryslyd, byddent wastad yn rhoi gwybodaeth o'r tu mewn i mi. Neu os na fyddwn yn deall rhywbeth yn iawn, byddent yn ei esbonio mewn ffordd wahanol er mwyn i mi ddeall. Maent yn gwrando ac yn gweld potensial.**' (Cyfranogwr, ID 1)**

4.72 Yn gysylltiedig â hyn, roedd nifer o gyfranogwyr (10/30) wedi canmol y cymorth gan ei fod yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Nododd cyfranogwyr bod y staff yn 'wirioneddol gwrando' ac yn siapio'r cymorth o'ch cwmpas 'chi fel unigolyn', gan ganiatáu i gyfranogwyr 'fynd ar eu cyflymder eu hunain'. Mae hyn yn adleisio persbectifau staff am nodweddion pwysicaf y cymorth.

> 'Mae'r cymorth gan ADTRAC yn dda iawn, gan bod popeth yn bersonol iawn. Bydd y staff yn mynd allan o'u ffordd i ddod i'ch adnabod ac maent wastad yn gofyn sut ydych chi. Byddant yn gadael i chi wneud pethau ar eich cyflymder eich hun ac maent yn gefnogol iawn. Heb ADTRAC, ni fyddwn yn gallu mynd i'r coleg na mynd y tu allan i gyfarfod fy ffrindiau.' **(Cyfranogwr, ID 4)**

4.73 Dim ond un cyfranogwr oedd yn llai cadarnhaol yn eu hymateb, ac roedd yn ymddangos bod hyn yn ymwneud â'r ffaith nad oedd digon o gyfleoedd profiad gwaith yr oedd modd manteisio arnynt heb brofiad blaenorol ar gael

yn eu barn nhw; fodd bynnag, roeddent yn gweld gwerth o hyd yn y cymorth a ddarperir gan ADTRAC.

> ‘[Beth fyddech chi'n ei ddweud i ffrind a oedd yn ystyried cymryd rhan yn ADTRAC?] Byddwn yn gofyn iddynt pam eu bod yn dymuno cymryd rhan a phe byddent yn ateb oherwydd eu bod yn dymuno cael profiad gwaith, byddwn yn argymell na ddylent gymryd rhan yn ADTRAC yn ôl pob tebyg, ond pe byddent yn dymuno meithrin eu hyder, cael CV gwell neu pe byddai ganddynt broblemau iechyd meddwl, byddwn yn dweud wrthynt i fynd amdani.' **(Cyfranogwr, ID 3)**

4.74 Adroddodd mwyafrif y cyfranogwyr (28/30) ei bod yn hawdd cymryd rhan yn ADTRAC. Disgrifiwyd y broses ymgeisio yn aml fel proses 'gyflym' a 'hawdd'. Fodd bynnag, nododd nifer fach o gyfranogwyr eu bod yn teimlo y byddai modd hysbysebu'r cymorth yn well er mwyn nodi'n glir pwy sy'n gallu cael y cymorth a pha mor eang yw'r cymorth a gynigir, fel y nodir yn y dyfyniad isod.

> ‘Oedd, roedd hi'n hawdd cymryd rhan, ond os na fyddai fy mam yn adnabod neu wedi cyfarfod fy mentor, nid wyf yn siŵr a fyddwn i wedi clywed amdano. Roeddwn i'n credu mai rhaglen ar gyfer plant drwg ydoedd... mae angen ei hyrwyddo ychydig yn fwy. Mae angen iddynt roi gwybod i bobl bod amrywiaeth o weithgareddau yn cael eu cynnig i bobl sydd ag anghenion gwahanol.’ **(Cyfranogwr, ID 16)**

4.75 Roedd amrywiaeth o resymau pam oedd cyfranogwyr wedi dewis cymryd rhan yn ADTRAC. Nododd mwyafrif y cyfranogwyr eu bod yn dymuno cael cymorth er mwyn cael swydd (17/30 cyfranogwr) neu gymorth er mwyn cael addysg (10/30 cyfranogwr).

### *Pa Agweddau ar y Cymorth oedd y rhai Mwyaf neu Leiaf Defnyddiol ym Marn y Cyfranogwyr?*

4.77 Gofynnwyd i gyfranogwyr fyfyrio am ba agweddau ar y cymorth oedd y rhai mwyaf defnyddiol yn eu barn nhw. Y nodweddion y cyfeiriwyd atynt amlaf oedd cymorth y mentoriaid a'r system gymorth (trafodwyd gan 9/30 cyfranogwr), argaeledd cyrsiau er mwyn helpu cyfranogwyr i ddatblygu eu sgiliau a'u CVs (trafodwyd gan 9/30 cyfranogwr), natur un-i-un y cymorth (trafodwyd gan 8/30 cyfranogwr), ac argaeledd cymorth lles ac iechyd meddwl (trafodwyd gan 7/30 cyfranogwr). Bu nifer llai o gyfranogwyr yn trafod argaeledd cyllid hefyd (2/30 cyfranogwr), yn ogystal â 'chael rhywun i siarad gyda nhw' (2/30 cyfranogwr).

‘Y sesiynau lles meddyliol oedd y rhai mwyaf defnyddiol, gan na allwn wneud unrhyw beth heb ddelio â'm gorbryder yn gyntaf. Roedd y cymorth iechyd meddwl wedi helpu i feithrin fy hyder a dysgu sut i ddelio gyda fy ngorbryder. Roedd gweddill y cymorth wedi fy helpu i fynd allan o'r tŷ a chyfarfod pobl, felly roedd popeth yn ddefnyddiol.' **(Cyfranogwr, ID 4)**

4.78 Pan ofynnwyd pa agweddau ar gymorth ADTRAC oedd yn llai defnyddiol ym marn y cyfranogwyr, nododd mwyafrif y cyfranogwyr (25/30 cyfranogwr) nad oedd unrhyw beth yn y cymorth nad oedd yn ddefnyddiol, a bod yr holl gymorth wedi helpu. Yn yr un modd, pan ofynnwyd i'r cyfranogwyr a oeddent yn teimlo y byddai modd gwneud unrhyw welliannau i'r ffordd y darperir ADTRAC, nododd mwyafrif y cyfranogwyr (22/30 cyfranogwr) nad oedd ganddynt unrhyw awgrymiadau i'w gwneud ynghylch gwelliannau. Fodd bynnag, gwnaethpwyd yr awgrymiadau canlynol:

- Cynyddu hyd y cymorth, gan gynnwys hyd y cymorth iechyd meddwl er mwyn galluogi cyfranogwyr i feithrin perthnasoedd mwy effeithiol gyda'r bobl ar y cwrs.
- Nododd un cyfranogwr ei fod yn dymuno cynnal y cyfarfodydd gyda'i fentor yn llai aml na bob wythnos, gan nad oedd yn teimlo bod pethau yn newid mor gyflym â hynny. Nododd un arall a oedd yn cael cyfarfodydd bob pythefnos y byddai'n well ganddo gael sesiynau un-i-un wythnosol. Mae'n debygol y bydd gan gyfranogwyr wahanol safbwyntiau ynghylch amlder y cyfarfodydd sy'n addas i'w hanghenion

nhw, ond gallai hyn ddynodi y byddai trefniant cyfarfod mwy hyblyg o fudd i rai cyfranogwyr.

- Gwell cyhoeddusrwydd, gan gynnwys trwy gyfrwng Canolfannau Gwaith, er mwyn nodi'n gliriach yr hyn a gynigir gan ADTRAC a sut y gall cyfranogwyr fanteisio arno.
- Cynyddu argaeledd cyrsiau gwaith, yn ogystal â chyfleoedd lleoliad.

### *Sut mae'r Cymorth a Ddarperir gan ADTRAC yn Wahanol i'r Cymorth Arall a Gynigir?*

4.79 Mae'r adran hon yn cyd-fynd â'r adran gynharach ynghylch gwerth ychwanegol, a oedd yn archwilio persbectifau rhanddeiliaid strategol a staff rheoli a darparu ynghylch sut y mae ADTRAC wedi darparu gwerth ychwanegol i'r cymorth a gynigir yng Ngogledd Cymru. Isod, archwilir persbectifau cyfranogwyr ynghylch gwerth ychwanegol ADTRAC.

4.80 Nododd dau o bob tri chyfranogwr (20/30) eu bod wedi cael cymorth arall i'w helpu i sicrhau EET cyn manteisio ar gymorth trwy ADTRAC. Y lle mwyaf cyffredin yr oedd cyfranogwyr wedi cael cymorth oedd trwy Ganolfan Byd Gwaith (10/20 cyfranogwr) neu GC (4/20 cyfranogwr).

4.81 Roedd bron i bob un o'r cyfranogwyr (19/20) a oedd wedi cael cymorth arall yn nodi bod y cymorth a gawsant gan ADTRAC yn well na'r hyn yr oeddent wedi manteisio arno yn flaenorol.

> 'Roeddwn gyda darparwr hyfforddiant yn flaenorol, ond mae ADTRAC wedi bod yn llawer mwy cefnogol ac mae'r staff wir yn gwrando arnoch ac yn fodlon mynd yn araf. Roedd ADTRAC wedi canolbwyntio ar feithrin fy hyder a delio gyda fy iselder a'm gorbryder, yn hytrach na'm cofrestru ar gwrs.' **(Cyfranogwr, ID 2)**

4.82 Nododd cyfranogwyr a oedd wedi manteisio ar ddarparwyr eraill nad oedd y cymorth a gawsant wedi bod yn ddefnyddiol, gyda phrosesau araf a diffyg gweithredu dilynol. Mewn cymhariaeth, roedd cyfranogwyr wedi darganfod bod ADTRAC yn ymateb yn gyflym a'u bod wedi 'datrys pethau yn syth'. At hynny, nododd y cyfranogwyr sut yr oeddent wedi gweld bod mentoriaid ADTRAC yn 'llawer mwy cefnogol' na staff yr oeddent wedi dod ar eu traws mewn gwasanaethau eraill. Nododd llond llaw o gyfranogwyr eu bod yn teimlo bod ADTRAC yn ystyried eu hamgylchiadau personol a'u bod wedi eu helpu i weithio ar y rhwystrau yr oeddent yn eu hwynebu, ond mewn gwasanaethau eraill, eu bod wedi teimlo bod ymgais i symud pobl i swydd neu i gwrs yn unig, heb gymryd yr amser i roi sylw i'r rhwystrau hynny.

### Dyfodol ADTRAC

4.83 Disgwylir i'r cyllid ar gyfer ADTRAC ddod i ben ym mis Mai 2021. Mynegwyd pryderon gan nifer o randdeiliaid am yr hyn a fydd yn digwydd pan fydd y cyllid hwn yn dod i ben. Yn wir, mynegwyd pryderon yn annibynnol gan 4/9 o'r staff rheoli a darparu a gyfwelwyd fel rhan o'r gwerthusiad am yr hyn a fyddai'n digwydd i'r cyfranogwyr pe na bai ADTRAC yn parhau neu'n cael ei ddisodli gan ddarpariaeth debyg.

‘Mawr obeithiaf, er lles y cyfranogwyr, y bydd rhywbeth yn dod ar eu cyfer ar ôl ADTRAC, yn enwedig gyda Brexit. Mae'n rhywbeth sy'n fy mhryderu.' **(Staff rheoli a darparu, cyfweledig)**

4.84 Adlewyrchwyd hyn hefyd mewn cyfweliadau gyda rhanddeiliaid strategol, lle'r oedd dau o'r rhai a gyfwelwyd wedi mynegi pwysigrwydd sicrhau bod y cymorth a ddarperir gan ADTRAC yn barhaol ac yn parhau dros y tymor hir. Roedd hyn yn ymwneud ag anghenion cyfranogwyr, y teimlwyd eu bod yn wynebu rhwystrau sy'n gofyn am gymorth mwy hirdymor i'w goresgyn, ac o ran unrhyw brosiect olynol i gadw staff talentog a oedd wedi meithrin sgiliau da wrth ddarparu ADTRAC. Adleisiwyd y pwynt olaf hefyd gan aelod o staff a oedd yn teimlo bod staff darparu wedi dysgu cryn dipyn gan bod BIPBC wedi bod yn rhan o'r prosiect, a fyddai'n cael ei golli pe na bai ADTRAC yn parhau.

'Hon yw'r garfan anoddaf i'w chyrraedd. Ni chaiff ei ddatrys yng nghyd-destun prosiect ariannu dros gyfnod penodedig. Bydd angen cymorth ar rai o'r unigolion hyn dros gyfnod hir iawn.' **(Rhanddeiliad strategol, cyfweledig)**

4.85 Codwyd y mater hwn gan un o gyfranogwyr ADTRAC hefyd, a oedd wedi cymryd rhan mewn cyfweliad.

> 'Mae mor dda. Clywais y bydd yn dod i ben flwyddyn nesaf efallai oherwydd cyllid. Byddai hynny'n drueni mawr iawn. Hoffwn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i gwyno os bydd hyn yn digwydd. Mae ADTRAC wastad yno i chi.' **(Cyfranogwr, ID 13)**

4.86 Mae'r sylwadau hyn, yn ogystal â'r dystiolaeth gyfoethog gan gyfranogwyr, yr oeddent yn teimlo'n hynod o gadarnhaol am ADTRAC, yn awgrymu y ceir nifer o gynigwyr y cymorth y byddent yn teimlo'n drist iawn gweld y cymorth yn cael ei golli.

4.87 Nid oedd gan randdeiliaid strategol na staff rheoli a darparu syniad clir am y cynlluniau er mwyn parhau neu ddisodli ADTRAC pan fydd cyllid ESF yn dod i ben, er y myfyriodd nifer fawr eu bod yn teimlo y byddai angen i Lywodraeth Cymru ddarparu cyllid er mwyn galluogi i'r cymorth barhau. Mynegwyd pryderon gan nifer fach o staff a rhanddeiliaid ynghylch sut y gallai'r ansicrwydd arwain at golli staff medrus; o'r herwydd, awgrymir y bydd angen i ran allweddol o gam nesaf y gwaith ddarparu map trywydd clir er mwyn lleihau'r risg hon.

### Casgliadau

4.88 Mae safbwyntiau staff rheoli a darparu, rhanddeiliaid strategol a chyfranogwyr, a drafodir uchod, yn awgrymu y croesawyd ADTRAC mewn ffordd gadarnhaol. Bernir mai prif gryfderau'r cymorth yw ei ffocws ar ddarparu cymorth pwrpasol, yn ogystal ag argaeledd cymorth iechyd meddwl a lles. Y ffactorau hyn hefyd yw'r hyn y teimlir sy'n gwahaniaethu ADTRAC o'r cymorth arall sydd ar gael ar gyfer y garfan a dargedir.

4.89 Mae'n ymddangos bod y gweithrediad yn gweithio'n effeithiol ar draws nifer o agweddau ar y darparu. Yn wir, roedd rhanddeiliaid yn ymateb yn gadarnhaol am brosesau cyfeirio, prosesau er mwyn nodi anghenion cyfranogwyr, a'r cymorth a gynigir yn gyffredinol. Roedd mwyafrif y staff rheoli a darparu yn teimlo bod y cymorth yn briodol i anghenion y garfan yr oeddent yn darparu ar ei chyfer.

4.90 Roedd mwyafrif y staff rheoli a darparu yn teimlo bod y bartneriaeth yn gweithio'n dda, ac roedd staff yn teimlo'n gadarnhaol am gyswllt BIPBC gyda'r gwaith o ddarparu'r prosiect. Fodd bynnag, mynegwyd sawl her gan staff rheoli a darparu ynghylch materion gweithredol, megis anawsterau a oedd yn ymwneud â'r DPS a sialensiau capasiti mewn perthynas â bodloni anghenion iechyd meddwl cyfranogwyr. At hynny, mynegwyd sialensiau allweddol ynghylch cymhlethdod y rhwystrau y mae grŵp y cyfranogwyr yn eu hwynebu, a arweiniodd at anawsterau wrth ymgysylltu cyfranogwyr ac adborth gan rai rhanddeiliaid bod y targedau ar gyfer y gweithrediad yn afrealistig. Archwilir y mater hwn yn fanylach yn y bennod nesaf, sy'n cynnig trosolwg o berfformiad cyfredol y gweithrediad yn erbyn ei dargedau.

# 5. Cynnydd a Pherfformiad

5.0 Mae'r adran hon yn amlinellu perfformiad y gweithrediad mewn perthynas â'r targedau a nodwyd yn y Cynlluniau Busnes.

**Prif Bwyntiau:**

- Mae'r gweithrediad yn tangyflawni yn erbyn ei dargedau ar gyfer cyfranogwyr ar hyn o bryd.
- Mae mwyafrif yr awdurdodau lleol yn tanberfformio yn erbyn targedau mewn perthynas â chyfranogiad cyfranogwyr benywaidd, yn ogystal â chyfranogwyr sydd â chyfrifoldebau gofalu.
- Ar hyn o bryd, mae'r gweithrediad yn tanberfformio yn erbyn ei darged ynghylch nifer y cyfranogwyr sy'n sicrhau cymwysterau, sy'n cychwyn cyflogaeth neu sy'n cychwyn ar addysg/hyfforddiant. Fodd bynnag, mae'n gorberfformio yn erbyn y targed ar gyfer cyfranogwyr sy'n cyflawni canlyniadau cadarnhaol eraill.

5.1 Ar ôl ailbroffilio'r prosiect, pennwyd targed gan Gyd-fuddiolwyr i weithio gyda 1,451 o bobl ifanc a ddosbarthir yn unigolion NEET yn ystod cyfnod y gweithrediad. Isod, rhoddir crynodeb o'r targedau ynghylch cyfranogi a'r targedau ynghylch canlyniadau, law yn llaw â pherfformiad cyfredol y gweithrediad cyfan.

### Perfformiad yn erbyn Targedau Cyfranogi

5.2 Fel y nodir yn Nhabl 5.1, mae'r gweithrediad wedi llwyddo i gyflawni 62% o'i darged ynghylch ymgysylltu hyd yn hyn. Gallai hyn ddynodi bod y prosiect mewn perygl o fethu cyflawni ei dargedau cyfranogi, gan bod y gweithrediad newydd gwblhau trydedd blwyddyn ei amserlen pedair blynedd. Mae hyn yn rhywbeth y gallai gael ei effeithio ymhellach gan yr amhariad parhaus ar y prosiect o ganlyniad i COVID-19.

5.3 Ceir amrywiad sylweddol ym mherfformiad ADTRAC yn erbyn ei dargedu cyfranogi. Rhannwyd targedau cyfranogi fesul ardal awdurdod lleol yn Nhabl 5.1 isod.


**Tabl 5.1: Targedau cyfranogi, fesul Cyd-fuddiolwr**

| Cyd-fuddiolwr | Targed cyfranogi | Cyfanswm a gyflawnwyd | Cyfran y targed a gyflawnwyd (%) |
|---|---|---|---|
| ADTRAC | 1,451 | 893 | 62% |
| Ynys Môn | 269 | 159 | 59% |
| Gwynedd | 450 | 190 | 42% |
| Conwy | 330 | 138 | 42% |
| Sir Ddinbych | 307 | 156 | 51% |
| Wrecsam a Sir y Fflint | 324 | 250 | 77% |

Ffynhonnell: Data Monitro Cyfranogwyr (sylfaen = 893)

5.4 Fel y dangosir uchod, mae Wrecsam a Sir y Fflint yn agosach at gyflawni eu targedau cyfranogi ar hyn o bryd nag y mae Cyd-fuddiolwyr eraill. Gwelir mai Conwy a Gwynedd sydd yn y perygl mwyaf o fethu cyflawni eu targedau cyfranogi. Nid oedd hi'n glir o'r cyfweliadau gyda staff rheoli a darparu pam bod cymaint o wahaniaeth o ran y graddau y mae Cyd-fuddiolwyr wedi llwyddo i gyflawni eu targedau cyfranogi. Fodd bynnag, awgrymwyd y gallai hyn, yn rhannol, fod wedi deillio o'r cyfyngiadau a roddwyd ar ADTRAC ynghylch y sawl y gall y prosiect weithio gyda nhw, ac yn benodol mewn perthynas â recriwtio unigolion sy'n byw mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf a'r gwahanol berthnasoedd gwaith rhwng ADTRAC a Chymunedau yn Gyntaf ar draws y rhanbarth. Fel y mae Ffigwr 5.1 yn dynodi isod, mae'n ymddangos bod cydberthyniad rhwng ardaloedd sydd agosaf at gyflawni eu targedau cyfranogi a'r rhai dydd wedi gallu recriwtio cyfranogwyr o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf.

**Ffigwr 5.1: Canran y buddiolwyr sy'n byw mewn codau post Cymunedau yn Gyntaf, fesul ardal**




Ffynhonnell: Data Monitro Cyfranogwyr (sylfaen = 893)

5.5 Mae gan y gweithrediad sawl targed ynghylch ymgysylltu cyfranogwyr ar draws gwahanol broffiliau demograffig. Isod, amlinellir y targedau a'r graddau y maent wedi cael eu cyflawni hyd yn hyn.

**Tabl 5.2: Targedau cyfranogi a data perfformiad, fesul grŵp demograffig**

| Grŵp cyfranogi | Targed | Targed (%) | Nifer a gyflawnwyd | Canran y targed a gyflawnwyd |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y cyfranogwyr | 1,451 | | 893 | 62% |
| Cyfranogwyr sydd ag anabledd/cyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio | 112 | 8% | 263 | 235% |
| Cyfranogwyr sy'n BME/Mudwyr/Lleiafrifoedd | 31 | 2% | 21 | 68% |
| Cyfranogwyr sydd â chyfrifoldebau gofalu/gofal plant | 121 | 8% | 56 | 46% |
| Cyfranogwyr gwrywaidd | 721 | 50% | 509 | 71% |
| Cyfranogwyr benywaidd | 730 | 50% | 384 | 53% |

Ffynhonnell: Data Monitro Cyfranogwyr (sylfaen = 893)

5.6 Fel y dangosir yn Nhabl 5.2, mae'r gweithrediad wedi rhagori ar ei darged ynghylch cynnwys cyfranogwyr sydd ag anabledd neu gyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio (WLHC). Hyd yn hyn, mae'r gweithrediad wedi ymgysylltu â 101 o gyfranogwyr sydd ag anabledd (11% o gyfanswm y cyfranogwyr) a 230 o gyfranogwyr a gofnododd WLHC (26% o gyfanswm y cyfranogwyr). Llwyddodd pob awdurdod lleol i ragori ar y targed ynghylch nifer y cyfranogwyr oedd ag anabledd neu WLHC. Roedd y gorberfformiad mwyaf yn erbyn y targed hwn i'w weld yn Wrecsam a Sir y Fflint, a oedd wedi recriwtio dros saith gwaith yn fwy o gyfranogwyr oedd ag anabledd neu WLHC nag y nodwyd yn ei darged. Nid oedd hi'n glir o'r gwaith ymgynghori gyda rhanddeiliaid pam yr oedd y gweithrediad yn gorberfformio gymaint mewn perthynas â'r grŵp demograffig hwn, er yn Wrecsam a Sir y Fflint, roedd cyfran uwch o'r cyfeiriadau wedi dod o BIPBC (10%, o'u cymharu â 7% ar draws y gweithrediad). Gallai'r gor-recriwtio cyfranogwyr o'r grwpiau hyn fod yn cyfrannu at yr anawsterau y mae'r gweithrediad yn eu hwynebu mewn perthynas â chymhlethdod grŵp y cyfranogwyr, oherwydd y bydd angen cymorth ychwanegol ar y grwpiau hyn efallai. Byddai o fudd archwilio'r mater hwn ymhellach efallai yn ystod cam nesaf y gwerthusiad, er mwyn deall a


yw'r lefel gor-recriwtio uchel hon wedi bod yn ddamweiniol neu a yw wedi bod o ganlyniad i arferion cyfeirio.

5.7 Mae'r gweithrediad yn agos i gyflawni ei dargedau cyfranogi mewn perthynas ag unigolion BME. Fodd bynnag, gwelwyd cryn amrywiaeth ymhlith awdurdodau lleol mewn perthynas â pha mor agos yr oeddent i gyflawni eu targed ar gyfer cyfranogwyr BME. Roedd mwyafrif yr awdurdodau lleol yn debygol o gyflawni eu targed ynghylch cyfranogwyr BME; fodd bynnag, roedd Gwynedd mewn perygl o beidio â chyflawni eu targed, ar ôl cyflawni 21% yn unig o'r targed hyd yn hyn.

5.8 Mae'r gweithrediad yn tanberfformio yn erbyn ei darged o ymgysylltu unigolion sydd â chyfrifoldebau gofalu a/neu ofal plant. Bu'r mater hwn yn her i bob awdurdod lleol ac eithrio Wrecsam a Sir y Fflint, a lwyddodd i ragori ar eu targed dros bedair gwaith. Mae hwn yn grŵp arbennig o anodd i'w gyrraedd, gan bod unigolion sydd â chyfrifoldebau gofalu yn debygol o fod yn brin iawn o amser o'u cymharu ag unigolion heb gyfrifoldebau o'r fath. Yn ogystal, mae rhieni a gofalwyr yn debygol o wynebu mwy o rwystrau ariannol sy'n eu hatal rhag cyfranogi, oherwydd y gallai eu cyfranogiad yn y prosiect (ac mewn cyflogaeth yn fwy eang) ddibynnu ar eu gallu i geisio gofal ychwanegol y telir amdano, er mwyn eu galluogi i gymryd rhan (Aylward, et al., 2018). Ymhellach, awgrymwyd y gallai rhai o'r garfan hon fod wedi cael eu cyfeirio at brosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE) a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru ac ESF neu i ddarpariaeth gan Ymddiriedolaeth Gofalwyr Ifanc Gogledd Cymru. Fodd bynnag, nid yw'r rhesymau dros gyfraddau cyfranogi isel ymhlith y rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu yn glir ar yr adeg hon, ac efallai bod hwn yn faes y byddai o fudd i'r tîm darparu ei archwilio ymhellach er mwyn nodi pa newidiadau fyddai modd eu gwneud er mwyn ymgysylltu rhieni a gofalwyr yn haws. O ystyried y gwahaniaeth yn y perfformiad yn Wrecsam a Sir y Fflint, efallai y byddai o fudd i awdurdodau lleol ymgysylltu â'r tîm hwn i nodi a oes unrhyw beth y maent yn ei wneud yn wahanol er mwyn cynorthwyo gweithgarwch recriwtio o'r grŵp hwn.

5.9 Ar y lefel weithredol, mae ADTRAC yn gorberfformio yn erbyn ei darged ynghylch cyfranogwyr gwrywaidd ac yn tanberfformio yn erbyn ei darged ynghylch cyfranogwyr benywaidd. Yn wir, mae 57% o gyfranogwyr wedi bod yn wrywod hyd yn hyn, ac mae 43% wedi bod yn fenywod. Gallai hyn, i ryw raddau, fod yn gysylltiedig â nifer uwch yr hawlwyr gwrywaidd na hawlwyr benywaidd ar draws Gogledd Cymru, fel y dangosir yn Ffigwr 5.2 isod.

**Ffigwr 5.2: Dadansoddiad fesul rhyw o'r hawlwyr yng Ngogledd Cymru, wedi'i ddadgyfuno fesul ardal awdurdod lleol**




Ffynhonnell: ONS[27]

5.10 Mae awgrymiadau eraill am y gwahaniaeth hwn yn cynnwys y sialensiau y mae'r prosiect wedi'u hwynebu wrth ymgysylltu unigolion sydd â chyfrifoldebau gofalu, gan bod menywod yn y DU yn ymgymryd â mwy o ofal plant nag y mae dynion yn ymgymryd ag ef yn gyffredinol (ONS, 2016), ac mae menywod yn fwy tebygol o fod yn ofalwyr di-dâl (Carers UK, 2016). Fodd bynnag, roedd yn ymddangos bod y ffigurau hyn yn cael eu dylanwadu gan dueddiadau o fewn awdurdodau lleol penodol. Er enghraifft, roedd pob awdurdod lleol, ac eithrio Wrecsam a Sir y Fflint

[27] Sylwer. Defnyddiwyd ffigurau ar draws Cymru gyfan yma gan bod ffigurau NEET sydd ar gael i'r cyhoedd ar lefel awdurdodau lleol yn annhebygol o fod yn ddigon cadarn er mwyn cynnig cymariaethau ystyrlon.

a Chonwy, ymhellach ar ei hôl hi mewn perthynas â'r targedau ynghylch cyfranogwyr benywaidd nag mewn perthynas â'r rhai ar gyfer cyfranogwyr gwrywaidd. Mewn cymhariaeth, bu Conwy a Wrecsam a Sir y Fflint yn fwy llwyddiannus wrth recriwtio cyfranogwyr benywaidd na chyfranogwyr gwrywaidd.

**Tabl 5.3: Cyfanswm y cyfranogwyr, fesul awdurdod lleol a rhyw**

| | Cyfranogwyr gwrywaidd | | | Cyfranogwyr benywaidd | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Targed cyfranogi | Cyfanswm a gyflawnwyd(n) | Cyfanswm a gyflawnwyd (%) | Targed cyfranogi | Cyfanswm a gyflawnwyd (n) | Cyfanswm a gyflawnwyd (%) |
| ADTRAC | 721 | 509 | 71% | 730 | 384 | 53% |
| Ynys Môn | 135 | 98 | 73% | 134 | 61 | 46% |
| Gwynedd | 135 | 121 | 90% | 166 | 69 | 42% |
| Conwy | 167 | 83 | 50% | 83 | 55 | 66% |
| Sir Ddinbych | 139 | 105 | 76% | 168 | 51 | 30% |
| Wrecsam a Sir y Fflint | 146 | 102 | 70% | 179 | 148 | 83% |

Ffynhonnell: Data Monitro Cyfranogwyr (sylfaen = 893)

### Perfformiad yn erbyn Targedau Canlyniadau

5.11 Fel y dangosir yn Nhabl 5.4 isod, mae'r gweithrediad mewn perygl ar hyn o bryd mewn perthynas â chyflawni ei dargedau ynghylch nifer y bobl ifanc sy'n sicrhau cymwysterau ac sy'n symud i gyflogaeth, neu addysg a hyfforddiant. Mae'r risg hwn ar ei fwyaf aciwt mewn perthynas â'r targed ynghylch addysg/hyfforddiant, y mae'r ganran gyflawni yn 34% yn unig hyd yn hyn. Isod, ystyrir y rhesymau dros hyn ymhellach.

**Tabl 5.4: Targedau canlyniadau a data perfformiad**

| | Nifer y cyfranogwyr a dargedwyd | Nifer y cyfranogwyr a dargedwyd (cyn y gwaith ailbroffilio) | Perfformiad hyd yn hyn | % y targed a gyflawnwyd hyd yn hyn |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y cyfranogwyr | 1,451 | 1,651 | 893 | 62% |
| Cyfranogwyr NEET (16-24 oed) yn sicrhau cymwysterau erbyn iddynt adael | 350 | 350 | 200 | 57% |
| Cyfranogwyr NEET (16-24 oed) yn symud ymlaen i addysg/ hyfforddiant ar ôl gadael | 270 | 280 | 92 | 34% |
| Cyfranogwyr NEET (16-24 oed) yn symud ymlaen i gyflogaeth ar ôl gadael | 367 | 357 | 149 | 41% |
| Cyfranogwyr yn sicrhau canlyniadau cadarnhaol eraill[28] | 290 | 330 | 337 | 116% |

Ffynhonnell: Data Monitro Cyfranogwyr (sylfaen = 893)

5.12 Mewn cymhariaeth, mae'r gweithrediad yn rhagori ar ei darged ynghylch nifer y cyfranogwyr sy'n cyflawni canlyniadau cadarnhaol eraill. Roedd cyfanswm o 337 o gyfranogwyr wedi sicrhau o leiaf un canlyniad cadarnhaol o'r rhestr a gyflwynir yn Nhabl 5.5 isod. Y peth mwyaf cyffredin oedd gweld cyfranogwyr yn cofnodi gwelliannau mewn lles meddyliol/emosiynol a gwelliannau mewn canlyniadau meddal. Trafodir y canlyniadau meddal hyn yn fanylach yn y bennod sy'n dilyn.

[28] Gallai canlyniadau cadarnhaol eraill gynnwys y canlynol:

- Sicrhau mwy nag un cymhwyster/achrediad o ganlyniad i'r ymyriad
- Cyflawni rhan o gymhwyster/achrediad
- Cyflawni hyfforddiant heb fod yn achrededig
- Cyflawni ardystiad sy'n berthnasol i fyd gwaith erbyn gadael
- Cychwyn ar addysg rhan-amser (llai nag 16 awr)
- Cwblhau lleoliad profiad gwaith/cyfle gwirfoddoli
- Cychwyn cyflogaeth am lai nag 16 awr (gan gynnwys hunangyflogaeth)
- Cychwyn cyflogaeth ar gontract dim oriau
- Cychwyn hyfforddeiaeth
- Gwelliant mewn lles meddyliol
- Gwelliant mewn canlyniadau meddal

**Tabl 5.5: Nifer y cyfranogwyr sydd wedi cyflawni canlyniadau cadarnhaol eraill, fesul canlyniad**

| Canlyniadau cadarnhaol eraill | Nifer y cyfranogwyr | Canran o'r holl gyfranogwyr |
|---|---|---|
| Cyflawni rhan o gymhwyster | 7 | 1% |
| Cyflawni hyfforddiant heb fod yn achrededig | 61 | 7% |
| Addysg/hyfforddiant am lai nag 16 awr | 13 | 1% |
| Cwblhau lleoliad profiad gwaith | 36 | 4% |
| Cwblhau cyfle gwirfoddoli | 47 | 5% |
| Cyflogaeth/hunangyflogaeth am llai nag 16 awr | 13 | 1% |
| Cychwyn cyflogaeth ar gontract dim oriau | 7 | 1% |
| Gwelliant mewn lles meddyliol/emosiynol | 196 | 22% |
| Gwelliant mewn canlyniadau meddal | 243 | 27% |
| Mwy nag un cymhwyster | 72 | 8% |
| Wedi cychwyn hyfforddeiaeth | 14 | 2% |
| Unrhyw ganlyniad cadarnhaol | 337 | 38% |

Ffynhonnell: Data Monitro Cyfranogwyr (sylfaen = 893)

5.13 Pan fynegir targedau fel canrannau o gyfanswm y cyfranogwyr, disgwylir i'r gweithrediadau arwain at 20% o gyfranogwyr yn sicrhau cymhwyster erbyn iddynt adael, 17% o gyfranogwyr yn gadael ac yn symud i addysg a hyfforddiant, a 28% o gyfranogwyr yn symud ymlaen i gyflogaeth. Fel y mae Tabl 5.6 yn dangos isod, ar lefel rhaglen, mae ADTRAC yn rhagori ar ei thargedau ynghylch cyfranogwyr yn sicrhau cymhwyster, er ei fod ar ei hôl hi gyda'r ddau darged arall.

**Tabl 5.6: Math o ganlyniad caled fel canran o gyfanswm y cyfranogwyr**

| Awdurdod lleol | Cyfranogwyr sy'n sicrhau cymhwyster | Cyfranogwyr sy'n symud ymlaen i addysg a hyfforddiant ar ôl gadael | Cyfranogwyr sy'n symud ymlaen i gyflogaeth ar ôl gadael |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 30% | 6% | 12% |
| Gwynedd | 22% | 12% | 19% |
| Conwy | 22% | 9% | 17% |
| Sir Ddinbych | 12% | 6% | 25% |
| Wrecsam a Sir y Fflint | 25% | 15% | 12% |
| ADTRAC (cyflawnwyd) | 22% | 10% | 17% |
| Targedau prosiect (Gorllewin Cymru a'r Cymoedd) | 20% | 17% | 20% |
| Targedau'r prosiect (Dwyrain Cymru) | 20% | 17% | 28% |

Ffynhonnell: Data Monitro Cyfranogwyr (sylfaen = 893)

## Gwahaniaethau mewn Canlyniadau Caled rhwng Awdurdodau Lleol

5.14 Yn yr un modd â pherfformiad yn erbyn y targedau recriwtio, ceir gwahaniaeth sylweddol yn y perfformiad yn erbyn y targedau canlyniadau rhwng awdurdodau lleol. Er y ceir risg sylweddol nas cyflawnir targedau canlyniadau ar draws yr holl awdurdodau lleol, fel y mae Tablau 5.7-5.9 yn dangos, ceir amrywiaeth sylweddol rhwng perfformiad awdurdodau lleol ar draws y gwahanol feysydd canlyniadau.

**Tabl 5.7: Cyfranogwyr NEET yn sicrhau cymwysterau erbyn iddynt adael – targedau a pherfformiad, fesul awdurdod lleol**

| Awdurdod lleol | Targed | Cyfanswm | Cyfran o'r targed a gyflawnwyd % |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 54 | 48 | 89% |
| Gwynedd | 84 | 41 | 49% |
| Conwy | 66 | 31 | 47% |
| Sir Ddinbych | 62 | 18 | 29% |
| Wrecsam a Sir y Fflint | 84 | 62 | 74% |

Ffynhonnell: Data Monitro Cyfranogwyr (sylfaen = 893)

**Tabl 5.8: Cyfranogwyr NEET yn symud ymlaen i addysg/hyfforddiant ar ôl gadael – targedau a pherfformiad, fesul awdurdod lleol**

| Awdurdod lleol | Targed | Cyfanswm | Cyfran o'r targed a gyflawnwyd % |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 46 | 10 | 22% |
| Gwynedd | 60 | 23 | 38% |
| Conwy | 56 | 12 | 21% |
| Sir Ddinbych | 53 | 9 | 17% |
| Wrecsam a Sir y Fflint | 55 | 38 | 69% |

Ffynhonnell: Data Monitro Cyfranogwyr (sylfaen = 893)

**Tabl 5.9: Cyfranogwyr NEET yn symud ymlaen i gyflogaeth ar ôl gadael – targedau a pherfformiad, fesul awdurdod lleol**

| Awdurdod lleol | Targed | Cyfanswm | Cyfran o'r targed a gyflawnwyd % |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 54 | 19 | **35%** |
| Gwynedd | 94 | 37 | **39%** |
| Conwy | 66 | 23 | **35%** |
| Sir Ddinbych | 62 | 39 | **63%** |
| Wrecsam a Sir y Fflint | 91 | 31 | **34%** |

Ffynhonnell: Data Monitro Cyfranogwyr (sylfaen = 893)

5.15 Er enghraifft, mae Ynys Môn a Wrecsam a Sir y Fflint yn llawer mwy tebygol o gyflawni eu targedau mewn perthynas â nifer y cyfranogwyr sy'n sicrhau cymwysterau nag y mae awdurdodau lleol eraill, ac mae Sir Ddinbych lawer yn agosach i gyflawni'r targed canlyniadau ynghylch nifer y cyfranogwyr sy'n symud ymlaen i gyflogaeth nag y mae awdurdodau lleol eraill. Mae hyn yn debygol o adlewyrchu nifer o ffactorau, gan gynnwys yr amodau yn y farchnad lafur leol, pa mor agos yw sefydliadau AB a nifer yr unigolion EOTAS o fewn awdurdod lleol.

5.16 Gallai adlewyrchu gwahanol gryfderau gweithrediadau awdurdodau lleol gwahanol a'r elfennau penodol y maent yn canolbwyntio arnynt hefyd. Er

enghraifft, gallai nifer gymharol uchel y cyfranogwyr sy'n symud ymlaen i gyflogaeth yn Sir Ddinbych, mewn perthynas â'i tharged (llwyddwyd i gyflawni 63% o'i tharged) adlewyrchu'r ffaith y lleolir ADTRAC yn Sir Ddinbych yn Gweithio, sy'n golygu ei fod yn canolbwyntio yn fwy ar ganlyniadau cyflogadwyedd nag eraill. Mae'n werth nodi bod Sir Ddinbych yn hyrwyddo lleoliadau gwirfoddoli a phrofiad gwaith ymhlith cyfranogwyr ADTRAC, rhywbeth sy'n debygol o gynorthwyo canlyniadau 'sicrhau cyflogaeth' yn gryf.

5.17 Mae canran cyfanswm y canlyniadau caled a gyflawnir gan bob awdurdod lleol, fel y dangosir yn Nhabl 5.10, yn dystiolaeth o'r gwahaniaeth mewn ffocws rhwng awdurdodau lleol.

**Tabl 5.10: Math o ganlyniad caled fel canran o gyfanswm y canlyniadau caled**

| | **Sicrhau cymhwyster** | **Addysg a hyfforddiant** | **Cyflogaeth** |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 62% | 13% | 25% |
| Gwynedd | 41% | 23% | 37% |
| Conwy | 47% | 18% | 35% |
| Sir Ddinbych | 27% | 14% | 59% |
| Wrecsam a Sir y Fflint | 47% | 29% | 24% |
| ADTRAC | 45% | 21% | 34% |

Ffynhonnell: Data Monitro Cyfranogwyr (sylfaen = 893)

5.18 Er gwaethaf y gwahaniaethau hyn, mae gweithrediadau awdurdodau lleol yn gymharol gyson o ran canran y cyfranogwyr y maent wedi sicrhau canlyniadau caled ar eu cyfer. Fel y mae Tabl 5.11 yn dangos, mae gweithrediadau awdurdodau lleol wedi sicrhau canlyniadau caled ar gyfer rhwng 42% a 53% o gyfranogwyr.

**Tabl 5.11: Canlyniadau caled fel canran o gyfanswm y cyfranogwyr**

| | Cyfanswm y cyfranogwyr | Cyfanswm y cyfranogwyr gyda chanlyniad caled | % y cyfranogwyr gyda chanlyniad caled |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 159 | 77 | 48% |
| Gwynedd | 190 | 101 | 53% |
| Conwy | 138 | 66 | 48% |
| Sir Ddinbych | 156 | 66 | 42% |
| Wrecsam a Sir y Fflint | 250 | 131 | 52% |
| ADTRAC | 893 | 441 | 49% |

Ffynhonnell: Data Monitro Cyfranogwyr (sylfaen = 893)

## Rhesymau Posibl dros Danberfformiad yn erbyn Canlyniadau Targedau

5.19 Mynegwyd pryderon gan staff rheoli a darparu bod rhai o'r targedau canlyniadau yn rhy uchelgeisiol ar gyfer y prosiect. Daeth dau safbwynt i'r amlwg ynghylch y rheswm dros hyn.

### *Cyfranogwyr sy'n wynebu Rhwystrau Lluosog a Chymhleth*

5.20 Y safbwynt cyntaf oedd bod y targedau canlyniadau yn rhy uchel, o ystyried y rhwystrau lluosog a chymhleth y mae'r bobl ifanc y mae'r prosiect yn ceisio eu cynorthwyo yn eu hwynebu, y bydd gofyn i nifer ohonynt gael cymorth eithaf hirdymor a dwys efallai cyn y gellir eu symud yn agos at ganlyniad. Ymhlith nifer yn nhimau darparu yr awdurdodau lleol, roedd teimlad nad yw nifer o gyfranogwyr yn barod ar gyfer cyflogaeth, a bod cyfranogwyr wedi bod lawer yn bellach o'r farchnad lafur nag yr oedd Cyd-fuddiolwyr wedi ei ragweld ar ddechrau'r prosiect. Mae'n ymddangos bod y Data Monitro Cyfranogwyr yn cefnogi hyn, gan ddangos bod cyfran lawer yn uwch o gyfranogwyr sydd ag anabledd neu gyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio, yn cael eu cynorthwyo na'r hyn a ragwelwyd ar ddechrau'r prosiect.

5.21 O ganlyniad i gymhlethdod y rhwystrau y mae cyfranogwyr yn eu hwynebu, nododd mentoriaid bod angen neilltuo cryn amser i feithrin perthnasoedd gyda chyfranogwyr a datblygu sgiliau sylfaenol megis hyder. O ganlyniad, mewn rhai ardaloedd, myfyriodd staff rheoli a darparu bod llwythi achosion yn parhau i fod


yn gymharol uchel, gan nad ydynt yn gallu symud nifer o gyfranogwyr ymlaen i ganlyniad, ac yn ei dro, mae hyn yn effeithio ar eu gallu i dynnu cyfranogwyr newydd i mewn. Gallai'r ffaith bod gan ADTRAC gyfnod aros cyn i gyfranogwyr allu manteisio ar gymorth, adlewyrchu hyn.

‘Yn is o ran nifer y cofrestriadau – [fe'i] osodwyd yn rhy uchel. Disgwylir i ni gynnig cymorth dwys, un-i-un a dim ond gyda'r rhai sy'n wynebu dau rwystr yn fwy y gallwn weithio gyda nhw. Bydd pobl yn gadael yn llai aml, felly ceir llai o gapasiti.' **(Staff rheoli a darparu, cyfweledig)**

5.22 Mae dadansoddiad o Ddata Monitro Cyfranogwyr yn dynodi bod cyfranogwyr yn treulio 191 diwrnod (ychydig dros chwe mis) ar gyfartaledd yn cael cymorth gan ADTRAC cyn iddynt adael y prosiect, gydag amrediad o 15 i 658 diwrnod. O ganlyniad i'r amrediad uchel rhwng cyfranogwyr, efallai y byddai'n haws ystyried hyn yn nhermau faint o gyfranogwyr sy'n gadael y cymorth fesul cyfnod o amser. Darperir hyn yn Ffigwr 5.3.

5.23 Fel y dangosir yn Ffigwr 5.3, y sefyllfa fwyaf cyffredin oedd bod cyfranogwyr yn cael cymorth am rhwng tri a chwe mis (29% o gyfranogwyr). Fodd bynnag, cafodd cyfran sylweddol o gyfranogwyr gymorth am chwe mis neu fwy (44%), ac roedd 13% o gyfranogwyr wedi manteisio ar gymorth am dros flwyddyn.

**Ffigwr 5.3: Hyd y cyfnod y bydd cyfranogwyr yn manteisio ar gymorth trwy gyfrwng ADTRAC, fesul cyfnod o amser**




Ffynhonnell: Data Monitro Cyfranogwyr (sylfaen = 387, yr holl gyfranogwyr a oedd wedi gadael)

5.24 Mae Tabl 5.12 yn dangos hyd y cyfnod y cynorthwywyd cyfranogwyr ar draws pob awdurdod lleol. Ym mwyafrif yr awdurdodau lleol, roedd dros 40% o gyfranogwyr yn cael eu cynorthwyo am dros chwe mis, ac eithrio Sir Ddinbych (lle y cynorthwywyd 32% o ymatebwyr am y cyfnod hwn).

**Tabl 5.12: Canran y cyfranogwyr a gynorthwywyd fesul cyfnod, fesul awdurdod lleol**

| | Llai nag 1 mis | 1-3 mis | 3-6 mis | 6-9 mis | 9-12 mis | 12-18 mis | 18+ mis |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn (n = 38) | 5% | 11% | 39% | 18% | 8% | 16% | 3% |
| Gwynedd (n = 99) | 5% | 25% | 26% | 16% | 16% | 10% | 1% |
| Conwy (n = 75) | 3% | 28% | 20% | 17% | 17% | 12% | 3% |
| Sir Ddinbych (n = 92) | 8% | 29% | 32% | 18% | 5% | 8% | 0% |
| Wrecsam a Sir y Fflint (n=83) | 2% | 18% | 28% | 20% | 14% | 13% | 4% |

Ffynhonnell: Data Monitro Cyfranogwyr (sylfaen = 387, yr holl gyfranogwyr a oedd wedi gadael)

5.25 Mae'n ymddangos bod hyn yn cyfiawnhau pryderon rhai rhanddeiliaid bod y cymorth y mae gofyn i'r cyfranogwyr ei gael yn fwy hirdymor o ran ei natur nag a ragwelwyd pan bennwyd y targedau efallai.

5.26 Nodwyd pryderon arbennig gan staff rheoli a darparu ynghylch y targed addysg ar gyfer y gweithrediad, gan bod nifer o gyfranogwyr wedi cael profiadau niweidiol ym myd addysg yn flaenorol, a oedd yn golygu y gallent fod yn arbennig o amharod i ddychwelyd i'r lleoliad hwn. Yn wir, mae Data Monitro Cyfranogwyr yn dangos bod 43% o gyfranogwyr wedi cael profiad dysgu negyddol yn flaenorol, a bod 24% o gyfranogwyr yn meddu ar gymwysterau ar Lefel 1 CQFW neu'n is pan gychwynnont gydag ADTRAC.

5.27 Adleisiwyd y pryder hwn ynghylch targedau addysg gan un o'r rhanddeiliaid strategol hefyd.

‘Credaf bod elfen o wahaniaeth rhwng targedau a chanlyniadau. Mae nifer o bobl yn dod trwyddo y maent yn llawer pellach i ffwrdd o'r farchnad lafur. Mae gwir angen i ni ystyried y canlyniadau meddal yr ydym yn eu cyflawni. Gall y gwaith i gael y bobl ifanc i'r man lle y gallwn eu cael fod yn enfawr, ond nid yw targedau WEFO wastad yn gwerthfawrogi hynny... Mae'r targed addysg yn un anodd. Mae nifer fawr o bobl yr ydym yn gweithio gyda nhw wedi cael profiad gwael ym myd addysg. O ganlyniad, nid oes ganddynt ddiddordeb mewn ysgol/coleg. Ni fydd nifer o'r bobl yr ydym yn gweithio gyda nhw hyd yn oed yn fodlon ymweld â choleg. Yna byddwn yn wynebu rhwystrau pan gynhelir pethau fel ffeiriau swyddi mewn colegau – ni fydd pobl yn mynychu am y rheswm hwnnw.' **(Rhanddeiliad strategol, cyfweledig)**

5.28 Nododd staff rheoli a darparu hefyd y gallai targedau cyflogaeth fod yn afrealistig yng ngoleuni'r gwaith sydd ar gael yn lleol a'r diffiniadau rhy llym o waith. Mewn un ardal, er enghraifft, awgrymwyd bod y targed cyflogaeth o 16+ awr yr wythnos yn afrealistig; o'r herwydd, roedd contractau yn "brin" yn yr ardal leol. Roedd yn ymddangos bod natur wledig ardaloedd yn gwaethygu'r broblem hon yn rhannol, gan olygu nad oedd cyfleoedd am swydd wastad yn gyfleoedd hygyrch i gyfranogwyr.

5.29 Mae'r dyfyniad isod yn disgrifio pryderon ynghylch y targed cyflogaeth a'r targed addysg. Mae'r dyfyniad hwn yn adlewyrchu'r adborth a gafwyd ar draws grwpiau rhanddeiliaid.

> 'O ran targedau, mae'r rhain yn rhy uchel. I ddechrau, mae'n anodd iawn ymgysylltu â'r bobl ifanc ac maent yn cael sawl camgychwyniad. Maent mor bell i ffwrdd o'r farchnad lafur fel bod peth bach hyd yn oed, megis cael cyfarfod gyda mentor, yn cymryd cryn ddewrder ac ymdrech weithiau. Rhaid i ni wneud gwaith aruthrol cyn iddynt hyd yn oed ystyried mynd i weithio. Mae mynd i fyd addysg yn fater arall. Nid yw'r rhai sydd wedi cael profiad gwael yn yr ysgol (rhan fwyaf o gyfranogwyr ADTRAC) yn dymuno mynychu unrhyw amgylchedd addysg fyth eto. Mae hwn yn un o'n targedau ac nid oes modd ei gyflawni.' **(Arolwg Staff Rheoli a Darparu, ymatebydd 20)**

5.30 O ganlyniad, mynegwyd pryderon gan sawl aelod o staff bod targedau ar gyfer y gweithrediad yn canolbwyntio ormod ar "ganlyniadau caled", megis y targed cyflogaeth, a bod barnu llwyddiant y prosiect ar y sail hon yn peryglu taflu cysgod ar y gwaith gwerthfawr y mae'r prosiect yn ei wneud er mwyn sicrhau canlyniadau meddal i gyfranogwyr. Nododd yr unigolion hyn eu bod yn teimlo fel pe bai angen rhoi mwy o bwyslais ar y cynnydd a sicrhawyd gan gyfranogwyr, gan bod nifer o'r cyfranogwyr yr oeddent yn gweithio gyda nhw yn bell iawn o'r farchnad lafur. I'r cyfranogwyr hyn, teimlwyd bod y syniad y gallent sicrhau canlyniad caled wrth adael yn un afrealistig, ond bod y cymorth yn drawsnewidiol er hyn, ac yn eu helpu i gyflawni canlyniadau meddal megis mwy o hyder a lefelau lles uwch, a allai eu helpu i symud ymlaen i EET yn y dyfodol, er na fyddai hyn o fewn amserlen cymorth ADTRAC efallai.

‘Fy safbwynt personol i yw y dylai fod llai o bwysau ar ganlyniadau a mwy o bwyslais ar daith yr unigolyn ifanc, gan ystyried y sialensiau y bu'n rhaid iddynt eu hwynebu, yn hytrach na chanolbwyntio ar y canlyniad terfynol, e.e. cyflogaeth.' **(Staff rheoli a darparu, cyfweledig)**

'Teimlaf bod y prosiect wedi bod yn llwyddiant mawr. Byddwn, fodd bynnag, yn newid hyd cyfnod y prosiect – dim ond cipolwg ar gyfnod yw tair blynedd er mwyn gwella bywydau pobl ifanc sy'n NEET. Yn aml, mae'r rhwystrau y maent yn eu hwynebu yn bethau na ellir eu datrys dros nos, a byddai'n braf gweld prosiect yn y dyfodol a fyddai'n gallu cynnig y cymorth mentora pwrpasol hwn.' **(Arolwg Staff Rheoli a Darparu, ID 16)**

5.31 Gallai hyn awgrymu bod ychydig anghysondeb ar hyn o bryd rhwng grŵp y cyfranogwyr y mae ADTRAC yn gweithio gyda nhw, eu hanghenion cymorth, a'r targedau ar gyfer y gweithrediad.

*Cyfranogwyr sy'n wynebu Rhwystrau Lluosog a Chymhleth*

5.32 Yr ail safbwynt oedd bod ffocws yn cael ei roi ar y targedau cyfranogi. Awgrymwyd y gallai'r targedau cyfranogi fod wedi bod yn rhy uchelgeisiol ar ddechrau'r prosiect, a bod hyn yn rhywbeth sydd wedi effeithio ar allu y prosiect i gyflawni'r targedau canlyniadau. Effeithiwyd ar hyn yn arbennig gan y penderfyniad i wneud cyfranogwyr a oedd yn byw mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yn anghymwys i gael cymorth.

5.33 Cefnogir y farn hon gan ganran cyfanswm y cyfranogwyr a oedd yn llwyddo i sicrhau canlyniadau caled erbyn iddynt adael y rhaglen, fel y dangosir yn Ffigwr 5.3 uchod. Mae hyn yn awgrymu bod y prosiect yn agosach at gyflawni ei dargedau na'r hyn y mae'r ffigurau amrwd yn ei awgrymu ar eu pen eu hunain.

## Casgliadau

5.34 Yn ystod y cam darparu hwn, mae'r gweithrediad mewn perygl o fethu cyflawni ei dargedau cyffredinol ynghylch niferoedd y cyfranogwyr a chanlyniadau cyfranogwyr, ac eithrio cyfran y cyfranogwyr sy'n gadael y cymorth ac sy'n sicrhau canlyniadau cadarnhaol eraill.[29] Roedd adborth gan randdeiliaid yn awgrymu bod hyn o ganlyniad i rwystrau cymhleth ymhlith grŵp y cyfranogwyr, sy'n golygu bod gofyn iddynt gael cymorth ychwanegol er mwyn paratoi ar gyfer gwaith, er bod rhai rhanddeiliaid eraill wedi awgrymu bod prif broblem y prosiect yn ymwneud â'r anhawster wrth recriwtio niferoedd digonol o gyfranogwyr. Yn y naill achos neu'r llall, awgrymir felly y dylai'r gweithrediad ystyried ailystyried targedau yng ngoleuni cymhlethdod carfan y cyfranogwyr.

5.35 Mae'r sefyllfa sy'n dod i'r amlwg mewn perthynas â COVID-19, sydd wedi esblygu yn ystod cyfnod y gwerthusiad hwn, yn awgrymu bod y gweithrediad yn debygol o wynebu sialensiau mwy fyth wrth gyflawni'r targedau hyn yn ystod y cyfnod sy'n weddill, o ganlyniad i leihad mewn cyfleoedd cyflogaeth o ganlyniad i'r pandemig. Disgwylir i hyn arwain at niferoedd uwch o bobl ifanc yn ddi-waith, a ysgogir yn rhannol gan ostyngiadau yn nifer y swyddi yn y sector lletygarwch a nifer y prentisiaethau – sef y ffordd y bydd nifer o bobl ifanc yn ymuno â'r farchnad lafur (Gyrfa Cymru, 2020). O'r herwydd, awgrymir y bydd angen diwygio targedau'r prosiect efallai er mwyn adlewyrchu'r cyd-destun hwn sy'n newid.

5.36 Roedd pedwar awdurdod lleol yn wynebu sialensiau wrth recriwtio cyfranogwyr benywaidd, a oedd yn arwain at danberfformiad yn erbyn y targed hwn ar draws y gweithrediad. Yn ogystal, roedd rhan fwyaf yr awdurdodau lleol yn ei chael hi'n anodd cyflawni targedau ynghylch cynnwys cyfranogwyr sydd â chyfrifoldebau gofalu. Gallai hyn awgrymu bod gofyn cael ymyriadau wedi'u targedu yn fwy er mwyn hwyluso mwy o gyfranogiad ymhlith y grwpiau demograffig hyn.

[29] Fel y diffiniwyd uchod.

# 6. Canlyniadau i Gyfranogwyr

6.0 Mae'r adran hon yn archwilio effaith y cymorth a ddarperir trwy gyfrwng ADTRAC ar gyfranogwyr, gan ddwyn gwybodaeth ynghyd o Ddata Monitro Cyfranogwyr, cyfweliadau gyda sampl o gyfranogwyr, a safbwyntiau staff rheoli a darparu.

**Prif Bwyntiau:**

- Mae ADTRAC wedi arwain at ystod eang o ganlyniadau i gyfranogwyr, gan gynnwys gwelliannau o ran lles, bod yn barod ar gyfer byd gwaith, a gostyngiadau mewn rhwystrau er mwyn ymgymryd ag EET.
- O blith y cyfranogwyr ADTRAC hynny a oedd wedi gadael y cymorth, roedd 57% wedi symud ymlaen i EET.

Isod, trafodir y canlyniadau caled y mae ADTRAC wedi arwain atynt, a ddilynir gan drafodaeth am y canlyniadau eraill y mae ADTRAC wedi arwain atynt.

## Canlyniadau Caled

6.1 Fel y dangoswyd yn y bennod flaenorol, a oedd yn archwilio sut y mae'r gweithrediad wedi perfformio yn erbyn ei dargedau, mae'r gweithrediad wedi arwain at y canlyniadau caled canlynol i gyfranogwyr:

- Cyfranogwyr yn sicrhau cymwysterau erbyn iddynt adael: 200 cyfranogwr
- Cyfranogwyr yn cychwyn ar gwrs addysg/hyfforddiant ar ôl gadael: 92 cyfranogwr
- Cyfranogwyr yn symud ymlaen i gyflogaeth ar ôl gadael: 149 cyfranogwr
- Cyfranogwyr yn sicrhau canlyniadau cadarnhaol eraill[30]: 337 cyfranogwr.

[30] Gallai canlyniadau cadarnhaol eraill gynnwys y canlynol:

- Sicrhau mwy nag un cymhwyster/achrediad o ganlyniad i'r ymyriad
- Cyflawni rhan o gymhwyster/achrediad
- Cyflawni hyfforddiant heb fod yn achrededig
- Cyflawni ardystiad sy'n berthnasol i fyd gwaith erbyn gadael
- Cychwyn ar addysg rhan-amser (llai nag 16 awr)
- Cwblhau lleoliad profiad gwaith/cyfle gwirfoddoli

6.2 Hyd yn hyn, mae 422 o gyfranogwyr wedi gadael ADTRAC, sy'n golygu bod ADTRAC wedi gweld 35% o'r cyfranogwyr yn symud ymlaen i gyflogaeth a 22% yn symud ymlaen i addysg neu hyfforddiant. Mae hyn awgrymu bod ychydig dros hanner y cyfranogwyr (57%) sy'n gadael y gweithrediad yn symud ymlaen i EET o ganlyniad i'r cymorth.

6.3 Gallai hyn ddynodi bod ADTRAC yn ei chael hi'n anodd sicrhau canlyniadau caled ar gyfer cyfranogwyr. Fodd bynnag, roedd tystiolaeth bod y prosiect yn llwyddo i sicrhau canlyniadau mwy meddal, a allai helpu i gynorthwyo cyfranogwyr i symud yn agosach at EET.

6.4 Er enghraifft, roedd bron i hanner y cyfranogwyr a oedd wedi gadael y prosiect wedi llwyddo i sicrhau cymhwyster (47%), ac roedd 80% o'r cyfranogwyr a adawodd y cymorth wedi llwyddo i sicrhau o leiaf un canlyniad cadarnhaol arall, gan gynnwys gwelliant mewn canlyniadau meddal a gwell iechyd a lles meddyliol.

### Effaith ar Les Cyfranogwyr

6.5 Mesurwyd lles cyfranogwyr gan ddefnyddio WEMWBS wrth iddynt ymuno â'r prosiect a gadael y prosiect.[31]

6.6 Sgôr lles gyfartalog y cyfranogwyr wrth ymuno oedd 41; fodd bynnag, roedd y ffigwr hwn ychydig yn uwch ar gyfer cyfranogwyr a oedd wedi gadael y prosiect, sef 43.[32] Roedd y sgôr hon erbyn gadael wedi codi 51.8. Roedd y gwahaniaeth hwn yn un arwyddocaol o ran yr ystadegau. Er mwyn rhoi hwn yn ei gyd-destun, y sgôr WEMWBS gyfartalog ar gyfer pobl ifanc 16-24 oed ar draws Cymru, a gofnodwyd yn Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018- 2019, oedd 50.6 (StatsCymru, 2019). Mae hyn yn golygu bod sgoriau lles cyfartalog y rhai a oedd yn cychwyn lawer yn is ymhlith cyfranogwyr ADTRAC nag yr oeddent ymhlith pobl ifanc yng

---

- Cychwyn cyflogaeth am lai nag 16 awr (gan gynnwys hunangyflogaeth)
- Cychwyn cyflogaeth ar gontract dim oriau
- Cychwyn hyfforddeiaeth
- Gwelliant mewn lles meddyliol
- Gwelliant mewn canlyniadau meddal

[31] Arweiniad ynghylch dehongli sgoriau WEMWBS: mae WEMWBS yn cynnwys 14 eitem sy'n ymwneud â lles cadarnhaol. Ar gyfer pob eitem, bydd yr unigolyn sy'n ymateb yn rhoi sgôr o rhwng 1-5, gan sicrhau cyfanswm rhwng 14 a 70 (Ysgol Feddygol Warwick, 2020). Ar y sgôr hon, roedd graddfa uwch yn dynodi lles uwch. Gellir gweld rhagor o wybodaeth ynghylch sgorio a dehongli sgoriau WEMWBS yma.

[32] Sylfaen: cyfranogwyr a oedd wedi darparu data wrth gychwyn a gadael (n = 277).

Nghymru. Fodd bynnag, roedd sgoriau cyfartalog cyfranogwyr ADTRAC erbyn iddynt adael ychydig yn uwch na'r ffigwr cyfartalog yn Arolwg Cenedlaethol Cymru. Mae hyn yn awgrymu bod ADTRAC yn cael effaith amlwg ar les cyfranogwyr.

6.7 At ei gilydd, gwelwyd cynnydd yn sgôr lles 87% o gyfranogwyr ADTRAC erbyn iddynt adael y cymorth, o'i chymharu â'u sgôr pan oeddent wedi cychwyn. Gwelwyd cydberthyniad cadarnhaol rhwng cynnydd yn lefelau lles cyfranogwyr a chyfranogwyr a oedd yn cychwyn ar EET.

6.8 Gwelliannau o ran lles oedd un o'r effeithiau mwyaf cyffredin a drafodwyd gan gyfranogwyr yn ystod cyfweliadau am eu profiadau o'r cymorth hefyd. Nododd un ar hugain o'r 30 cyfranogwr a gyfwelwyd bod y cymorth wedi gwella eu hiechyd meddwl neu eu lles.

6.9 Nododd bron pob un a gyfwelwyd (27/30) eu bod wedi trafod eu hiechyd meddwl a'u lles gyda chynghorydd ADTRAC, a nododd y cyfweledigion a oedd yn weddill (3/30) na fu angen iddynt wneud hynny. Nododd yr holl gyfranogwyr a oedd wedi trafod eu hiechyd meddwl a'u lles gyda'u cynghorydd ADTRAC y bu hyn yn ddefnyddiol. Mewn rhai achosion, roedd cyfranogwyr wedi cael budd o gael cymorth ysgafn, ac roedd eraill wedi cael eu cyfeirio am gymorth ychwanegol o ganlyniad i weithgarwch ymgysylltu gyda'u mentor, gan gynnwys cyfeiriadau at therapyddion, gweithdai meithrin hyder, a chyfeiriadau at feddygon teulu er mwyn galluogi cyfranogwyr i fanteisio ar gymorth ychwanegol.

> ‘Heb os, mae wedi fy helpu i ddeall fy hun yn well fel unigolyn. Mae wedi rhoi gobaith i mi ac mae wedi dangos yr holl gymorth y gallaf ei gael, gan ddangos i mi nad wyf ar fy mhen fy hun.’ **(Cyfranogwr, ID 24)**

> ‘Cyn ADTRAC, roeddwn yn gofidio'n fawr ynghylch gadael y tŷ, ond mae fy mentor a'm hyfforddwr lles wedi dysgu strategaethau ymdopi i mi ac roedd gorfod mynychu cyrsiau bob wythnos wedi helpu i sefydlu patrwm er mwyn gadael y tŷ, gan roi hwb i'm hyder. Cychwynnais yn y coleg chwe mis yn ôl, a heb ADTRAC, ni fyddwn fyth wedi gallu gwneud hyn.’ **(Cyfranogwr, ID 27)**

6.10 Roedd cyfranogwyr yn aml yn trafod sut yr oedd y cymorth wedi helpu i feithrin eu hyder, ac mewn sawl achos, roedd wedi helpu cyfranogwyr i oresgyn eu gorbryder, wrth iddynt adrodd ei fod wedi eu galluogi i siarad gyda phobl a chymryd rhan mewn grwpiau. Nododd naw cyfranogwr bod ADTRAC wedi eu galluogi i oresgyn neu i reoli eu gorbryder. Nododd sawl cyfranogwr nad oeddent yn gallu 'gadael y tŷ' cyn ADTRAC. Mae'r dyfyniad canlynol yn enghraifft o'r thema hon.

‘Mae fy iechyd meddwl wedi gwella'n fawr iawn. Cyn hyn, roeddwn yn teimlo'n rhy isel a gofidus i adael y tŷ, ac erbyn hyn, rydw i'n hapus i siarad ag unrhyw un. Rydw i'n llawer mwy hyderus nawr, a gallaf weithio fel rhan o dîm, diolch i'r gweithgareddau grŵp yr oedd ADTRAC wedi trefnu ar fy nghyfer.’ **(Cyfranogwr, ID2)**

6.11 6.11 Nododd rhai cyfranogwyr (3/30) hefyd bod y cymorth yr oeddent wedi'i gael gan ADTRAC wedi eu helpu i leihau ymddygiad negyddol megis cam-drin alcohol neu gymryd cyffuriau, yn ogystal â hunan-niwed, a oedd yn gysylltiedig â'r iechyd meddwl gwael yr oeddent wedi ei brofi cyn cymryd rhan yn ADTRAC yn eu barn nhw.


## Newidiadau mewn Cyflogadwyedd a bod yn Barod ar gyfer Gwaith

6.12 Gofynnwyd i'r holl gyfranogwyr lenwi Work Star wrth iddynt ymuno â'r prosiect ac wrth adael. Mae Work Star yn mesur gwahanol agweddau ar gyflogadwyedd a chyflogaeth, ac fe'i ddefnyddir i fesur cynnydd oedolion sydd heb waith neu sy'n dychwelyd i'r gweithle fel arfer.[33] Mae'r offeryn yn archwilio saith agwedd ar gyflogadwyedd, y rhoddir sgôr o 1-10 i bob un ohonynt. Wrth ymuno â'r cymorth, y sgôr gyfartalog a sicrhawyd ar draws y saith elfen oedd 5.91. Wrth adael, roedd y sgôr gyfartalog wedi codi i 7.59. Roedd y gwahaniaeth hwn yn arwyddocaol ar lefel ystadegol. At ei gilydd, roedd 71% o gyfranogwyr a oedd wedi gadael y cymorth wedi gweld cynnydd yn eu sgôr Work Star.

[33] Mae rhagor o wybodaeth ynghylch Work Star ar gael yma.

6.13 Fodd bynnag, roedd y sgôr Work Star gyfartalog ychydig yn uwch ymhlith cyfranogwyr a aeth ymlaen i adael y cymorth (6.06), a allai ddynodi bod yr ymatebwyr hyn ychydig yn fwy parod ar gyfer byd gwaith na'r rhai nad ydynt wedi gadael eto a symud ymlaen i ganlyniad. Yn wir, roedd y sgoriau cyfartalog ar gyfer pob elfen o Work Star yn uwch ymhlith cyfranogwyr a symudodd ymlaen i adael y cymorth nag yr oeddent ymhlith carfan gyfan y cyfranogwyr, fel y dangosir yn Ffigwr 6.1.

**Ffigwr 6.1: Sgoriau Work Star wrth gychwyn: cyfranogwyr sydd wedi gadael y cymorth o'u cymharu gyda'r holl gyfranogwyr**




Ffynhonnell: Data Monitro Cyfranogwyr (sylfaen = 893)


6.14 Mae asesiad Work Star[34] yn gosod unigolion ar wahanol gyfnodau o'u taith, gan ddehongli eu sgoriau fel a ganlyn:

| Sgôr | Safle ar y daith newid |
|---|---|
| 1–2 | Mewn rhigol |
| 3–4 | Yn Derbyn Help |
| 5–6 | Credu a Thrio |
| 7–8 | Dysgu |
| 9–10 | Hunan-ddibyniaeth |

6.15 Mae sgoriau Work Star sy'n codi o 5.91 ar gyfartaledd wrth ymuno, i sgôr gyfartalog o 7.59 erbyn gadael ADTRAC yn awgrymu bod cyfranogwyr wedi symud ymlaen un cam ar y daith yn gyffredinol, h.y. o Credu a Thrio i Ddysgu.

6.16 Dangosir y sgoriau cychwyn a gadael cyfartalog ar gyfer pob elfen o asesiad Work Star yn Ffigwr 6.2 isod.

**Ffigwr 6.2: Ffigwr 6.2: Sgoriau Work Star cyfartalog wrth gychwyn a gadael**




Ffynhonnell: Data Monitro Cyfranogwyr (sylfaen = 277, yr holl gyfranogwyr a oedd wedi darparu data cychwyn a gadael)

[34] Mae rhagor o wybodaeth am Work Star ar gael yma: https://www.outcomesstar.org.uk/using-the-star/see-the-stars/work-star/

6.17 Mae hyn yn awgrymu bod y cynnydd mwyaf a sicrhawyd wedi digwydd mewn perthynas ag uchelgais a chymhelliant cyfranogwyr, sgiliau chwilio am swydd, a sgiliau swydd a phrofiad.

6.18 Mae'r canfyddiadau hyn yn cyd-fynd ag effaith y cymorth a ddisgrifiwyd gan gyfranogwyr yn ystod cyfweliadau a gynhaliwyd fel rhan o'r cam hwn o'r gwerthusiad. Yn wir, myfyriodd cyfweledigion bod y cymorth wedi eu helpu i wella eu lles (21/30 cyfranogwr) a'i fod wedi newid eu huchelgais (15/30 cyfranogwr). Gan ddisgrifio'r olaf, myfyriodd cyfranogwyr bod ADTRAC wedi eu helpu i ystyried dewisiadau newydd, ei fod wedi 'agor eu llygaid' i swyddi y gallent fynd amdanynt, a'i fod wedi eu galluogi i nodi'r camau nesaf y byddent yn eu helpu i wireddu eu huchelgais, megis cyrsiau hyfforddiant priodol.

'Mae wedi rhoi syniad ehangach i mi o'r swyddi y gallaf eu cyflawni, a pha swyddi yr wyf yn addas ar eu cyfer. Mae wedi newid fy nodau rhyw ychydig... mae ADTRAC wedi fy helpu i ymgeisio am swyddi y byddwn yn addas ar eu cyfer ac maent wedi helpu i wella fy CV...' **(Cyfranogwr, ID 24)**

6.19 Bu rhai a gyfwelwyd yn myfyrio hefyd bod eu cyfranogiad yn ADTRAC wedi eu helpu i ddysgu sgiliau newydd a gwella eu cyflogadwyedd. Trafodwyd hyn gan 27/30 o'r cyfweledigion. Disgrifiodd cyfranogwyr sut yr oedd y cymorth wedi eu galluogi i feithrin sgiliau ymarferol newydd megis codi a chario, cymorth cyntaf, a sgiliau ym maes bwyd a lletygarwch, fel y myfyriwyd gan 109 o gyfranogwyr ADTRAC a sicrhaodd ardystiad perthnasol i fyd gwaith o ganlyniad i'r ymyriad. Yn ogystal, myfyriodd wyth cyfranogwr bod y cymorth wedi eu helpu i ddatblygu a gwella eu CVs,a thrafododd pedwar sut yr oedd wedi eu helpu i wella eu sgiliau cyfweld a'u hyder.

6.20 O blith y cyfranogwyr a gyfwelwyd, roedd tri wedi symud ymlaen i gael gwaith o ganlyniad i'w cyswllt gydag ADTRAC, roedd tri wedi dechrau gwirfoddoli, roedd tri wedi cychwyn ar leoliad, ac roedd chwech wedi symud ymlaen i addysg. Fodd bynnag, mynegwyd rhwystredigaeth gan un cyfranogwr na fu modd iddo sicrhau profiad gwaith trwy gyfrwng ADTRAC, ac awgrymodd y dylai mwy o gyfleoedd fod ar gael. Nododd y cyfranogwr hwn bod eu diffyg profiad yn rhwystr parhaus er


mwyn sicrhau cyflogaeth, a'u bod wedi cael eu gwrthod sawl gwaith yn dilyn cyfweliadau o ganlyniad.

### Lleihad mewn Rhwystrau

6.21 Wrth gychwyn ar y prosiect, roedd cyfranogwyr yn wynebu 8.0 rhwystr ar gyfartaledd wrth geisio ymgymryd ag EET, a dynnwyd o restr o 26 o rwystrau cyffredin a brofir (rhoddir crynodeb yn Ffigurau 6.3 a 6.4 isod). Ymhlith y cyfranogwyr hynny sydd wedi gadael y cymorth, roedd nifer gyfartalog y rhwystrau a brofwyd ychydig yn is (profwyd 7.1 rhwystr ar gyfartaledd). Erbyn iddynt adael y cymorth, roedd nifer gyfartalog y rhwystrau y mae'r grŵp hwn yn eu hwynebu wedi gostwng i 3.2.

6.22 Mae Ffigwr 6.3 yn amlygu sut yr oedd y rhwystrau wrth gychwyn yn wahanol ymhlith yr holl gyfranogwyr a'r rhai sydd wedi gadael. Efallai ei bod yn peri syndod bod cyfran yr unigolion sy'n profi pob rhwystr wrth gychwyn yn uwch ymhlith unigolion sydd wedi gadael y cymorth o'i chymharu â'r holl gyfranogwyr ar draws mwyafrif y rhwystrau. Gallai hyn ddynodi bod y prosiect yn llwyddo i gynorthwyo cyfranogwyr sy'n wynebu nifer uchel o rwystrau. Fodd bynnag, mae'r gymhariaeth yn dangos bod cyfran lai o'r rhai sydd wedi gadael y cymorth yn blant a oedd yn derbyn gofal/wedi gadael gofal, yn gyn droseddwyr neu mewn perygl o fod yn ddigartref, a allai ddynodi bod y prosiect yn cael llai o lwyddiant wrth symud y cyfranogwyr hyn i sicrhau canlyniad.

**Ffigwr 6.3: Cyfran yr ymatebwyr a nododd eu bod yn profi pob rhwystr wrth gychwyn gydag ADTRAC: cymhariaeth rhwng cyfranogwyr sydd wedi gadael y cymorth a'r holl gyfranogwyr.**




6.23 Mae Ffigwr 6.4 yn dangos sut yr oedd pob rhwystr wedi lleihau ymhlith cyfranogwyr a oedd wedi gadael y cymorth, wrth gymharu cyfran y cyfranogwyr a

oedd wedi profi pob rhwystr wrth gychwyn gyda'r gyfran a oedd wedi eu profi wrth adael y cymorth. Mae hyn yn dynodi bod y prosiect wedi cael effaith arbennig o fawr wrth leihau'r rhwystrau canlynol:

- Anhawster wrth ymgysylltu ag EET: cofnododd 9% bod hwn yn rhwystr wrth iddynt adael, o'i gymharu â 53% wrth gychwyn.
- Diffyg profiad/cyflogadwyedd: cofnododd 29% o gyfranogwyr bod hwn yn rhwystr wrth iddynt adael, o'i gymharu â 68% wrth gychwyn.
- Diffyg sgiliau a chymwysterau: cofnododd 25% o gyfranogwyr bod hwn yn rhwystr wrth iddynt adael, o'i gymharu â 69% wrth gychwyn.


6.24 Mae hyn yn awgrymu bod ADTRAC yn helpu i symud unigolion yn agosach i'r farchnad lafur.

6.25 Mae'r data hwn yn awgrymu bod y cymorth yn helpu i wella canlyniadau meddal, wrth i lai o gyfranogwyr gofnodi materion megis hyder, arwahanrwydd cymdeithasol a sgiliau cyfathrebu fel rhwystrau wrth adael y cymorth. Roedd hyn ar ei amlycaf mewn perthynas â hyder, wrth i 46% yn llai o gyfranogwyr gofnodi bod hyder yn rhwystr wrth adael o'u cymharu â phan ddechreuont gael cymorth. Roedd y rhwystr hwn wedi gweld y newid mwyaf o ran cyfran y cyfranogwyr a'i gofnododd wrth adael o'i gymharu ag wrth gychwyn cael cymorth.

6.26 Mae hyn yn adleisio'r canfyddiadau o gyfweliadau gyda chyfranogwyr, lle'r oedd yr holl gyfranogwyr wedi myfyrio bod y cymorth wedi gwella eu hyder. Roedd hyn yn ymwneud â hyder yn yr ymdeimlad o hunan-gred cyfranogwyr a'u hyder cymdeithasol a'u gallu i ryngweithio gyda phobl arall.

‘[Pa effaith oedd ADTRAC wedi ei chael arnaf i?] Hyder yn bennaf: Gallaf siarad â phobl nawr. Rydw i'n teimlo'n gyffyrddus mewn amgylchedd grŵp a byddaf yn gadael y tŷ yn fwy heb deimlo paranoia. Rydw i wedi dysgu llawer o ganlyniad iddyn nhw. Mae fy nodau wedi newid. Cyn ADTRAC, fy swydd oedd casglu sbwriel. Nid oeddwn yn credu y byddwn yn dymuno gwneud unrhyw beth – nawr, rydw i'n dymuno gweithio gydag anifeiliaid, gwneud gwaith fferm neu goedwigaeth.'
**(Cyfranogwr, ID 15)**


**Ffigwr 6.4: Cyfran y cyfranogwyr sy'n wynebu pob rhwystr wrth gychwyn a gadael ADTRAC**




Sylfaen: Cyfranogwyr sydd wedi gadael cymorth (n = 277)

6.27 Gofynnwyd i gyfranogwyr a oedd wedi cymryd rhan mewn cyfweliadau i fyfyrio hefyd am y rhwystrau yr oeddent wedi eu hatal rhag ymgymryd ag EET cyn ymuno ag ADTRAC. Codiwyd eu hymatebion ansoddol gan yr ymchwilwyr er mwyn nodi rhwystrau cyffredin, a rhoddir crynodeb o'r rhain yn Ffigwr 6.5.

**Ffigwr 6.5: Nifer y cyfranogwyr a oedd wedi wynebu pob rhwystr i ymgymryd â chyflogaeth, addysg a hyfforddiant cyn cychwyn ADTRAC**




Ffynhonnell: Cyfweliadau Cyfranogwyr (sylfaen = 30)

6.28 Y rhwystr mwyaf cyffredin ymhlith cyfranogwyr yn y cyfweliadau oedd materion iechyd meddwl, a nodwyd fel rhwystr i'w gallu i ymgymryd ag EET gan 17/30 cyfranogwr.

6.29 Myfyriodd mwyafrif y cyfranogwyr (27/30) bod y cymorth a gawsant trwy ADTRAC wedi eu helpu i oresgyn y rhwystrau yr oeddent wedi'u profi. Wrth ymateb i'r cwestiwn hwn, bu cyfranogwyr yn trafod amlaf sut yr oedd y cymorth wedi eu helpu i oresgyn neu reoli eu hiechyd meddwl a'u lles, yn enwedig sialensiau mewn perthynas â gorbryder a hyder cymdeithasol isel, yr oedd yn ymddangos yn rhywbeth arbennig o gyffredin ymhlith cyfranogwyr.

6.30 Bu cyfranogwyr yn myfyrio hefyd ynghylch sut yr oedd y gallu i fanteisio ar gyrsiau trwy gyfrwng ADTRAC wedi eu galluogi i feithrin eu sgiliau yn y gweithle (megis cymorth cyntaf, iechyd a diogelwch, a chodi a chario), sicrhau cymwysterau ac ychwanegu i'w CVs. Mewn sawl achos, roedd hyn wedi arwain at gyfranogwyr yn symud ymlaen i waith neu leoliadau. At hynny, nododd llond llaw o gyfranogwyr bod ADTRAC wedi eu helpu i oresgyn rhwystrau mewn perthynas â chyllid trwy ddarparu cyllid iddynt deithio i'r gwaith ac er mwyn talu am iwnifformau.

> 'Mae'r cymorth gan y grŵp lles a chan fy hyfforddwr lles wedi helpu fy hyder yn fawr ac erbyn hyn, nid yw gadael y tŷ na chyfarfod neu siarad gyda phobl newydd yn broblem i mi. Mae ADTRAC wedi trefnu sawl cwrs ar fy nghyfer... felly mae gennyf gymwysterau nawr. Yn ogystal, mae ADTRAC wedi fy helpu i gael lleoliad gwaith ac rydw i'n mynd i gychwyn ar brentisiaeth.' **(Cyfranogwr, ID 23)**

### Goblygiadau COVID-19

6.31 Nid oedd COVID-19 yn ffocws amlwg y cam hwn o'r gwaith ymchwil, gan bod pandemig y coronafeirws wedi lledaenu i'r DU ar ôl cwblhau'r rhan fwyaf o'r gwaith maes. Fodd bynnag, cynhaliwyd y cyfweliadau ar yr adeg pan gychwynnwyd cyfnod clo y DU, a gwneir llond llaw o gyfeiriadau at y pandemig sy'n dechrau rhoi awgrym o rai o'r effeithiau y gallai'r pandemig eu cael ar gyfranogwyr.

6.32 Er enghraifft, nid oedd un cyfranogwr a oedd wedi dechrau gweithio yn gweithio mwyach o ganlyniad i'r pandemig, ac roedd dyddiad cychwyn lleoliad un arall wedi cael ei oedi tan ddiwedd y cyfnod clo. Er na all y gwerthusiad hwn sôn am effaith COVID-19 ar ddarpariaeth ADTRAC na'i effaith ar gyfranogwyr, mae'r sylwadau hyn gan gyfranogwyr yn arwydd o'r ffaith y gallai dilyniant cyfranogwyr i EET gael ei atal neu ei ddadwneud o ganlyniad i oblygiadau COVID-19.

6.33 O ystyried hyn, efallai y bydd angen i'r gweithrediad ystyried sut y gall sicrhau na fydd unigolion a oedd wedi gadael yn gadael y trywydd y maent arno, a bod cymorth ar gael er mwyn helpu'r unigolion hyn i ailgydio ym mhethau os bydd yr argyfwng diweddar yn golygu eu bod yn NEET unwaith eto.

### Effaith ar Gyfranogwyr: Safbwynt y Staff

6.34 Mae cyfranogwyr yn ADTRAC yn wynebu nifer o rwystrau cyffredin sy'n eu hatal rhag ymgymryd ag EET. Fel rhan o arolwg, gofynnwyd i staff rheoli a darparu fyfyrio am y rhwystrau cyffredin yr oeddent wedi dod ar eu traws ymhlith cyfranogwyr, yr oeddent wedi effeithio ar eu cynnydd wrth symud ymlaen i EET. Mae'r rhwystrau a nodwyd ganddynt yn cynnwys y materion canlynol:

- Iechyd a lles gwael
- Bywyd teuluol neu fywyd cartref cymhleth
- Problemau tai
- Camddefnyddio sylweddau
- Diffyg cyfleoedd
- Problemau ariannol, gan gynnwys materion sy'n ymwneud â'r hawl i gael budd-daliadau
- Diffyg uchelgais
- Hyder isel
- Problemau trafnidiaeth
- Diffyg profiad
- Diweithdra cenedliadol yn yr ardal leol
- Diffyg sgiliau/cymwysterau


6.35 Mae'r rhwystrau a nodwyd yn adleisio'r rhai a nodwyd yn ystod cyfweliadau gyda chyfranogwyr ac a gasglwyd trwy'r Data Monitro Cyfranogwyr ar y cyfan. Fodd bynnag, roedd staff rheoli a darparu wedi cyfeirio at faterion ynghylch diweithdra cenedliadol yn yr ardal leol hefyd.

6.36 Gofynnwyd i staff rheoli a darparu i ba raddau yr oeddent yn credu bod y cymorth a ddarperir gan ADTRAC yn briodol er mwyn goresgyn y rhwystrau uchod. Nododd yr holl staff eu bod yn teimlo bod y cymorth yn briodol i ryw raddau, a nododd

89% o'r staff ei fod yn briodol iawn. Wrth esbonio eu hymatebion, nododd mwyafrif y staff eu bod yn teimlo bod y cymorth yn briodol o ganlyniad i'r cymorth iechyd meddwl a gynigir, yn ogystal â'r cynnig cymorth pwrpasol (a oedd yn golygu bod staff yn gallu gweithio gyda chyfranogwyr i nodi eu hanghenion cymorth a darparu cymorth pwrpasol a oedd yn rhoi sylw i'w rhwystrau penodol, yn hytrach na darparu'r un cymorth i bawb). Mae hyn yn cyd- fynd â safbwyntiau cyfranogwyr ADTRAC a gasglwyd yn ystod cyfweliadau. Yn wir, roedd cyfranogwyr yn aml yn nodi eu bod yn teimlo bod y cymorth yn ddefnyddiol, ac yn aml, roeddent yn canmol natur 'bersonoledig' y cymorth a gynigir.

6.37 Gofynnwyd i staff rheoli a darparu nodi pa agweddau ar y cymorth a gynigir sydd fwyaf lwyddiannus yn eu barn nhw wrth oresgyn y rhwystrau y mae cyfranogwyr yn eu hwynebu. Dangosir yr agweddau mwyaf cyffredin a drafodwyd ganddynt yn Ffigwr 6.6.

**Ffigwr 6.6: Themâu mwyaf cyffredin wrth ymateb i'r cwestiwn: "Pa agweddau ar y cymorth a ddarperir gan ADTRAC sydd fwyaf llwyddiannus wrth oresgyn y rhwystrau a nodwyd gennych uchod yn eich barn chi?"**




Ffynhonnell: Arolwg Staff Rheoli a Darparu (sylfaen = 48)


6.38 Fel y dangosir yn Ffigwr 6.6 uchod, y nodwedd fwyaf gyffredin a nodwyd gan staff oedd y bartneriaeth gyda BIPBC a'r ffaith bod Ymarferwyr Iechyd Meddwl ar gael.

6.39 'Mae cael y nyrs iechyd meddwl wedi bod yn werthfawr iawn ar adegau er mwyn eu cychwyn ar eu taith ADTRAC weithiau. Ar ôl i ni feithrin eu hyder a'u hymwreiddio yn y prosiect, manteisio ar help iechyd meddwl, hefyd, mae'n haws meithrin eu hyder a'u cymhelliant.' (Arolwg Staff Rheoli a Darparu, ID 1)

6.40 Yn ogystal, bu staff yn trafod materion megis pwysigrwydd cael cyllid ar gael er mwyn manteisio ar gyfleoedd hyfforddiant sy'n berthnasol i anghenion cyfranogwyr, yn ogystal ag er mwyn cynorthwyo cyfranogwyr gyda rhwystrau ariannol megis costau trafnidiaeth.

6.41 Roedd naw deg tri y cant o'r staff rheoli a darparu yn cytuno bod ADTRAC yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol parhaus i gyfranogwyr unigol. Nodir amrediad y canlyniadau yr oedd y staff yn teimlo fel pe bai ADTRAC yn helpu i'w sicrhau yn Ffigwr 6.7.

**Ffigwr 6.7: Cyfran y staff rheoli a darparu oedd yn cytuno bod y prosiect yn sicrhau'r canlyniadau canlynol i gyfranogwyr**




Ffynhonnell: Arolwg Staff Rheoli a Darparu (sylfaen = 48)

6.42 Mae Ffigwr 6.7 yn dangos bod staff rheoli a darparu yn teimlo ran amlaf o lawer bod y prosiect yn cyfrannu at symud pobl ifanc yn agosach at y farchnad lafur, gyda chyfrannau uchel iawn o staff yn cytuno bod y prosiect yn helpu i wella sgiliau cyflogadwyedd cyfranogwyr (96% yn cytuno), yn ogystal â symud cyfranogwyr i EET (91% yn cytuno). Fodd bynnag, pan ofynnwyd i staff beth oeddent yn teimlo oedd *prif* effeithiau'r prosiect ar gyfranogwyr, yr effeithiau mwyaf cyffredin a drafodwyd oedd lles gwell (trafodwyd gan 48% o'r ymatebwyr i'r arolwg) a meithrin hyder (trafodwyd gan 46%). Mewn cymhariaeth, trafododd 29% o'r ymatebwyr gyflogadwyedd gwell. Mae hyn yn adleisio rhai o'r sylwadau a wnaethpwyd gan staff rheoli a darparu a wnaethpwyd ynghylch targedau'r prosiect, lle y nododd rhai staff eu bod yn teimlo fel pe bai'r canlyniadau meddal oedd yr agwedd bwysicaf ar y prosiect.

6.43 Mewn cyfweliadau gyda staff rheoli a darparu, roeddent wedi disgrifio'r effeithiau canlynol ar gyfranogwyr:

6.44 **Iechyd meddwl a lles gwell,** a drafodwyd gan 8/9 cyfranogwr. Roedd hyn yn cynnwys helpu cyfranogwyr i reoli problemau iechyd meddwl megis gorbryder ac iselder, helpu cyfranogwyr i oresgyn hyder isel, a helpu i symud cyfranogwyr o arwahanrwydd cymdeithasol. I rai cyfranogwyr, roedd y trawsnewidiad yn arbennig o fawr.

6.45 'Ar y cyfan, mae'n caniatáu i bobl ifanc ddeall eu cyflyrau – mae'n eu helpu i fyw eu bywyd gyda'r cyflyrau iechyd meddwl hynny... Mae rhai wedi mynd o sefyllfa lle nad oeddent yn gadael y tŷ, i gael swydd a bod yn llwyddiannus yn eu cyflogaeth.' **(Staff rheoli a darparu, cyfweledig)**

6.46 **Datblygu sgiliau gwaith a phrofiad**, a drafodwyd gan 6/9 cyfweledig. Roedd hyn yn cynnwys pobl ifanc yn datblygu cymwysterau sylfaenol megis llythrennedd a rhifedd, mynychu cyrsiau neu leoliadau, a datblygu eu CVs neu eu sgiliau cyfweld.

6.47 **Datblygu uchelgais**, a drafodwyd gan 2/9 cyfweledig. Roeddent yn myfyrio nad yw cyfranogwyr weithiau 'yn gwybod yr hyn y maent yn dymuno ei wneud' neu nad oes ganddynt yr hunan-gred er mwyn teimlo y gallant wireddu eu huchelgais, ond roedd ADTRAC wedi eu helpu i ddeall pa swyddi oedd ar gael ac i osod nodau.

6.48 **Gwelliant mewn canlyniadau meddal**, a drafodwyd gan chwech o'r rhai a gyfwelwyd. Roedd y canlyniadau meddal yn cynnwys hyder, cymhelliant, a sgiliau trosglwyddadwy. Barnwyd bod y rhain yn sylfaenol wrth helpu cyfranogwyr i fanteisio ar gyfleoedd eraill ac i ymgysylltu'n llawn gyda'r agwedd cyflogadwyedd ar waith ADTRAC.

6.49 **Gwell sefydlogrwydd** – disgrifiodd wyth o blith naw aelod o staff bod y cymorth wedi helpu i wella sefydlogrwydd cyfranogwyr. Wrth ddechrau cael cymorth, bydd bywydau cartref rhai unigolion yn ansefydlog neu byddant yn wynebu problemau eraill sy'n cyfyngu ar eu sefydlogrwydd. Bu staff yn myfyrio bod ADTRAC yn werthfawr wrth helpu'r cyfranogwyr hyn i fanteisio ar ffynhonnell sefydlogrwydd, cymorth a phatrwm. Ystyriwyd bod cymorth ADTRAC wedi helpu cyfranogwyr i ddatblygu strategaethau ymdopi sy'n eu helpu i reoli problemau y gallent fod yn achosi ansefydlogrwydd.

6.50 Sgiliau newydd, gan gynnwys sgiliau cyflogadwyedd megis gwasanaeth cwsmeriaid a chymorth cyntaf, a sgiliau meddal megis sgiliau cymdeithasol a sgiliau cyfathrebu gwell – trafodwyd y rhain gan ddau gyfweledig.

### Casgliadau

6.51 Mae ADTRAC yn arwain at ystod eang o ganlyniadau i gyfranogwyr, gan gynnwys:

- Canlyniadau caled megis cyfranogwyr yn symud ymlaen i EET.
- Canlyniadau mwy meddal megis:
- Gwelliannau yn lles cyfranogwyr.
- Symud cyfranogwyr yn agosach at EET trwy ddatblygu sgiliau newydd a thrwy roi help ymarferol megis rhoi cymorth wrth baratoi CV.
- Lleihad o ran y rhwystrau i EET y bydd cyfranogwyr yn eu hwynebu erbyn iddynt adael o'i chymharu â'r adeg pan ddechreuont gael cymorth, gan gynnwys:
- Gostyngiad mewn rhwystrau caled megis diffyg cymwysterau neu sgiliau priodol; a
- Gostyngiad mewn rhwystrau meddal, er bod y rhain yn rhai sylfaenol, megis hyder isel, diffyg cymhelliant, arwahanrwydd cymdeithasol, a sialensiau cyfathrebu.

6.52 Mae'n ymddangos bod llwyddiant y cymorth wrth sicrhau bod cyfranogwyr yn symud ymlaen i gyflogaeth, yn fwy cyfyngedig, gan mai dim ond 35% o'r cyfranogwyr oedd wedi symud ymlaen i gyflogaeth. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod y cymorth yn llwyddiannus iawn wrth leihau'r rhwystrau i EET ymhlith y garfan a dargedwyd, yn ogystal ag wrth arwain at ganlyniadau meddal megis lefelau hyder a lles gwell. Er enghraifft, er bod 57% o gyfranogwyr ADTRAC a oedd wedi gadael y cymorth wedi symud ymlaen i EET, cofnododd 87% o'r

cyfranogwyr gynnydd yn eu lefelau lles ac roedd 71% wedi gweld cynnydd o ran pa mor barod oeddent ar gyfer byd gwaith.[35]

6.53 Mae'n bosibl y bydd y canlyniadau hyn yn helpu i symud unigolion yn agosach i'r farchnad lafur, ond efallai eu bod yn rhy uchelgeisiol o fewn yr amserlenni y mae'n rhaid i'r prosiect gyflawni ynddynt. Fodd bynnag, nid yw hi'n glir i ba raddau y mae'r cyfranogwyr yn llwyddo i gynnal y canlyniadau meddal hyn ar ôl iddynt adael y cymorth, ac efallai y bydd angen cynnal ymchwiliadau pellach er mwyn deall a yw'r rhain yn cael eu cadw, yn enwedig pan na fydd cyfranogwyr yn symud ymlaen i EET, er mwyn sicrhau bod y cymorth a ddarperir yn arwain at ganlyniadau parhaus.

[35] Fel y mesurwyd gan Work Star.

# 7. Canlyniadau i Sefydliadau Darparu

7.0 Mae'r bennod hon yn archwilio effaith y dull amlasiantaethol ar sefydliadau darparu.

**Prif Bwyntiau:**


- Mae cyswllt BIPBC wedi helpu i wella'r ddealltwriaeth o anghenion lles ymhlith staff darparu.

### Rôl BIPBC

7.1 Roedd cynnwys BIPBC a gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol yn nhîm y prosiect yn helpu i uwchsgilio staff mewn sefydliadau eraill wrth ddeall iechyd meddwl a lles. Yn wir, roedd 80% o staff rheoli a darparu yn cytuno bod cynnwys Ymarferwr Iechyd Meddwl hyfforddedig yn y prosiect wedi eu helpu i feithrin dealltwriaeth well o anghenion lles y bobl ifanc y maent yn gweithio gyda nhw.

7.2 Yn ogystal, roedd 82% o staff yn cytuno bod cynnwys Ymarferwyr Iechyd Meddwl hyfforddedig wedi eu helpu i ymgorffori gweithgarwch lles, megis Pum Ffordd i sicrhau Lles, yn eu gwaith.

**Ffigwr 7.1: Safbwyntiau staff rheoli a darparu ynghylch sut y mae cynnwys gweithwyr iechyd meddwl hyfforddedig yn y prosiect wedi effeithio ar y gweithrediad**




Ffynhonnell: Arolwg Staff Rheoli a Darparu (sylfaen = 46)

7.3 Adroddodd staff rheoli a darparu bod hyfforddiant yr oeddent wedi'i gael gan BIPBC wedi bod o gymorth, a bod eu cyfraniad wedi eu helpu i feithrin eu gwybodaeth o iechyd meddwl, a bod hyn, yn ei dro, wedi eu helpu i gynorthwyo cyfranogwyr yn well yn eu rolau.

‘[Mae cynnwys BIPBC wedi] helpu fy ngwybodaeth a'm dealltwriaeth o iechyd meddwl a'r rhwystrau y mae pobl yn eu hwynebu a sut i'w cynorthwyo.’ **(Staff rheoli a darparu, cyfweledig)**

## Ymgorffori'r Bum Ffordd i sicrhau Lles

7.4 Fel rhan o'r ddarpariaeth cymorth, disgwylir i dimau darparu lleol ymgorffori'r Bum Ffordd i sicrhau Lles wrth iddynt ddarparu cymorth ADTRAC. Mae'r Bum Ffordd i sicrhau Lles yn set o strategaethau a ddefnyddir yn eang ac sy'n cael eu hyrwyddo gan GIG a sefydliadau iechyd meddwl er mwyn helpu unigolion i gynorthwyo eu hiechyd a'u lles eu hunain. Tra bod cyfranogwyr y mae gofyn iddynt gael cymorth iechyd meddwl arbenigol yn cael eu cyfeirio at y cymorth priodol, caiff y Bum Ffordd i sicrhau Lles eu hymgorffori mewn trefniadau darparu lleol er mwyn sicrhau bod ADTRAC yn cydymffurfio gydag arfer gorau ar gyfer lles meddyliol, yn ogystal â chynorthwyo'r rhai sydd â phryderon iechyd ysgafn i gymedrol.

7.5 Mae'r data o'r cyfweliadau yn awgrymu bod y Bum Ffordd i sicrhau Lles yn cael eu hymgorffori i raddau amrywiol ar draws Cyd-fuddiolwyr. Er enghraifft, adroddodd rhai aelodau o staff bod y Bum Ffordd i Sicrhau Lles yn cael eu hymgorffori ym "mhopeth a wnânt"; nododd eraill bod eu dull yn un mwy ad hoc neu nad ydynt wedi cael eu hymgorffori ddigon. Nid oedd hi'n glir i ba raddau yr oedd hyn oherwydd gwahanol ddulliau gan Gyd-fuddiolwyr neu wahanol ddulliau ymhlith aelodau unigol o staff. Fodd bynnag, myfyriodd rhan fwyaf y staff rheoli a darparu a oedd wedi cymryd rhan mewn cyfweliadau manwl (7/9) eu bod yn ymgorffori'r Bum Ffordd i sicrhau Lles yn sylweddol.

7.6 Nododd mwyafrif y staff darparu (82%) bod cynnwys Ymarferwyr Iechyd Meddwl sydd wedi cael hyfforddiant clinigol yn y prosiect yn eu helpu i gynnwys gweithgarwch lles, gan gynnwys y Bum Ffordd i sicrhau Lles, yn eu gwaith.[36] Dim ond 2% o staff darparu oedd yn anghytuno â'r datganiad hwn.

## Casgliadau

7.7 Mae'n ymddangos bod cynnwys BIPBC yn ADTRAC yn helpu i uwchsgilio staff mewn sefydliadau eraill wrth ddarparu cymorth sy'n canolbwyntio ar les a gweithredu'r Bum Ffordd i sicrhau Lles.

[36] Ffynhonnell: Arolwg Staff Rheoli a Darparu (sylfaen = 46).

# 8. Conclusions

8.0 Mae'r bennod hon yn rhoi crynodeb o brif gasgliadau'r cam hwn o'r gwerthusiad. Dilynir hyn gan gyfres o argymhellion y rhoddir crynodeb ohonynt ym Mhennod 9.

### Casgliadau Cyffredinol

8.1 Mae'r gwerthusiad interim hwn yn dod i'r casgliad bod ADTRAC yn brosiect llwyddiannus ac y mae pobl yn ei barchu'n fawr. Mae'r gweithrediad, fodd bynnag, yn ei chael hi'n anodd cyflawni'r targedau canlyniadau a nodwyd yn y Cynlluniau Busnes, ac mae'n amlwg bod hyn yn rhywbeth pwysig i'w nodi ac yn fater pwysig y mae gofyn rhoi sylw iddo.

8.2 Mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod y gwerthusiad interim yn dynodi y caiff ADTRAC ei ystyried mewn ffordd gadarnhaol iawn ar draws y grwpiau rhanddeiliaid, gan gynnwys cyfranogwyr, staff sy'n darparu'r cymorth, a rhanddeiliaid ehangach. Gwelir bod y gweithrediad yn ychwanegu gwerth ac yn llenwi bwlch yn y cymorth lleol, gan ddarparu cymorth dwys ac wedi'i deilwra ar gyfer pobl ifanc sy'n wynebu rhwystrau cymhleth a lluosog wrth geisio ymuno â'r farchnad lafur. Ceir argraff gref ymhlith rhanddeiliaid bod angen gwneud gwaith i nodi ffyrdd y gellir cynnal y cymorth hwn ar ôl i gyllid ESF ddod i ben.

8.3 Nododd yr holl randdeiliaid a gyfwelwyd bod ffocws y prosiect ar y rhai sydd bellaf i ffwrdd o'r farchnad lafur, ei ddull o ganolbwyntio ar yr unigolyn er mwyn cynorthwyo pobl ifanc sy'n NEET, a chyswllt BIPBC a – lle y maent ar gael – Ymarferwyr Iechyd Meddwl hyfforddedig wrth ddarparu'r prosiect, ymhlith prif gryfderau'r prosiect, gan gynnig 'gwerth ychwanegol' y tu hwnt i'r cymorth sydd ar gael trwy brosiectau cyflogadwyedd eraill. Yn ogystal â chynorthwyo cyfranogwyr i wella eu lles, mae cynnwys BIPBC wedi helpu i uwchsgilio mentoriaid ADTRAC, gan eu galluogi i ddarparu pob agwedd ar y gweithrediad mewn ffordd sy'n cynorthwyo lles cyfranogwyr yn y ffordd orau. Fodd bynnag, mae'n debygol hefyd o fod yn un o'r prif resymau pam bod y prosiect yn ei chael hi'n anodd cyflawni'r targedau ar gyfer canlyniadau a osodwyd ar ei gyfer yn y Cynllun Busnes (fel y trafodir isod).

## Canlyniadau i Gyfranogwyr

8.4 Mae'n ymddangos bod ADTRAC yn perfformio'n dda mewn perthynas â chanlyniadau meddal, ond ei fod wedi bod yn llai llwyddiannus wrth sicrhau canlyniadau caled, yn enwedig mewn perthynas â nifer y bobl ifanc y mae'r cymorth wedi eu symud ymlaen i addysg ar ôl iddynt adael.

8.5 Mae'n ymddangos bod y cymorth yn arbennig o lwyddiannus wrth ysgogi gwelliannau mewn sgiliau cyflogadwyedd a lles cyfranogwyr. Mae'r cynnydd yn sgoriau WEMWBS cyfartalog cyfranogwyr erbyn iddynt adael y rhaglen yn dystiolaeth o hyn. O blith yr holl rai sydd wedi gadael y rhaglen, y sgôr gyfartalog pan wnaethant gychwyn oedd 41, ac roedd y sgôr hon wedi codi i 51.8 erbyn iddynt adael. Roedd y gwahaniaeth hwn yn arwyddocaol ar lefel ystadegol. Wrth eu cymharu gyda'r sgoriau WEMWBS cyfartalog ar gyfer y garfan hon a gasglwyd trwy Arolwg Cenedlaethol Cymru, sy'n dangos mai'r sgôr WEMWBS gyfartalog ar gyfer y grŵp oedran hwn yng Ngogledd Cymru yw 50.6, mae hyn yn awgrymu bod cyfranogwyr yn cychwyn ar y rhaglen gyda lefelau lles sydd lawer yn is na'r lefel gyfartalog, ac yn gadael y rhaglen gyda lefelau lles ychydig yn uwch na'r lefel gyfartalog.

8.6 Yn yr un modd, ceir tystiolaeth o wahaniaeth arwyddocaol ar lefel ystadegol rhwng sgiliau a chyflogadwyedd cyfranogwyr erbyn iddynt adael y rhaglen, fel y cofnodir gan Work Star. Wrth gychwyn gydag ADTRAC, y sgôr gyfartalog a sicrhawyd ar draws y saith elfen oedd 5.91. Roedd y sgôr gyfartalog erbyn gadael wedi codi i 7.59. At ei gilydd, roedd 71% o gyfranogwyr a oedd wedi gadael y cymorth wedi gweld cynnydd yn eu sgôr Work Star. Pan gaiff mesurau unigol eu dadgyfuno, mae'n ymddangos bod y cynnydd mwyaf wedi cael ei sicrhau mewn perthynas ag uchelgais a chymhelliant cyfranogwyr, eu sgiliau chwilio am swydd a'u sgiliau swydd a'u profiad.

8.7 Mae ADTRAC wedi llwyddo i ostwng nifer y rhwystrau i EET y mae cyfranogwyr yn eu hwynebu hefyd. Mae data monitro yn dynodi, rhwng cychwyn a gadael, bod nifer gyfartalog y rhwystrau y mae cyfranogwyr yn eu hwynebu yn gostwng 4 (o 7 rhwystr cyfartalog i 3). Gwelwyd tystiolaeth ansoddol o hyn hefyd, wrth i sawl cyfranogwr a gyfwelwyd yn ystod y gwerthusiad interim nodi "na allent hyd yn oed adael y tŷ" cyn iddynt fanteisio ar ADTRAC, ond bod ADTRAC wedi eu galluogi i fynychu sesiynau a rhyngweithio gyda phobl arall. Mewn rhai achosion, roedd hyn wedi arwain at y cyfranogwr yn symud ymlaen i EET.

8.8 Er gwaethaf y canlyniadau meddal hyn a gyflawnwyd yn llwyddiannus, fodd bynnag, mae gan y gweithrediad ychydig o waith i'w wneud i gyflawni ei dargedau a'i ganlyniadau caled mewn perthynas â chanlyniadau perfformiad a thargedau cyfranogi. Ar hyn o bryd, caiff benywod ac unigolion sydd â chyfrifoldebau gofal plant/gofalu eu tangynrychioli. Yn ogystal, mae'r gweithrediad mewn perygl o beidio cyflawni ei dargedau ymgysylltu a'i dargedau canlyniadau ar hyn o bryd, yn enwedig mewn perthynas â chyfran y cyfranogwyr sy'n symud ymlaen i gyflogaeth ac sy'n symud ymlaen i addysg/hyfforddiant.

8.9 Amlygodd cyfweliadau gyda rhanddeiliaid strategol a staff darparu bryderon ynghylch a yw targedau'r prosiect yn realistig, o ystyried y rhwystrau lluosog a chymhleth a wynebir gan y bobl ifanc y mae ADTRAC yn ymgysylltu â nhw. Mae ADTRAC yn ceisio ymgysylltu gydag unigolion sy'n bell iawn i ffwrdd o'r farchnad lafur ar ddechrau'r prosiect, ac mae lefelau uchel o'r cyfranogwyr yn cael problemau gyda hyder isel, arwahanrwydd cymdeithasol, a phryderon iechyd meddwl megis gorbryder ac iselder.

8.10 Mynegwyd pryderon gan sawl aelod o staff a rhanddeiliaid strategol bod y dull ar gyfer y targedau yn canolbwyntio ormod ar ganlyniadau caled, a'i fod yn peryglu colli pwysigrwydd canlyniadau mwy meddal i rai cyfranogwyr. Gallai hyn beryglu taflu cysgod ar y ffordd y gallai camau graddol arwain at EET yn y diwedd, er na fydd hyn o fewn amserlen y cymorth efallai. Gallai hyn awgrymu y gallai'r prosiect gael budd o roi mwy o ffocws ar dargedau canlyniadau mwy meddal, gan alluogi'r gweithrediad i ddangos ei werth yn hyn o beth. Mae hyn yn arbennig o bwysig yng nghyd-destun pandemig COVID-19 sy'n parhau, sy'n debygol o achosi dirwasgiad

yng Nghymru, gan wneud y targedau hyn yn anos fyth i'w cyflawni. Dylid nodi, fodd bynnag, bod rhanddeiliaid eraill o'r farn bod y targedau canlyniadau caled o fewn cyrraedd.

8.11 Mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod y cam hwn o'r gwerthusiad yn awgrymu bod rhywfaint o ddiffyg cyswllt rhwng y targedau ar gyfer ADTRAC a'r garfan y mae'n darparu ar eu cyfer. Nid oedd hi'n glir o'r cam hwn o'r gwerthusiad a oedd y diffyg cysylltiad hwn o reidrwydd yn deillio o'r ffaith bod y targedau'n amhriodol neu a oedd cyfranogwyr yn cael eu recriwtio yr oedd ganddynt rwystrau sy'n fwy cymhleth nag y bwriadwyd i'r cymorth eu cynorthwyo. Mae nifer anghymesur o uchel y cyfranogwyr a recriwtiwyd i'r prosiect yr oeddent yn anabl neu wedi cofnodi cyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio, yn dynodi bod y prosiect yn ymgysylltu gyda nifer uwch o gyfranogwyr sy'n wynebu'r rhwystrau hyn nag a ragwelwyd yn ystod y cam o gynllunio'r prosiect. Fodd bynnag, roedd yn ymddangos bod gweithgarwch ymgysylltu gyda rhanddeiliaid yn dynodi mai bwriad ADTRAC oedd cynorthwyo cyfranogwyr sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth, a bod hyn yn rhan o werth ychwanegol y dull.

8.12 Mae'n fwy tebygol y bydd cyfranogwyr sy'n wynebu rhwystrau lluosog a chymhleth yn gorfod cael cymorth o natur hirdymor er mwyn eu galluogi i feithrin ymddiriedaeth gyda chynghorwyr a datblygu sgiliau sylfaenol megis hyder. Gall y rhain, yn eu tro, helpu i baratoi unigolion ar gyfer EET, ond ar gyfer y rhai sy'n wynebu'r rhwystrau mwyaf, gall gymryd amser hir i gynghorwyr ddatblygu'r sylfeini hyn. Gallai hyn ddynodi bod angen i'r prosiect adolygu ei dargedau, o ystyried y rhwystrau lluosog a chymhleth y mae'r garfan y mae'r gweithrediad yn ei chynorthwyo yn eu hwynebu.

8.13 Mater cysylltiedig y gallai fod yn effeithio ar allu ADTRAC i gyflawni ei dargedau canlyniadau a chyfranogi presennol yw hyd y cyfnod y bydd cyfranogwyr yn cael cymorth gan y gweithrediad, a allai fod yn tanseilio ei allu i symud rhagor o gyfranogwyr i'r prosiect. Fel y trafodwyd ym Mhennod 5 (Cynnydd a Pherfformiad), roedd 44% o gyfranogwyr a oedd wedi gadael y cymorth wedi cael cymorth am dros chwe mis, ac roedd 14% wedi cael cymorth am gyfnod hirach na blwyddyn. Yng ngoleuni hyn, efallai y bydd angen i'r gweithrediad ystyried ai ei

flaenoriaeth yw darparu cymorth hirdymor i bobl ifanc NEET neu gyflawni targedau canlyniadau, gan bod y blaenoriaethau hyn yn addas i wahanol ddulliau (gan gynnwys a ddylid cyflwyno cyfyngiadau ar hyd y cyfnod y gall y gweithrediad gynorthwyo cyfranogwyr neu a ddylid lleihau'r targedau er mwyn galluogi'r prosiect i ddarparu mwy o gymorth dros y tymor hir).

8.14 Er y gallai'r dull cyntaf fod yn fwy addas ar gyfer “enillion cyflym” a byddai'n galluogi'r gweithrediad i gyflawni ei dargedau cyfranogi, gallai'r dull hwn fod ar draul llwyddiant y gweithrediad wrth leihau'r rhwystrau i EET y bydd cyfranogwyr yn eu profi, a byddai'n gwaredu nodwedd arbenigol ADTRAC sef cynorthwyo pobl ifanc sydd bellaf i ffwrdd o'r farchnad lafur.

### Darparu’r Prosiect

8.15 Roedd yr adborth ynghylch sut y darperir y prosiect ar hyn o bryd yn gadarnhaol ar y cyfan mewn tystiolaeth gan yr holl randdeiliaid. Myfyriodd staff eu bod yn teimlo fel pe bai'r cymorth a ddarperir yn briodol er mwyn bodloni'r rhwystrau y mae cyfranogwyr yn eu hwynebu, ac roedd staff a rhanddeiliaid ehangach yn teimlo'n gadarnhaol am y dull darparu un-i-un, a ystyriwyd yn nodwedd arbennig ADTRAC, a oedd yn golygu ei fod yn addas er mwyn cynorthwyo cyfranogwyr yr oeddent bellaf i ffwrdd o'r farchnad lafur.

8.16 Fodd bynnag, roedd sialensiau o hyd wrth geisio bodloni anghenion iechyd meddwl a lles cyfranogwyr o ganlyniad i sialensiau wrth recriwtio i rolau Ymarferwyr Iechyd Meddwl mewn rhai ardaloedd Cyd-fuddiolwyr. Barnwyd bod hyn o ganlyniad i brosesau recriwtio araf BIPBC. Yn ogystal, adroddodd rhai aelodau o staff ddryswch ynghylch y gwaith o gydlynu'r rolau hyn, ac nid oeddent yn siŵr ble oedd y cyfrifoldebau a'r gwaith rheoli yn perthyn rhwng Cyd-fuddiolwyr a BIPBC.

8.17 Yn ogystal, roedd staff darparu wedi mynegi pryderon yn gyson ynghylch effeithiolrwydd y DPS, ac roedd rhai yn barnu 'nad oedd yn addas i'r diben'. Nododd staff sut y gallai prosesau 'araf' wrth ddefnyddio'r DPS arwain at gyfranogwyr yn ymddieithrio. Mae hwn yn faes y byddai o fudd ei wella efallai.

8.18 Roedd cyfranogwyr yn teimlo'n arbennig o gadarnhaol am y cymorth a ddarperir. Fodd bynnag, dylid nodi nas defnyddiwyd sampl haenedig er mwyn adnabod cyfweledigion. O ganlyniad, gallai'r cyfweliadau a gynhaliwyd fod yn gynrychioladol o safbwyntiau'r holl gyfranogwyr, yn enwedig y rhai sydd wedi ymddieithrio o'r cymorth. O ganlyniad, dylai gwaith gwerthuso pellach geisio archwilio tybiaeth carfan ehangach o gyfranogwyr er mwyn sicrhau bod eu safbwyntiau yn gynrychioladol o'r grŵp cyfranogwyr ehangach.

### Goblygiadau COVID-19

8.19 Roedd gweithgarwch ymgysylltu gyda chyfranogwyr wedi cynnig rhai arwyddion cynnar o sut y gallai COVID-19 arwain at ganlyniadau'n cael eu dadwneud o ganlyniad i gyfleoedd swyddi yn cael eu gohirio. Gallai hyn arwain at sefyllfa lle y bydd cyfranogwyr sydd wedi gadael yn ddi-waith unwaith eto. Yn ogystal, yng nghyd-destun dirwasgiad posibl, gallai niferoedd y cyfleoedd cyflogaeth fod yn llai, ac fe allai hyn gael effaith niweidiol ar allu y gweithrediad i sicrhau canlyniad cyflogaeth i bobl ifanc sy'n gadael.

8.20 Er bod y mater hwn y tu hwnt i gwmpas y gwerthusiad presennol, mae'n debygol hefyd y bydd y pandemig a mesurau cysylltiedig y cyfnod clo wedi cael effaith niweidiol ar iechyd meddwl a lles cyfranogwyr cyfredol/darpar gyfranogwyr. Yn wir, canfu arolwg o 2,111 o bobl ifanc a gynhaliwyd gan YoungMinds bod 83% wedi adrodd am iechyd meddwl yn gwaethygu o ganlyniad i bandemig COVID-19 (YoungMinds, 2020). O ganlyniad, gallai cyfran y cyfranogwyr sy'n dioddef iechyd meddwl a lles gwael fel rhwystr er mwyn symud ymlaen i EET, gynyddu o ganlyniad i'r pandemig, ac fe allai hyn gynyddu cyfran y cyfranogwyr y mae gofyn iddynt gael cymorth mwy dwys gan dîm ADTRAC er mwyn eu symud tuag at y farchnad lafur.

### Dyfodol ADTRAC

8.21 Gwelwyd cryn gefnogaeth ar gyfer ADTRAC, a mynegwyd pryderon gan sawl rhanddeiliad ynghylch y bwlch mawr yn y ddarpariaeth cymorth lleol a fyddai heb y cymorth yn ei le.

8.22 Yn ogystal, mynegwyd pryderon mewn perthynas â gallu Cyd-fuddiolwyr i ddal gafael ar staff cymwys a medrus – estyniad neu ddarpariaeth amgen i staff – os na fydd staff yn siŵr a gaiff y prosiect ei ymestyn neu ei ddisodli mewn rhyw ffordd. O'r herwydd, dylai archwilio cyfleoedd i gynnal y ddarpariaeth neu ddarparu map trywydd ar gyfer dewis amgen fod yn flaenoriaeth ar gyfer cam nesaf y gwaith.

# 9. Argymhellion

9.0 Isod, nodir manylion argymhellion ynghylch sut y byddai modd gwella'r gweithrediad. Fodd bynnag, nodir y gallai cyd-destun COVID-19 olygu ei bod yn anodd cyflawni rhai o'r rhain.

### Targedau'r Prosiect

9.1 **Argymhelliad Un:** Dylai'r gweithrediad ystyried y targedau canlyniadau a chyfranogi arfaethedig yng nghyd-destun y grŵp cyfranogwyr a'r amserlenni ar gyfer cymorth, gan ystyried diwygio targedau yng nghyd-destun dirwasgiad posibl. Dylai'r gweithrediad ystyried ddiwygio targedau i lawr yng nghyd-destun yr effaith y mae COVID-19 yn debygol o'i chael ar gyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant sydd ar gael, a bydd angen ystyried yr ardaloedd sy'n gwahardd ADTRAC, megis Cymunedau yn Gyntaf.

9.2 **Argymhelliad Dau:** Dylai'r gweithrediad archwilio strategaethau er mwyn cynyddu cyfranogiad gan fenywod, yn ogystal ag unigolion sydd â chyfrifoldebau gofal plant neu gyfrifoldebau gofalu eraill. Fodd bynnag, os nodir bod darpariaeth briodol eisoes ar gael trwy gyfrwng rhaglenni eraill megis PaCE, ni ddylai ADTRAC ddyblygu'r ddarpariaeth hon.

### Darparu'r Prosiect

9.3 **Argymhelliad Tri:** Dylai BIPBC gyflymu'r broses o recriwtio Ymarferwyr Lles Cynorthwyol er mwyn sicrhau y gellir bodloni anghenion cyfranogwyr.

9.4 **Argymhelliad Pedwar:** Gallai'r gweithrediad weithio law yn llaw â GC a Gweithio dros Gymru er mwyn archwilio cyfleoedd i ddarparu cymorth cyffyrddiad ysgafn i gyfranogwyr a adawodd yn ddiweddar, ac y gallent fod mewn perygl o fod yn NEET unwaith eto o ganlyniad i COVID-19, gyda'r nod o leihau'r effaith.

### Anghenion Ymchwil yn y Dyfodol

9.5 **Argymhelliad Pump:** Gallai ymchwil pellach geisio archwilio effaith hydredol y cymorth er mwyn nodi a yw'r cymorth a ddarperir gan ADTRAC yn helpu cyfranogwyr i symud yn agosach at EET yn y tymor hir, hyd yn oed os na all

cyfranogwyr gyflawni canlyniad yn ystod amserlenni y gweithrediad. Ymhellach, gallai archwilio'r graddau y mae canlyniadau caled llwyddiannus a gyflawnwyd erbyn gadael ADTRAC wedi cael eu cynnal yn y tymor hir.

9.6 **Argymhelliad Chwech:** Dylai gwaith gwerthuso yn y dyfodol geisio archwilio tybiaethau carfan ehangach o gyfranogwyr er mwyn sicrhau bod safbwyntiau yn gynrychioladol o grŵp cyfan y cyfranogwyr. Dylai hyn gynnwys – os oes modd – ymgysylltu ag unigolion sydd wedi ymddieithrio o'r cymorth, er mwyn deall meysydd posibl ar gyfer gwelliant.

### Dyfodol ADTRAC

9.7 **Argymhelliad Saith:** Ceir achos dros awdurdodau lleol yn gweithio gyda Phartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, yn ogystal â BIPBC, er mwyn nodi cyfleoedd i ymestyn ADTRAC neu ei ddisodli gyda darpariaeth debyg pan fydd cylch cyllido cyfredol ESF yn dod i ben.

9.8 **Argymhelliad Wyth:** Gan adlewyrchu llwyddiannau ADTRAC wrth sicrhau canlyniadau meddal, ond hefyd, ei drafferthion wrth gyflawni targedau canlyniadau caletach, mae'n ymddangos bod ADTRAC yn llwyddiannus wrth symud cyfranogwyr yn agosach at EET, ond efallai nad yw'n llwyddiannus wrth gyflawni canlyniadau cyflogaeth ar ei ben ei hun. Os cynllunnir rhaglen i olynu ADTRAC, gellid ystyried rhoi mwy o bwyslais ar ddarpariaeth ar gyfer pobl sy'n agosach i'r farchnad lafur, megis lleoliadau profiad gwaith a gwirfoddoli. Byddai'r ddarpariaeth hon yn datblygu'r canlyniadau meddal a gyflawnwyd, a byddai'n cynorthwyo cyfranogwyr i sicrhau gwaith, gan sicrhau bod cyfranogwyr yn parhau i gael cymorth mentora wrth iddynt symud i brofiad gwaith. Neu, gellid ystyried cyfeiriadau i ddarpariaeth arall ar gyfer unigolion sy'n agosach i'r farchnad lafur yn ganlyniad llwyddiannus ar gyfer y ddarpariaeth ar gyfer unigolion sydd bellaf i ffwrdd o'r farchnad lafur.

# Cyfeiriadau


Allen, M., 2014. *Reducing the number of young people not in employment, education or training (NEET),* Llundain: Public Health England.

Comisiwn Archwilio, 2010. *Against the odds: re-engaging young people in education, employment or training: local government,* Llundain: Comisiwn Archwilio.

Aylward, N., Klenk, H., Robey-Turner, C. a Wolkind, R., 2018. *Barriers to employment for young adult carers,* Caerlŷr: Sefydliad Dysgu a Gwaith.

BBC, 2020. *Coronavirus: Chancellor Rishi Sunak warns of 'significant recession'.* [Ar-lein]
Ar gael trwy droi at: https://www.bbc.co.uk/news/business-52641807
[Cyrchwyd 15 Mai 2020].

BBC, 2020. *Coronavirus: One million under-25s face unemployment, study warns.* [Ar-lein]
Ar gael trwy droi at: https://www.bbc.co.uk/news/uk-52555978
[Cyrchwyd 21 Mai 2020].

Bentall, R. et al., 2020. *Covid-19 Psychological Research Consortium: Initial Research Findings on COVID-19 and Mental Health in the UK,* Sheffield: Prifysgol Sheffield.

Sefydliad Bevan, 2020. *Where next for the Welsh economy?,* Merthyr Tudful: Sefydliad Bevan.

Boyatzis, R. E., 1998. *Transforming qualitative information: Thematic analysis and code development,* Thousand Oaks, CA: Sage.

Braun, V. a Clarke, V., 2013. *Successful qualitative research: A practical guide,* Llundain: SAGE.

Gyrfa Cymru, 2020. *Bwletin GML Gyrfa Cymru: Effaith pandemig COVID-19 ar y farchnad lafur yng Nghymru,* s.l.: s.n.

Carers UK, 2016. *10 facts about women and caring in the UK on International Women's Day - based on analysis from Valuing Carers 2015.* [Ar-lein]
Ar gael trwy droi at: https://www.carersuk.org/news-and-campaigns/features/10-facts-about-women-and-caring-in-the-uk-on-international-women-s-day
[Cyrchwyd 4 Mai 2020].

Coles, B. et al., 2010. *Estimating the life-time cost of NEET: 16-18 year olds not in Education, Employment and Training. Research Undertaken for the Audit Commission,* Efrog: Prifysgol Efrog.

Crawford, C., Duckworth, K., Vinoles, A. a Wyness, G., 2011. *Young people's education and labour marker choices aged 16/17 to 18/19,* Llundain: Adran Addysg.

Edwards, K., 2016. *Mapio'r Ddarpariaeth a'r Cymorth ar gyfer Pobl Ifanc 16-24 yng Ngogledd Cymru: Adroddiad Prosiect,* s.l.: Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

Friedli, L. a Parsonage, M., 2009. *Promoting mental health and preventing mental illness: the economic case for investment in Wales,* s.l.: Rhwydwaith Hyrwyddo Iechyd Meddwl.

Goldman-Mellor, S. et al., 2015. Committed to work but vulnerable: self-perceptions and mental health in NEET 18-year olds from a contemporary British cohort. *The Journal of Child Psychology and Psychiatry,* 57(2), pp. 196-203.

Groundwork Gogledd Cymru, n.d. *TRAC.* [Ar-lein]
Ar gael trwy droi at: https://www.groundworknorthwales.org.uk/latest/projects/trac/
[Cyrchwyd 21 Awst 2019].

Groundwork, n.d. *Mental health support available for NEET young people in Warwickshire.* [Ar-lein]
Ar gael trwy droi at: https://www.groundwork.org.uk/mental-health-support-available-for-neet-young-people-in-warwickshire
[Cyrchwyd 21 Awst 2019].

Guest, G., MacQueen, K. M. a Namey, E. E., 2012. *Applied Thematic Analysis,* Los Angeles: SAGE.

Arolwg Iechyd Lloegr, 2016. *Wellbeing and Mental Health.* [Ar-lein]
Ar gael trwy droi at: http://healthsurvey.hscic.gov.uk/support-guidance/public-health/health-survey-for-england-2016/well-being-and-mental-health.aspx
[Cyrchwyd 3 Ebrill 2020].

Kessler, R. C. et al., 2005. Lifetime Prevalence and Age-of-Onset Distributions of DSM-IV Disorders in the National Comorbidity Survey Replication. *Archives of General Psychiatry,* 62(6), pp. 593-602.

Coleg Kings Llundain, 2015. *Unemployment takes its toll on young people's mental health.* [Ar-lein]
Ar gael trwy droi at:
https://www.kcl.ac.uk/ioppn/news/records/2015/september/unemployment-takes-its-toll-on-young-peoples-mental-health
[Cyrchwyd 21 Awst 2019].

Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, 2017. *Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru,* s.l.: NWEAB.

Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru, 2020. *COVID-19 Labour Market Insights: North Wales, Mehefin 2020,* s.l.: s.n.

Swyddfa Ystadegau Gwladol ONS, 2019. *Pobl ifanc heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET), DU: Mai 2019.* [Ar-lein]
Ar gael trwy droi at:
https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peoplenotinwork/unemployment/bulletins/youngpeoplenotineducationemploymentortrainingneet/may2019
[Cyrchwyd 22 Awst 2019].

Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2019. *Pobl ifanc heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET), y Flwyddyn tan 31 Mawrth 2019.* [Ar-lein]
Ar gael trwy droi at: https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-08/young-people-not-in-education-employment-or-training-neet-2018-to-2019-649.pdf
[Cyrchwyd 22 Awst 2019].

ONS, 2016. *Women shoulder the responsibility of 'unpaid work'.* [Ar-lein]
Ar gael trwy droi at:
https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/articles/womenshouldertheresponsibilityofunpaidwork/2016-11-10
[Cyrchwyd 4 Mai 2020].

Powell, A., 2018. *NEET: Young People Not,* Llundain: Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin.

Powell, R., Bashir, N., Crisp, R. a Parr, S., 2015. *Talent Match Case Study Theme Report: Mental Health & Wellbeing,* Sheffield: Prifysgol Sheffield Hallam.

Ymddiriedolaeth y Tywysog, 2015. *The Prince's Trust Macquarie Youth Index 2015,* s.l.: Ymddiriedolaeth y Tywysog.

Robertson, P. J., 2018. The casualties of transition: the health impact of NEET status and some approaches to managing it. *British Journal of Guidance & Counselling,* 47(3), pp. 390-402.

Siegriest, J. et al., 2010. *Employment arrangements, work conditions and health inequalities,* s.l.: s.n.

Singh, S. P. et al., 2010. *Transition from CAMHS to Adult Mental Health Services (TRACK): A Study of Service Organisation, Policies, Process and User and Carer Perspectives,* s.l.: s.n.

StatsCymru, 2019. *Graddfa Lles Meddwl Warwick-Edinburgh (WEMWBS) fesul grŵp oedran a rhyw.* [Ar-lein]
Ar gael trwy droi at: https://statswales.gov.wales/Catalogue/National-Survey-for-Wales/Population-Health/Mental-Health-and-Wellbeing/wemwbsscore-by-age-gender
[Cyrchwyd 29 Ebrill 2020].

Ysgol Feddygol Warwick, 2020. *Collect, score, analyse and interpret WEMWBS.* [Ar-lein]
Ar gael trwy droi at:
https://warwick.ac.uk/fac/sci/med/research/platform/wemwbs/using/howto/
[Cyrchwyd 29 Ebrill 2020].

Llywodraeth Cymru, 2013. *Fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuenctid. Cynllun Gweithredu. Crynodeb Gweithredol,* s.l.: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru, 2016. *Dogfennau Allweddol Themâu Trawsbynciol – Cronfa Gymdeithasol Ewrop: Integreiddio'r Themâu Trawsbynciol ar draws Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2014-2020,* s.l.: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru, 2018. *Cynllun Cyflogadwyedd,* s.l.: Llywodraeth Cymru.

YoungMinds, 2020. *Coronavirus having major impact on young people with mental health needs – new survey.* [Ar-lein]
Ar gael trwy droi at: https://youngminds.org.uk/about-us/media-centre/press-releases/coronavirus-having-major-impact-on-young-people-with-mental-health-needs-new-survey/
[Cyrchwyd 15 Mai 2020].

# 11. Atodiad A: Offerynnau Ymchwil

**Cyfweliadau Manwl dros y Ffôn gyda Staff Rheoli a Darparu: Canllaw Trafod**

**Cyflwyniad**

1. A fyddech gystal ag amlinellu eich rôl yn fyr, ynghyd â'ch cyswllt gydag ADTRAC.
   a. A ydych chi'n cyflawni rôl rheoli neu ddarparu uniongyrchol?

**Prosesau Recriwtio a Chyfeirio**

*Fel rhan o'r cyfweliad hwn, hoffem feithrin ein dealltwriaeth o daith y cyfranogwr er mwyn cael ymdeimlad gwell o sut y mae cyfranogwyr yn ymgysylltu ag ADTRAC.*

2. Beth yw'r llwybrau cyfeirio arferol sy'n arwain atoch yn ymgysylltu gyda chyfranogwyr?
   a. A ydych chi'n teimlo bod hwn yn ddull priodol i'w fabwysiadu?
   b. A oes unrhyw sialensiau penodol yr ydych chi'n eu hwynebu wrth nodi neu ymgysylltu gyda chyfranogwyr?
   c. Ym mha ffyrdd, os o gwbl, y byddai modd gwella llwybrau cyfeirio?

3. Pa ddulliau a ddefnyddir i ymgysylltu gyda chyfranogwyr cyn cofrestru (cyn-ymgysylltu)?
   a. Yn eich barn chi, pa mor effeithiol yw'r prosesau hyn? A oes unrhyw ffyrdd y byddai modd gwella gweithgarwch cyn-ymgysylltu?

4. Yn eich ardal chi, pa mor effeithiol y bu'r prosiect wrth gyflawni ei dargedau recriwtio?
   a. A oes unrhyw grwpiau penodol y mae'r prosiect wedi ei chael hi'n anodd ymgysylltu â nhw? Os oes, pa strategaethau y byddai modd eu gweithredu er mwyn goresgyn y sialensiau hyn?

**Darparu Cymorth i Gyfranogwyr**

5. Rydym yn deall bod y prosiect yn defnyddio WEMWBS (Graddfa Lles Meddyliol Warwick-Edinburgh) a Work Star er mwyn nodi anghenion cyfranogwyr. Yn eich barn chi, a yw'r prosesau hyn yn effeithiol?
   a. A oes unrhyw ffyrdd y byddai modd gwella hyn?

6. Pa fath o gynllunio gweithredu yr ydych chi'n ei wneud gyda chyfranogwyr?
   a. A ydych chi'n dychwelyd i'r cynlluniau gweithredu hyn gyda chyfranogwyr?

7. Pa fath o gymorth yr ydych chi'n ei ddarparu i gyfranogwyr?
   a. Pa ddulliau a ffurfiau cymorth/gweithgareddau y mae'n ymddangos eu bod yn gweithio yn arbennig o dda ar gyfer cyfranogwyr?

b. A oes mathau penodol o gyfranogwyr y mae'r cymorth yn gweithio'n well ar eu cyfer nag eraill?
c. Yn eich barn chi, a yw amrediad yr ymyriadau a gynigir gan ADTRAC yn addas i anghenion y cyfranogwyr? A oes unrhyw beth y byddech chi'n ei newid?

**Cyflawni Canlyniadau**

8. Yn gyffredinol, sut ydych chi'n teimlo yr ydych yn cyflawni yn erbyn targedau canlyniadau allweddol ar gyfer prosiect ADTRAC?

9. Beth fyddech chi'n dweud fu prif effeithiau y cymorth a gynigir trwy ADTRAC ar y bobl ifanc sy'n cael cymorth? A ydych chi'n gallu darparu unrhyw enghreifftiau penodol o'r rhain?

   Mae gennym ddiddordeb penodol yn:

   a. A yw'r prosiect wedi cynorthwyo unigolion i feithrin eu sgiliau swydd a'u profiad?
   b. I ba raddau y mae'r prosiect wedi cynorthwyo unigolion i ddatblygu eu huchelgais?
   c. I ba raddau y mae'r prosiect wedi cyfrannu at unigolion yn meithrin sgiliau meddwl megis hyder neu gymhelliant?
   d. I ba raddau y mae'r ymyriad wedi gwella sefydlogrwydd ar gyfer cyfranogwyr?
   e. I ba raddau y mae'r prosiect wedi cynorthwyo cyfranogwyr i feithrin sgiliau newydd?

10. Yn arbennig, a yw'r prosiect wedi cyfrannu at iechyd meddwl a lles gwell cyfranogwyr? A ydych chi'n gallu rhoi enghreifftiau?
    a. A oes unrhyw enghreifftiau neu ddulliau penodol sydd wedi bod yn effeithiol wrth helpu i gyflawni canlyniadau lles y cyfranogwyr hyn yn eich barn chi?

**Gweithio mewn Partneriaeth**

*Fel rhan o'r gwerthusiad hwn, mae gennym ddiddordeb yn y ffordd y mae'r dull amlasiantaethol wrth ddarparu ADTRAC wedi effeithio ar arferion gwaith sefydliadau a fu'n cymryd rhan a'r cynnig sydd ar gael i'r garfan a dargedir.*

11. Mae ADTRAC yn ffrwyth cydweithio rhwng sefydliadau lluosog. A yw'r model hwn wedi helpu i gryfhau perthnasoedd rhwng eich sefydliad chi a phartneriaid eraill a fu'n ymwneud â'r prosiect? Os ydy, sut?
    a. A yw'r dull gweithredu amlasiantaethol wedi helpu i wella'r cydweithio rhwng y sefydliadau partner sy'n darparu ADTRAC? Os felly, sut?
    b. A oes unrhyw ffyrdd y byddai modd gwella'r cydweithio rhwng y sefydliadau partner?

12. A yw cynnwys y sefydliadau partner eraill wedi newid arfer gweithio yn eich sefydliad chi? Ym mha ffyrdd?

*Un o'r agweddau unigryw ar ADTRAC, o'i gymharu â chymorth arall er mwyn symud pobl ifanc i'r farchnad lafur, fu'r ffaith ei fod wedi cynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) a gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol hyfforddedig.*

13. Pa effaith – os o gwbl – y mae cyswllt BIPBC wedi'i gael ar ddarparu'r prosiect a chanlyniadau ADTRAC?

14. A yw cyswllt Betsi Cadwaladr wedi helpu i ychwanegu capasiti neu uwchsgilio unigolion yn eich sefydliad? Os felly, sut?

15. I ba raddau yr ydych chi – a'ch tîm – wedi ymgorffori'r Bum Ffordd i sicrhau Lles yn eich gwaith?
    a. A oes gofyn i chi gael unrhyw gymorth ychwanegol yn y maes hwn?
    b. A yw'r Bum Ffordd i sicrhau Lles wedi bod yn offeryn defnyddiol er mwyn cynorthwyo ac ymgysylltu â'r garfan? Esboniwch eich ateb.

16. I ba raddau yr ydych chi'n teimlo bod ADTRAC yn cyflawni yn unol ag amcanion y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid? Esboniwch eich ateb.

**Themâu Trawsbynciol**

*Gan bod ADTRAC yn cael arian gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop, mae gofyn iddo fodloni'r Themâu Trawsbynciol. Y rhain yw datblygu cynaliadwy a chydraddoldeb rhyw a chyfle cyfartal.*

17. A ydych chi'n gallu darparu unrhyw enghreifftiau o'r ffyrdd y mae'r Themâu Trawsbynciol hyn wedi cael eu hyrwyddo o fewn ADTRAC (gan gynnwys hyrwyddo'r iaith Gymraeg)?

**Myfyrdodau Olaf**

18. Pa newidiadau, os o gwbl, y byddech chi'n eu gwneud er mwyn gwella ADTRAC?

19. Gan edrych at y dyfodol, beth yw'r prif risgiau y gallent effeithio ar lwyddiant ADTRAC yn eich barn chi? A oes gennych chi unrhyw awgrymiadau ynghylch sut y byddai modd goresgyn y risgiau hyn?

20. A oes gennych chi unrhyw beth i'w ychwanegu neu a hoffech chi godi mater nad ydym wedi ei drafod?

**Cyfweliadau Manwl gyda Chyfranogwyr y Prosiect: Canllaw Trafod**

1. Pa weithgareddau yr ydych chi wedi'u gwneud gydag ADTRAC?

2. Sut ddechreuodd eich cyswllt gydag ADTRAC?
   a. A fu dechrau cymryd rhan yn broses syml? Unrhyw awgrymiadau am welliannau?

3. Beth ydych chi'n gobeithio ei sicrhau trwy eich cyswllt gydag ADTRAC?

4. A oddech chi'n teimlo bod unrhyw rwystrau a oedd yn eich atal chi rhag sicrhau cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant cyn dechrau gydag ADTRAC? Os oedd, beth oedd y rhain?

5. A yw'r cymorth yr ydych chi wedi'i gael trwy ADTRAC wedi helpu i roi sylw i'r rhwystrau hyn neu eu goresgyn?

6. Cyn ymuno ag ADTRAC, a oeddech chi wedi cael unrhyw gymorth arall i'ch helpu i sicrhau cyflogaeth neu addysg? Sut mae ADTRAC yn wahanol i'r cymorth hwn?

7. Pa effaith y mae'r cymorth yr ydych chi wedi'i gael gan ADTRAC wedi ei gael arnoch chi?
   a. A ydych chi wedi dysgu unrhyw sgiliau newydd neu wella'ch cyflogadwyedd?
   b. A yw'ch uchelgais neu'ch nodau wedi newid?
   c. A ydych chi wedi profi unrhyw newid i'ch lles neu'ch iechyd meddwl?
   d. A ydych chi wedi sylwi ar unrhyw newid yn eich hyder neu'ch perthnasoedd cymdeithasol?
   e. A yw ADTRAC wedi cael unrhyw effeithiau eraill arnoch chi?

8. A ydych chi wedi trafod eich lles gyda chynghorwyr ADTRAC? Os felly, a fu hyn yn ddefnyddiol?

9. Beth yw eich barn chi am y cymorth a ddarparwyd gan ADTRAC?
   a. Beth fu'r agweddau mwyaf llwyddiannus ar y cymorth yr ydych chi wedi'i gael/gweithgareddau yr ydych chi wedi'u cyflawni? Pam?
   b. Beth fu'r agweddau lleiaf defnyddiol ar y cymorth yr ydych chi wedi'i gael/gweithgareddau yr ydych chi wedi'u cyflawni? Pam?

10. Yn eich barn chi, a fyddai modd gwneud unrhyw welliannau i ADTRAC?

11. Pe byddai ffrind yn gofyn i chi a ddylen nhw gymryd rhan yn ADTRAC, beth fyddech chi'n ei ddweud wrthynt?

12. A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei rannu am eich profiad o ADTRAC?

**Arolwg ar gyfer Staff Rheoli a Darparu: Holiadur**

Mae Wavehill yn cynnal gwerthusiad o ADTRAC ar ran Grŵp Llandrillo Menai. Defnyddir y wybodaeth a gesglir er mwyn helpu Grŵp Llandrillo Menai a phartneriaid eraill y prosiect i ddeall y gwahaniaeth y mae'r rhaglen yn ei wneud, ac i ddysgu o'r profiad o ddarparu'r rhaglen. Dewiswyd unigolion y cysylltwyd â nhw fel rhan o'r arolwg oherwydd eu bod yn ymwneud â darpariaeth ADTRAC. Mae'r penderfyniad i gymryd rhan yn yr arolwg, fodd bynnag, yn un gwirfoddol. Gallwch chi benderfynu peidio ateb cwestiynau penodol os ydych yn dymuno. Caiff unrhyw wybodaeth bersonol a gesglir fel rhan o'r arolwg ei thynnu allan cyn gwneud y gwaith dadansoddi. Ni chyhoeddir eich atebion i'r arolwg mewn ffordd a allai olygu bod partneriaid darparu ADTRAC neu unrhyw un arall yn eich adnabod. Cedwir y wybodaeth ddienw mewn ffordd ddiogel ac fe'i defnyddir at ddibenion ymchwil anfasnachol yn unig, er mwyn gwerthuso ADTRAC yn benodol. Caiff eich data personol ei ddileu chwe mis ar ôl cwblhau'r gwerthusiad. Ar hyn o bryd, rhagwelir mai ym mis Chwefror 2021 fydd hyn. Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu os hoffech drafod unrhyw fater sy'n ymwneud â'r gwerthusiad hwn, gallwch gysylltu â Tom Marshall, sy'n arwain y tîm sy'n cynnal y gwerthusiad yn Wavehill (tom.marshall@wavehill.com | 01545 571711), neu gallwch gysylltu â Sara Williams yng Ngrŵp Llandrillo Menai (willia16s@gllm.ac.uk). Gellir gweld copi o'n hysbysiad preifatrwydd yma.

C2 A ydych chi'n hapus i barhau gyda'r holiadur?

*Sylwer y gallwch dynnu eich caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg yn ystod yr holiadur*

- o Ydw
- o Nac ydw

*Dangoswch y cwestiwn hwn:*

*Os A ydych chi'n hapus i barhau gyda'r holiadur? Sylwer y gallwch dynnu eich caniatâd yn ôl... = Nac ydw*

C3 ***Diolch am eich amser.*** *Er mwyn gadael yr arolwg hwn, gallwch gau y tab hwn yn eich porwr.*

C4 Nodwch pa sefydliad yr ydych chi'n gysylltiedig ag ef.

*Ticiwch bob un sy'n berthnasol*

- ☐ Cyngor Sir Ynys Môn
- ☐ Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- ☐ Cyngor Sir Ddinbych
- ☐ Cyngor Sir Gwynedd
- ☐ Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- ☐ Cyngor Sir y Fflint
- ☐ Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

C5 Beth yw teitl eich swydd?

______________________________________________________________

C6 A yw'ch rôl yn cynnwys...?

*Ticiwch bob un sy'n berthnasol*

- ☐ Rheoli staff sy'n darparu ADTRAC
- ☐ Ymgysylltu mewn ffordd uniongyrchol gyda chyfranogwyr y prosiect

C7 I ba raddau yr ydych chi'n cytuno gyda'r datganiadau canlynol?

| | Anghytuno'n gryf | Anghytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Cytuno | Cytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| Mae ADTRAC wedi cael ei farchnata a'i hyrwyddo mewn ffordd effeithiol i sefydliadau partner | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Mae ADTRAC wedi cael ei farchnata a'i hyrwyddo mewn ffordd effeithiol i sefydliadau sy'n cyfeirio | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Mae ADTRAC wedi cael ei farchnata a'i hyrwyddo mewn ffordd effeithiol i ddarpar gyfranogwyr | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Ceir lefelau ymwybyddiaeth da o'r cymorth a gynigir gan ADTRAC ymhlith sefydliadau sy'n cyfeirio | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Ceir lefelau ymwybyddiaeth da o'r cymorth a gynigir gan ADTRAC ymhlith pobl ifanc a dargedir | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Mae prosesau cyfeirio yn glir ac yn hawdd i'w deall | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Mae targedau cyfranogwyr yn realistig ac o fewn cyrraedd | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |

C8 Esboniwch eich atebion i'r cwestiynau uchod yma.

________________________________________________________________

C9 I ba raddau yr ydych chi'n cytuno gyda'r datganiadau canlynol?

| | Anghytuno'n gryf | Anghytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Cytuno | Cytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| Ceir prosesau da i nodi anghenion cyfranogwyr (gan gynnwys anghenion iechyd meddwl) | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Mae prosesau cynllunio gweithredu yn briodol ac yn addas i'r diben | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Ailystyrir nodau cyfranogwyr a chynllunio gweithredu yn ddigon rheolaidd | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Mae ADTRAC yn cynnig gweithgareddau priodol er mwyn bodloni anghenion cyflogadwyedd a diddordebau cyfranogwyr | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Mae ADTRAC yn cynnig gweithgareddau priodol er mwyn bodloni anghenon iechyd meddwl a lles cyfranogwyr | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |

C10 Esboniwch eich atebion i'r cwestiynau uchod yma.

________________________________________________________________

C11 Yn eich barn chi, beth yw'r agweddau mwyaf llwyddiannus ar ddarpariaeth cymorth ADTRAC?

________________________________________________________________

C12 Beth fu'r prif sialensiau yr ydych chi wedi'u profi wrth ddarparu cymorth ADTRAC hyd yn hyn?

*Nodwch gymaint o fanylion ag y bo modd*

________________________________________________________________

C13 I ba raddau yr ydych chi'n cytuno gyda'r datganiadau canlynol?

| | Anghytuno'n gryf | Anghytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Cytuno | Cytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| Mae'r cymorth a ddarperir gan ADTRAC yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol parhaus ar gyfer cyfranogwyr unigol | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Caiff ADTRAC ei integreiddio yn dda ymhlith cymorth arall sy'n ceisio sicrhau cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant i bobl ifanc yng Ngogledd Cymru | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Bu cyfranogwyr a'u teuluoedd yn fodlon ymgysylltu â'r cymorth a ddarperir gan ADTRAC | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |

C14 Hyd eithaf eich gwybodaeth, a oes unrhyw rwystrau cyffredin y mae cyfranogwyr yn eu hwynebu sy'n eu hatal rhag sicrhau cyflogaeth neu ymgymryd ag addysg neu hyfforddiant?

*Dewiswch y tri rhwystr mwyaf arwyddocaol yn eich barn chi*

- ▢ Iechyd meddwl a lles gwael
- ▢ Bywyd teuluol neu gartref cymhleth
- ▢ Problemau tai
- ▢ Camddefnyddio sylweddau
- ▢ Diffyg cyfleoedd
- ▢ Problemau ariannol, gan gynnwys problemau sy'n ymwneud â bod yn gymwys i gael budd-daliadau
- ▢ Diffyg uchelgais
- ▢ Hyder isel
- ▢ Problemau trafnidiaeth
- ▢ Diffyg profiad
- ▢ Diweithdra cenedliadol yn yr ardal leol
- ▢ Diffyg sgiliau/cymwysterau
- ▢ Arall [Nodwch]

*Dangoswch y cwestiwn hwn:*

*Os Hyd eithaf eich gwybodaeth, a oes unrhyw rwystrau cyffredin y mae cyfranogwyr yn eu hwynebu sy'n eu hatal... = Arall [Nodwch]*

C15 Os Arall, nodwch.

______________________________________________________________

C16 I ba raddau yr ydych chi'n credu bod y cymorth a ddarperir gan ADTRAC yn briodol er mwyn goresgyn y rhwystrau yr ydych chi wedi'u nodi uchod?

- o Ddim o gwbl
- o I ryw raddau
- o Mae'n dda er mwyn eu goresgyn
- o Mae'n dda iawn er mwyn eu goresgyn

C17 Esboniwch eich ateb.

______________________________________________________________

C18 Pa agweddau ar y cymorth a ddarperir gan ADTRAC yw'r rhai mwyaf llwyddiannus er mwyn goresgyn y rhwystrau a nodwyd gennych chi uchod yn eich barn chi?

*${C14/GrŵpDewis/Dewisiadau a Ddewiswyd}*

______________________________________________________________

C19 Hyd eithaf eich gwybodaeth, a yw hi wedi bod yn gyffredin i unrhyw rai o'r rhwystrau canlynol atal cyfranogwyr rhag <u>ymgysylltu</u> ag ADTRAC (naill ai yn ystod y cam cychwynnol neu dan drefniant parhaus)?

*Ticiwch bob un sy'n berthnasol*

- ▢ Mae gofyn cael tystiolaeth i ddangos cymhwystra (megis y ffaith nad oes ganddynt ddogfennau adnabod priodol)
- ▢ Iechyd meddwl a lles gwael
- ▢ Diffyg cyfleoedd sy'n berthnasol i'w diddordeb neu
- ▢ Problemau ariannol, gan gynnwys materion sy'n ymwneud â bod yn gymwys i gael budd-daliadau
- ▢ Ymrwymiad amser
- ▢ Problemau trafnidiaeth neu leoliad y cymorth
- ▢ Arall [Nodwch]
- ▢ Dim un o'r uchod

*Dangoswch y cwestiwn hwn:*

*Os Hyd eithaf eich gwybodaeth, a yw hi wedi bod yn gyffredin i unrhyw rai o'r rhwystrau canlynol atal cyfranogwyr... = Arall [Nodwch]*

C20 Os Arall, nodwch.

________________________________________________________________

C21 I ba raddau yr ydych chi'n cytuno bod ADTRAC yn sicrhau'r canlyniadau canlynol ar gyfer cyfranogwyr

| | Anghytuno'n gryf | Anghytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Cytuno | Cytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwelliant mewn hyder cymdeithasol a pherthnasoedd cymdeithasol | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Mwy o hyder yn eu gallu a'u gallu sy'n gysylltiedig â gwaith | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Iechyd meddwl a/neu les gwell | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Gwelliannau ymddygiadol | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Mwy o gymhelliant neu uchelgais sy'n ymwneud â chyflogaeth, addysg a/neu hyfforddiant | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Mwy o gymhelliant neu uchelgais yn eu bywyd dyddiol | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Sefydlogrwydd, gan gynnwys sefydlogrwydd ariannol neu ym mywyd y cartref | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Sgiliau sylfaenol fel rheoli amser, bod yn brydlon, a chyfathrebu | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Sgiliau swydd neu sgiliau cyflogadwyedd | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Sgiliau chwilio am swydd | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Sgiliau allweddol neu gymwysterau a sicrhawyd | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Sicrhau addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |

C22 Yn eich barn chi, beth fu prif effeithiau y cymorth a gynigiwyd trwy ADTRAC ar y bobl ifanc sy'n cael cymorth? A ydych chi'n gallu cynnig unrhyw enghreifftiau penodol o'r rhain?

____________________________________________________________________

C23 A yw'ch tîm yn darparu cymorth i unrhyw gyfranogwyr trwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd?

- o Ydy
- o Nac ydy

C24 A yw'ch tîm yn gallu bodloni'r angen lleol i ddarpariaeth gael ei darparu trwy gyfrwng y Gymraeg?

- o Ydy
- o Nac ydy

*Dangoswch y cwestiwn hwn:*

*Os A yw'ch tîm yn gallu bodloni'r angen lleol i ddarpariaeth gael ei ddarparu trwy gyfrwng y Gymraeg = Nac ydy*

C25 Esboniwch pa sialensiau yr ydych chi'n eu hwynebu.

____________________________________________________________________

C26 Agwedd unigryw ar ADTRAC yw'r ffaith bod y prosiect yn cynnwys ymarferwyr iechyd meddwl sydd wedi cael hyfforddiant clinigol. Yn eich barn chi, pa fanteision y mae hyn wedi ei ddwyn i'r prosiect?

____________________________________________________________________

C27 I ba raddau yr ydych chi'n cytuno gyda'r datganiadau canlynol?

| | Anghytuno'n gryf | Anghytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Cytuno | Cytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| Mae cynnwys ymarferwyr iechyd meddwl hyfforddedig wedi ein galluogi i fodloni anghenion y bobl ifanc yr ymgysylltwyd â nhw trwy ADTRAC | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Mae cynnwys ymarferwyr iechyd meddwl hyfforddedig wedi ein helpu i leihau'r rhwystrau er mwyn i bobl ifanc ymgysylltu gyda chymorth er mwyn ymgymryd â chyflogaeth, hyfforddiant neu addysg | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Mae cynnwys ymarferwyr iechyd meddwl hyfforddedig yn y prosiect wedi fy helpu i feithrin dealltwriaeth well o anghenion lles ymhlith y bobl ifanc yr ydym yn gweithio gyda nhw | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Mae cynnwys ymarferwyr iechyd meddwl hyfforddedig yn y prosiect wedi fy helpu i ymgorffori gweithgarwch lles, megis y Bum Ffordd i sicrhau Lles, yn fy ngwaith | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |

C28 Pa newidiadau, os o gwbl, y byddech chi'n eu gwneud er mwyn gwella ADTRAC?

*A fyddech gystal â darparu cymaint o fanylion ag y bo modd*

______________________________________________________________________

C29 Diolch am neilltuo'r amser i gwblhau'r arolwg hwn!

Cliciwch fotwm 'cyflwyno' i gofnodi eich ymatebion.

**Mae Adtrac yn cael ei arwain gan:**

**Mae Adtrac yn cael ei ddarparu gan y partneriaid a ganlyn:**

**gllm.ac.uk/adtrac**